

Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2025-2026

Cyhoeddwyd 19 Tachwedd 2026

Cynnwys

Adran

Trosolwg....3
Perfformiad o ran y Dibenion Cyhoeddus....8
Diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol....57
Safonau Cynnwys....65

Atodiad

Mae Atodiadau 1-4 ar gael yma.

Trosolwg

O dan Siarter Frenhinol a Chytundeb y BBC, mae'n ofynnol i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth, sef gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. I gyflawni hyn, rhaid iddo gyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus a bennir gan Senedd y DU.

Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn nodi gwahanol rolau a dyletswyddau'r BBC ac Ofcom. Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am lywodraethu'r BBC, am ei bolisi golygyddol, am sicrhau ei fod yn cyflawni ei gylch gwaith, ac am bennu cyfeiriad strategol a chreadigol y sefydliad. Mae Ofcom yn gyfrifol am ddal y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd ac rydym yn gwneud hyn mewn tair ffordd: goruchwylio perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus; diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol; a rheoleiddio safonau cynnwys yn rhaglenni'r BBC. Bob blwyddyn, fel sy'n ofynnol gan Siarter y BBC, rydym yn cyhoeddi adroddiad ar berfformiad y BBC yn y meysydd hyn, a sut aethom ati i gyflawni ein rôl.

Yn y nawfed Adroddiad Blynyddol hwn ar y BBC, drwy ddefnyddio ymchwil helaeth i gynulleidfaoedd a data'r diwydiant a drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym wedi asesu sut mae'r BBC wedi cyflawni ei gylch gwaith dros flwyddyn ariannol 2025/26 hyd at 31 Mawrth 2026.

Perfformiad y BBC yn 2025/26 – yn gryno

Er gwaethaf pwysau cyllido mawr a newidiadau sylweddol yn y dirwedd cyfryngau, mae'r BBC yn dal i berfformio'n gryf o ran darparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Mae wedi parhau i fod yn boblogaidd gyda 80% o oedolion y DU yn dweud eu bod yn defnyddio gwasanaethau'r BBC bob wythnos yn 2025/26 o gymharu ag 83% y llynedd a gyda chynnwys y BBC yn cynrychioli 18% o'r holl wylio fideos yn y cartref, ffigur sydd wedi aros yn weddol sefydlog o'i gymharu â'r llynedd.

Cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus

Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas. Y BBC yw prif ddarparwr newyddion y DU, gan fod 77% o oedolion yn defnyddio gwasanaethau'r BBC ar gyfer newyddion bob mis ac mae wedi sefydlu presenoldeb sylweddol ar lwyfannau trydydd parti. Mae ymddiriedaeth a chywirdeb yn dal i fod yn gryfderau allweddol i newyddion y BBC, fodd bynnag, yn debyg i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSBs) eraill er bod sgoriau'r gynulleidfa i'r rhain wedi disgyn, ac mae'r canfyddiadau o ddidueddrwydd yn is.

Diben Cyhoeddus 2: Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed. Y BBC yw'r darparwr mwyaf o hyd o ran creu cynnwys gwreiddiol yn y DU i blant – mae'r amgylchedd yn dal yn heriol, ond mae'r BBC yn parhau i esblygu ac addasu o ran sut mae'n cyrraedd plant – ac eleni roedd cyrhaeddiad cyffredinol CBBC a CBeebies yn weddol sefydlog. Mae ei ddarpariaeth dysgu ffurfiol drwy Bitesize yn dal i gael ei gwerthfawrogi'n fawr – gydag 86% o ddefnyddwr yn dweud ei fod yn ddefnyddiol.

Diben Cyhoeddus 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau. Er bod y gwariant wedi disgyn, mae'r BBC yn dal i gynhyrchu llawer iawn o allbwn gwreiddiol. Mae'r rhan fwyaf o gynulleidfaoedd yn canmol y BBC am ddarparu 'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni a chynnwys' (63%) a darparu 'rhaglenni a chynnwys creadigol o ansawdd uchel' (62%), er bod y sgoriau'n dal yn is ymysg cynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol DE a phobl 16-24 oed.

Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y DU ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y DU. Mae'r BBC yn parhau i fuddsoddi ledled y DU ac i weithio gydag amrywiaeth eang o gynhyrchwyr. Mae'n dal i gael ei ddefnyddio'n eang ym mhob un o'r gwledydd a'r rhanbarthau, ond mae'r canfyddiadau o sut mae'n 'adlewyrchu bywydau pobl fel fi' yn dal i sgorio'n is na datganiadau sy'n ymwneud â dibenion cyhoeddus eraill. Wrth i'r BBC barhau i ganolbwyntio ar raglenni cynrychiolaeth a phortreadu 'effaith uchel', mae tensiynau posibl rhwng y ffocws hwn a pharhau i wasanaethu cynulleidfaoedd lleol.

Cystadleuaeth: Gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, mae'n gallu cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth - yn gadarnhaol ac yn negyddol. Er y byddwn yn parhau i asesu'r newidiadau i'r BBC fesul achos, mae ein hadolygiad diweddaraf o'r dystiolaeth o'r farchnad yn dangos, er bod y gynulleidfa yn dal i symud ar-lein, pe bai'r BBC yn cynnig newidiadau i'w wasanaethau llinol, y gallai newidiadau o'r fath fod yn fwy tebygol o gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth na'r rheini ar BBC iPlayer neu BBC Sounds.

Safonau: Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a wnaed i'r BBC yn 2025/26, sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â nifer o faterion golygyddol proffil uchel dros y cyfnod. Er gwaethaf hyn, roedd nifer y cwynion a oedd yn ymwneud â'r BBC a gafodd Ofcom wedi disgyn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Lansiodd Ofcom ddau ymchwiliad i gynnwys y BBC yn ystod 2025/26 gan ganfod ei fod wedi torri ei amodau yn y rhaglen ddogfen *Gaza: How to Survive a War Zone.* O ystyried difrifoldeb y tor-amod, fe wnaeth Ofcom orchymyn y BBC i ddarlledu crynodeb o'i ganfyddiadau.

Daw adroddiad eleni ar adeg hollbwysig. Mae'r broses o adnewyddu Siarter y BBC yn mynd rhagddi, a dros y misoedd nesaf disgwylir Papur Gwyn y Llywodraeth a fydd yn nodi'r cyfeiriad mae'n ei ffafrio ar gyfer dyfodol y BBC, gan gynnwys ei drefniadau cyllido. Mae'r Gorfforaeth hefyd dan arweinyddiaeth newydd, ar ôl penodi Matt Brittin yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yn y gwanwyn, ac mae'n rhoi cynlluniau ar waith i wneud arbedion sylweddol, gan gynnwys drwy leihau ei weithlu a'i wariant comisiynu, mewn ymateb i bwysau ariannol sylweddol iawn. Ar yr un pryd, mae'n datblygu strategaeth newydd i gyrraedd pob cynulleidfa, gan adlewyrchu'r newid parhaus yn lefelau gwylio cynulleidfaoedd oddi wrth wasanaethau darlledu llinol traddodiadol ac at wasanaethau ar-lein. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn golygu bod y BBC yn ail-lunio'r ffordd mae'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd, gan fynnu ei fod yn blaenoriaethu buddsoddiad ac yn gwneud dewisiadau gofalus ynghylch pa gynnwys sy'n cael ei gomisiynu, sut mae'n cael ei ddosbarthu a sut mae'n cael ei ddarganfod.

Mae'r BBC yn newid ei ddull gweithredu'n sylweddol o ran mynd i le mae'r cynulleidfaoedd

Yn y gorffennol rydym wedi dweud bod y BBC a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn wynebu heriau mawr o ran cyrraedd cynulleidfaoedd ar lwyfannau trydydd parti ac ystyried faint o gynnwys maent yn eu darparu a'i amrywiaeth a bod angen i'r darlledwyr weithio'n galetach o lawer i greu cynnwys y gallai'r cynulleidfaoedd hyn chwilio amdano. Bu newid sylweddol eleni yn null gweithredu'r BBC ac mae'n gyfle go iawn i'r BBC – rydym yn falch o weld ei fod yn dechrau cael effaith. Er enghraifft, roedd cynnydd o 21% yn nifer y sesiynau gwylio cynnwys y BBC ar YouTube dros y flwyddyn ddiwethaf ac, ym mis Ionawr 2026, cyhoeddodd bartneriaeth strategol newydd gyda YouTube, gan gynyddu ei fuddsoddiad mewn cynnwys gwreiddiol sydd wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer y llwyfan.

Rydym yn cytuno â'r BBC y bydd hi'n bwysig iddo barhau i gyrraedd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar draws pob llwyfan. Gall y newid hwn i'r dull gweithredu gyrraedd cynulleidfaoedd sy'n llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau'r BBC ar hyn o bryd.

Mae newyddion yn hanfodol i genhadaeth y BBC

Mae ein tystiolaeth yn dangos bod newyddion y BBC yn parhau i gael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi'n eang. Fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a sefydliadau newyddion eraill, mae'n gweithredu mewn amgylchedd heriol, gydag ymddygiadau cynulleidfaoedd yn newid ac ymddiriedaeth mewn newyddion a sefydliadau yn lleihau. Mae'r BBC yn parhau i berfformio'n dda er gwaethaf yr heriau hyn.

Mae darparu newyddion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ganolog i rôl gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Dyma'r darparwr newyddion sy'n cael ei ddefnyddio amlaf yn y DU o hyd; mae ei gyrhaeddiad misol o 77% yn tyfu i 80%, wrth gynnwys newyddion y BBC a welir ar lwyfannau trydydd parti. Mae cynulleidfaoedd mawr yn dal i ddod at y BBC ar draws ei amrywiaeth eang o allbwn, gan gynnwys ar y teledu, ar y radio ac ar-lein. Mae wedi cyflymu ei strategaeth newyddion digidol-yn-gyntaf, sy'n helpu i ddenu cynulleidfaoedd ar-lein, gan gynnwys ar YouTube a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol – er enghraifft mae 43% o bobl 16-24 oed yn dweud eu bod wedi dod ar draws cynnwys newyddion y BBC ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae cynulleidfaoedd yn parhau i werthfawrogi newyddion y BBC. Eleni, am y tro cyntaf, rydym wedi edrych ar ganfyddiadau defnyddwyr newyddion y BBC ar draws pob platfform, gan adlewyrchu'r ffordd y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio newyddion erbyn hyn. Mae 65% o gynulleidfaoedd y BBC yn ei sgorio'n uchel am gywirdeb, a 63% am ddibynadwyedd; mae newyddion lleol y BBC hefyd yn parhau i gael ei werthfawrogi'n fawr. Yn nhermau dibynadwyedd a chywirdeb, mae canfyddiadau'r gynulleidfa o ddidueddrwydd y BBC yn is, gyda 54% o gynulleidfaoedd y BBC yn ei sgorio'n uchel.

Mae data'r BBC ei hun yn dangos newidiadau dros amser, gyda gostyngiadau ar draws y tri mesur ymhlith yr holl oedolion (h.y. nid dim ond defnyddwyr y BBC). Rhwng 2021/22 a 2025/26, mae'r gyfran sy'n credu bod y BBC yn effeithiol wrth ddarparu newyddion a materion cyfoes cywir wedi gostwng o 63% i 56%; mae'r ffigur ar gyfer dibynadwyedd wedi gostwng o 63% i 55%, ac ar gyfer didueddrwydd o 51% i 45%. Fodd bynnag, nid yw'r tueddiadau hyn yn wahanol i'r hyn a welir yn y sector ehangach. Mae ein hymchwil ar wylwyr newyddion teledu hefyd yn dangos bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill wedi gweld gostyngiadau tebyg, ac mae eu sgoriau canfyddiad ar gyfer didueddrwydd hefyd yn is na'u sgoriau ar gyfer cywirdeb a dibynadwyedd.

Yn seiliedig ar gŵynion a dderbyniwyd gan gynulleidfaoedd, mae gan y BBC gofnod da [yn gyffredinol] o gydymffurfio â rheolau darlledu sydd wedi'u llunio i sicrhau bod rhaglenni'n ddigonol gywir ac yn ddiduedd. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, bu nifer o fethiannau golygyddol difrifol yn y BBC. Fel y mae'r BBC ei hun yn ei gydnabod, mae'n hanfodol ei fod yn cydnabod pan fydd camgymeriadau'n digwydd, ac yn atebol ac yn dryloyw wrth ymateb iddynt. Y llynedd, dywedasom ei bod yn hollbwysig bod y BBC yn nodi ac yn mynd i'r afael â materion yn brydlon ac yn dryloyw.

Mae ein tystiolaeth yn yr adroddiad hwn a'r adolygiad cysylltiedig o'r Ymddiriedaeth yn newyddion y BBC, yn dangos bod cynulleidfaoedd, yng nghanol mwy a mwy o bryderon am gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, yn gwerthfawrogi darparwyr newyddion sy'n gallu cynnig darpariaeth glir, gywir a gwrthrychol, gan eu helpu i ddeall amgylchedd gwybodaeth cymhleth sy'n aml yn ddadleuol a gwneud penderfyniadau gwybodus am y materion sy'n effeithio arnynt. Mae'r BBC mewn sefyllfa unigryw i gyflawni'r rôl hon, a bydd sicrhau a chynnal ymddiriedaeth yn bwysig i berthnasedd y BBC yn y dyfodol a'i allu i gyflawni'r rôl gwasanaeth cyhoeddus ehangach hon.

Yn unol â'i strategaeth ehangach, mae'r BBC yn cynyddu ei bresenoldeb newyddion ar gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau rhannu fideos; gan hwyluso ffyrdd o arloesi gyda fformatau a ffyrdd newydd o adrodd ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol sy'n cysylltu ag ystod ehangach o gynulleidfaoedd.

Mae'r BBC wedi symud ei ffocws at gynnwys 'effaith uchel', ond mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr is iddo am gynrychiolaeth a phortreadu

Rhaid i'r BBC ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa, ar draws y DU i gyd. Mae hyn yn golygu darparu cynnwys amrywiol ac eang sy'n ennyn diddordeb pob cynulleidfa.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r BBC wedi symud ei ffocws comisiynu at ddarparu cynnwys 'effaith uchel' sy'n adrodd straeon lleol ac sy'n cynrychioli diwylliannau lleol mewn ffordd sy'n taro tant â chynulleidfaoedd ledled y DU. Gall hyn helpu i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth yn ogystal â dod â phobl at ei gilydd a sicrhau gwerth cyhoeddus ar raddfa fawr. Mae teitlau poblogaidd fel *Blue Lights* a *This City is Ours* yn dangos apêl eang cynnwys sydd wedi'i wreiddio'n glir mewn ardaloedd lleol ac sydd wedi llwyddo i ddod â chynulleidfaoedd ledled y DU at ei gilydd.

Ffordd arall o sicrhau cynrychiolaeth a phortreadu yw drwy straeon, lleisiau a safbwyntiau sy'n berthnasol yn lleol. Mae'r rhain yn dal yn bwysig i wneud cysylltiadau a meithrin ymddiriedaeth gyda chynulleidfaoedd lleol. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i'r BBC, mewn amgylchedd ag iddo gyfyngiadau ariannol, ddewis ble mae'n canolbwyntio ei adnoddau. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau mae wedi'u gwneud wedi helpu eto i newid canfyddiadau o ba mor dda mae'r BBC yn cynrychioli ac yn portreadu pob cynulleidfa, sy'n dal yn rhai o'r meysydd sy'n cael y sgoriau isaf gan gynulleidfaoedd. Mae allbwn/gwasanaethau lleol a chenedlaethol y BBC ar radio ac ar-lein hefyd yn chwarae rhan bwysig yma.

Mewn adroddiadau blaenorol, rydym wedi dweud bod yn rhaid i'r BBC ddatblygu strategaeth gydlynol ar gyfer sut mae'n apelio at gynulleidfaoedd 'DE' gan fod cyrhaeddiad a chanfyddiadau o'r BBC wedi bod yn gyson is ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn hefyd. Eleni, rydym wedi gweld rhai arwyddion bod yr apêl yn cynyddu ymysg cynulleidfaoedd DE, ond mae'r canfyddiadau'n dal yn is.

Mae dull gweithredu'r BBC o sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i'w gynnwys ar-lein yn gwella

Mae'r BBC yn gwneud amrywiaeth o gynnwys nad yw'n cael ei ddarparu gan ddarlledwyr eraill. Fodd bynnag, mewn amgylchedd ar-lein ac ar-alw, lle nad yw amserlenni rhaglenni traddodiadol bellach yn pennu arferion gwylio a gwrando, mae'n bwysig bod cynulleidfaoedd yn dal i ddod ar draws cynnwys gwasanaeth cyhoeddus a allai fod o ddiddordeb iddynt ac na fyddent yn dod ar ei draws fel arall o bosibl. Felly, rydym yn mynnu bod y BBC yn sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i rai mathau o gynnwys ar BBC iPlayer a BBC Sounds - newyddion a materion cyfoes, y gwledydd a'r rhanbarthau, dysgu anffurfiol ac amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol o'r DU.

Fe wnaethom ofyn i'r BBC am dystiolaeth i ddangos sut roedd wedi ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i'r cynnwys hwn. Er nad yw unrhyw asesiad yn addas ar gyfer un metrig, mae'r BBC wedi nodi amrywiaeth o fesurau a dulliau gweithredu mae'n eu defnyddio i helpu i'w gwneud hi'n haws canfod ei gynnwys, er enghraifft, gosod cynnwys mewn mannau 'Newydd a Threndio' ac 'Arwyr' a defnyddio rheiliau lleol neu genedlaethol wedi'u curadu'n olygyddol ar BBC Sounds. Mae'r dystiolaeth wedi dangos sut mae'r BBC yn darparu amrywiaeth o gynnwys ar ei hafanau, gan gynnwys y mannau sy'n denu'r lefelau traffig uchel. Ond nid ydym mor glir sut mae cynulleidfaoedd yn dod o hyd i ac yn canfod cynnwys sy'n is ar ei hafanau, ac a yw'n hawdd dod o hyd i hyn; byddwn yn edrych ar hyn ymhellach gyda'r BBC.

Mae'r BBC yn bwriadu gwneud arbedion sylweddol

Mewn amgylchedd ariannol heriol, gyda phwysau ar incwm ffi'r drwydded, costau cynyddol a newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd, mae'r BBC wedi dweud bod yn rhaid iddo arbed £500m erbyn 2028. Ym mis Mehefin 2026, cyhoeddodd y BBC newidiadau i'w adrannau cynnwys a newyddion, gan gynnwys gostyngiad mewn rhaglenni gwreiddiol a bod disgwyl cau tua 250 o swyddi yn ei adran Gwledydd. Ym mis Hydref cyhoeddodd gynlluniau i gau BBC Three, BBC Scotland a Radio 4 Extra fel gwasanaethau darlledu llinol, yn ogystal â chau tua 100 o swyddi yn ei adran newyddion.

Nid ydym yn tanbrisio arwyddocâd y newidiadau arfaethedig hyn. Bydd yr effaith yn ymestyn y tu hwnt i weithlu'r BBC ac mae'n debyg o effeithio ar gynulleidfaoedd, ar gynhyrchwyr ac ar y sector creadigol ehangach – yn enwedig o ystyried bod gwariant y BBC yn sbarduno twf yn y sector ehangach. Rydym wedi ysgrifennu at y BBC yn gofyn am gyfrif cyfunol o sut mae'r BBC yn bwriadu cyflawni'r £200 miliwn cychwynnol o arbedion a'r sail dros y penderfyniadau hynny ac asesiad o'r effaith ddisgwyliedig ar gynulleidfaoedd. Fe wnaethom ddweud bod hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chynnwys a gwasanaethau sy'n cyfrannu at natur unigryw, gan gynnwys newyddion a rhaglenni sy'n galluogi'r BBC i gysylltu â phob cynulleidfa ledled y DU. Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn ymwybodol o bryderon ynghylch effaith y troiadau. Byddwn yn ystyried beth mae'r cynigion yn ei olygu i gynulleidfaoedd ac i rwymedigaethau rheoleiddio'r BBC ac yn disgwyl i'r BBC egluro sut bydd yn parhau i ddarparu ar gyfer y grwpiau cynulleidfa hynny sy'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio.

Perfformiad o ran y Dibenion Cyhoeddus

Yn yr adrannau sy'n dilyn, rydym yn nodi sut mae'r BBC wedi cyflawni yn erbyn Dibenion Cyhoeddus 1-4 yn ystod y cyfnod adrodd rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026. Rydym hefyd yn trafod sut mae'r BBC wedi darparu ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob un o'r pedair gwlad.

Yn gryno, dyma Ddibenion Cyhoeddus y BBC, fel y nodir yn Erthygl 6 o'r Siarter Frenhinol:

Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas.

Diben Cyhoeddus 2: Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed.

Diben Cyhoeddus 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau.

Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig wrth wneud hynny.

Diben Cyhoeddus 5: Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.[1]

Sut rydym yn asesu perfformiad y BBC

Mae ein Fframwaith Mesur Perfformiad (PMF) yn nodi sut rydym yn monitro ac yn asesu perfformiad y BBC wrth hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus a chyflawni ei Genhadaeth. Mae'n cynnwys pedwar mesur perfformiad (Argaeledd, Defnydd, Effaith a Ffactorau Cyd-destunol) a set o egwyddorion rydym yn eu hystyried wrth eu cymhwyso.

Mae ein hadroddiad perfformiad rhyngweithiol yn cynnwys cyfoeth o ddata y tu hwnt i'r hyn sydd yn yr adroddiad ysgrifenedig hwn, gan ganiatáu i ddefnyddwyr archwilio rhagor o dystiolaeth sy'n ymwneud â phob un o'r Dibenion Cyhoeddus.

Yn Atodiad 2 rydym yn rhoi crynodeb o'r ffynonellau data rydym wedi eu defnyddio ar gyfer pob mesur perfformiad yn ein hasesiad a chanllawiau ar sut mae cael gafael ar y data hwn a'i ddefnyddio yn ein hadroddiad perfformiad rhyngweithiol. Ochr yn ochr â'r data, rydym yn siarad ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys darlledwyr a chynhyrchwyr eraill drwy gydol y flwyddyn i gyfrannu at ein dealltwriaeth o berfformiad y BBC.

Cydymffurfio ag amodau'r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol a nodir yn y Drwydded Weithredu. Yn 2025/26, gwnaeth y BBC fodloni ei holl ofynion Dibenion Cyhoeddus. Eleni, yn dilyn cwyn yn ymwneud â chydymffurfiad y BBC yn 2024/25 ag amod ei Drwydded Weithredu ar gyfer yr oriau o raglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn lleol ar BBC Local Radio, gwnaethom geisio rhagor o wybodaeth gan y BBC a nodi pryderon ynghylch

[1] Sylwch: Mae pumed Diben Cyhoeddus y BBC, sef adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd y tu hwnt i rôl reoleiddiol Ofcom. Mater i'r BBC yw pennu'r drwydded ar gyfer y BBC World Service (Cymal 34 o'r Cytundeb).

cywirdeb ei adroddiadau cydymffurfiaeth. Wedi hynny, hysbysodd y BBC nad oedd wedi bodloni'r amod ar gyfer chwe gorsafoedd. Rydym wedi ysgrifennu at y BBC i nodi ein pryderon. Mae ein hasesiad cyffredinol o gydymffurfiaeth y BBC â'r Drwydded Weithredu i'w weld yn Atodiad 1.

Rydym yn nodi ein bod wedi gwneud rhai newidiadau i Drwydded Weithredu'r BBC yn 2025/26 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd y rhain yn ymwneud ag: rhaglenni a rennir ar BBC Local Radio; oriau o raglenni newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle a BBC Asian Network; oriau o raglenni materion cyfoes ar BBC One a BBC Two; a gofyniad adrodd yn ymwneud â'r oriau o chwaraeon sy'n cael sylw ar BBC Radio 5 Live. Mae ein hasesiad cydymffurfio ar gyfer 2025/26 yn ystyried perfformiad y BBC yn erbyn yr amodau diwygiedig.

Y gallu i ganfod

Mae sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gynnwys y BBC yn dod yn fwyfwy pwysig.

Wrth i gynulleidfaoedd gael gafael ar gynnwys y BBC fwyfwy drwy wasanaethau ar-lein fel BBC iPlayer a BBC Sounds, rhaid iddynt allu dod o hyd iddo a'i ganfod yn hawdd; nid yw'n ddigon i gynnwys pwysig fod ar gael. Felly, mae'r Drwydded Weithredu yn mynnu bod y BBC yn sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i rai mathau o gynnwys ar BBC iPlayer a BBC Sounds, sef cynnwys newyddion a materion cyfoes; cynnwys dysgu anffurfiol; amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol o'r DU, a chynnwys penodol o'r gwledydd a'r rhanbarthau.[2] Mae'n rhaid i'r BBC hefyd adrodd ar ei gynlluniau i sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i'r cynnwys hwn, a sut mae wedi cyflawni yn erbyn y cynlluniau hyn. Rydym yn trafod hyn isod.

Yn ein Hadroddiadau Blynyddol blaenorol, fe wnaethom nodi bod y BBC wedi bod yn datblygu ei ddull gweithredu 'gallu i ganfod' ac rydym yn cydnabod nad yw unrhyw asesiad o'i ddull gweithredu yn addas ar gyfer un metrig. Eleni, fe wnaethom ofyn am wybodaeth gan y BBC er mwyn deall yn well y camau ymarferol mae'n eu cymryd i fodloni ei ofynion 'gallu i ganfod' ac effaith bosibl hyn ar gynllun BBC iPlayer a BBC Sounds ac ar deithiau cynulleidfaoedd. Fe wnaethom ofyn i'r BBC beth mae'n ei ystyried yn fannau 'traffig uchel'[3] neu 'hawdd dod o hyd iddynt' ar ei wasanaethau, yn ogystal ag am dystiolaeth i ddangos ei ddull gweithredu 'gallu i ganfod', a sut mae'n mesur ei effeithiolrwydd.[4]

Mae'r BBC wedi defnyddio amrywiaeth o fesurau i helpu'r 'gallu i ganfod'.

Nododd y BBC bwysigrwydd ystyried cyd-destun sut mae cynulleidfaoedd fel arfer yn defnyddio ac yn symud o amgylch BBC iPlayer a BBC Sounds. Ar BBC iPlayer, dywedodd ei fod yn trin yr hafan gyfan fel man traffig uchel, gyda'r rheiliau uchaf y hafan yn denu'r lefelau uchaf o draffig. Ar BBC Sounds, dywedodd fod y mannau traffig uchel yn cynnwys y gofod Arwr, a rheiliau eraill y hafan. Fodd bynnag, rhybuddiodd y BBC na ddylid ystyried bod rhoi cynnwys mewn mannau traffig-uchel yn gyfystyr â pha mor hawdd yw dod o hyd iddo. Yn hytrach, dywedodd ei fod yn ystyried tystiolaeth o ymddygiad cynulleidfaoedd, dadansoddeg cynnyrch ac asesiad golygyddol wrth benderfynu a yw

[2] Mae'n rhaid iddo hefyd ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i gynnwys dysgu anffurfiol a cynnwys penodol ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ar BBC Ar-lein. Trwydded Weithredu'r BBC, amodau 1.3.2, 1.3.3, 2.3, 3.2.4, 4.39, 4.45, 4.54 a 4.62.

[3] Mae 'mannau traffig uchel' yn derm rydyn ni'n ei ddefnyddio mewn perthynas â chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus neu 'wasanaethau rhaglenni rhyngrwyd' (IPS). Mae'n golygu man yn yr IPS sy'n cael ei weld a/neu ei ddefnyddio gan nifer sylweddol o bobl pan fyddant yn defnyddio'r IPS.

[4] Fe wnaethom gyhoeddi hysbysiad gwybodaeth ffurfiol yn ymwneud â'r 'gallu i ganfod' ac ymatebodd iddo ym mis Medi 2026.

cynulleidfaoedd yn gallu darganfod, dewis a defnyddio cynnwys yn hawdd drwy amrywiaeth o lwybrau ar draws BBC iPlayer a BBC Sounds.

Newyddion a materion cyfoes

Dywedodd y BBC ei fod yn cymryd amrywiaeth o fesurau i'w gwneud hi'n haws canfod ei gynnwys newyddion a materion cyfoes, gan gynnwys:

- Ar BBC iPlayer, mae'n hyrwyddo'r rhifynnau diweddaraf o *BBC Breakfast* a *News at One*, *Six* a *Ten* yn ogystal â theitlau materion cyfoes fel *Sunday with Laura Kuenssberg* yn adran 'Newydd a Threndio' BBC iPlayer. Mae hefyd yn cynnwys ffrydiau newyddion sy'n torri pan fo hynny'n berthnasol, gydag etholiadau mawr a digwyddiadau newyddion arwyddocaol yn ymddangos yn y gofod 'Arwr'.
- Mae'r rheilen Newyddion yn ymddangos i bob defnyddiwr ar hafan BBC iPlayer, a gall cynulleidfaoedd hefyd gael gafael ar newyddion drwy'r categori Newyddion a thudalennau sianeli BBC News yn y bar llywio.
- Ar BBC Sounds, nodir y gellir dod o hyd i gynnwys newyddion trwy sawl llwybr, gan gynnwys y 'Live Dial' ar frig yr hafan, y rhestr chwarae 'Latest News' a'r categori 'News'. Mae yna hefyd ffrwd 'Live News' bwrpasol – casgliad wedi'i guradu o sain newyddion byw o bob rhan o'r BBC.[5]

Amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol

Mae'r BBC yn egluro bod ei gynnwys gwreiddiol o'r DU yn cael ei hyrwyddo ar draws hafan BBC iPlayer drwy gyfuniad o hyrwyddo golygyddol eang a darganfod wedi'i bersonoleiddio. Mae'n dweud bod cynnwys newydd yn cael ei 'hybu' mewn argymhellion a chategorïau genre a bod rheiliau casgliadau wedi'u curadu yn cael eu defnyddio i helpu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys newydd ar yr hafan. Mae hefyd yn defnyddio mecanweithiau personol fel 'Os Oeddech chi Wedi Hoffi' a 'Rhaglenni Tebyg' i helpu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys y tu hwnt i'r rhaglenni diweddaraf neu'r rhai sy'n cael eu hyrwyddo'n eang. Ar BBC Sounds, mae'n dweud bod y cam darganfod yn dilyn patrwm tebyg i'r un ar BBC iPlayer, er enghraifft gyda rheiliau Argymhellion i Chi, a hwb "newydd-deb" o fewn yr argymhellion.

Cynnwys dysgu anffurfiol

Yn adroddiad y llynedd, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith nad oedd yn ymddangos bod cynnydd yn nifer yr oriau o gynnwys dysgu anffurfiol ar BBC iPlayer wedi arwain at gynnydd yng nghyrhaeddiad y gynulleidfa, ac y gallai fod lle i'r BBC wneud y cynnwys hwn yn haws ei ganfod.[6]

Mae'r BBC yn dweud y gall cynulleidfaoedd ddod o hyd i gynnwys dysgu anffurfiol drwy reiliau genre, tabiau categori a'r rheilen "Argymhellion i Chi" ar BBC iPlayer, ochr yn ochr â chasgliadau wedi'u curadu a hyrwyddo themâu fel *Natur Wyllt*, *Wythnos Diogelwch Rhag Sgamiau* a *Mis Hanes Pobl Dduon*. Er mwyn ei gwneud hi'n haws dod o hyd i gynnwys ar BBC Sounds, dywedodd y BBC ei fod wedi cyflwyno a gwella rhestrau chwarae siarad mewn genres fel hanes a chomedi. Dywed fod

[5] BBC DoMaPP 2025/26, t8, 13 a 152 ac ymateb y BBC i'r cais am wybodaeth ar y gallu i ganfod, Medi 2026. Mae hefyd yn nodi bod io podlediadau materion cyfoes, gan gynnwys *Newscast* a *Political Thinking*, yn cael eu hyrwyddo drwy fannau sy'n cael eu curadu'n olygyddol fel Latest News Playlist a Dewisiadau'r Golygydd, ochr yn ochr ag argymhellion wedi'u personoleiddio.

[6] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2024/25, t.25. Mae'r BBC yn darparu cynnwys sy'n cefnogi dysgu anffurfiol i oedolion ar ei holl lwyfannau, gan gynnwys cynnwys ffeithiol mewn amrywiaeth o genres fel hanes, crefydd, gwyddoniaeth, y celfyddydau a cherddoriaeth.

cynnwys dysgu a ffeithiol perthnasol wedi'i gynnwys ar y rheilen Canfod Podlediadau wedi'i phersonoleiddio, ac wedi'i guradu ar y rheilen Dewisiadau'r Golygydd.[7]

Cynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau

Adroddodd y BBC am amrywiaeth o fesurau sy'n ymwneud â chynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau, gan gynnwys:

- Ar BBC iPlayer, mae mecanweithiau i gyflwyno teitlau penodol gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae'n aml yn hyrwyddo cynnwys y Gwledydd ar yr hafan ehangach ledled y DU.
- Ar BBC Sounds, mae rheilen leol neu wledydd wedi'i churadu'n olygyddol, er enghraifft *From Greater Manchester* a *From Wales*, ar yr haf ar sail lleoliad y defnyddiwr. Mae hefyd yn amlygu brand BBC Local 'Angen Gwybod' sy'n dweud ei bod yn hawdd dod o hyd iddo, ac mae'n dweud wrth wrandawyr am y pethau allweddol y mae angen iddynt ei wybod am stori newyddion fawr yn yr ardal. [8]

Mae'r BBC wedi darparu rhywfaint o ddata i ddangos yr effaith

Fe wnaethom ofyn i'r BBC ddarparu data ar effaith ei fesurau i gefnogi darganfod cynnwys: rhoddodd ddata i ni sy'n ymwneud â'r pedwar categori cynnwys a nodir uchod, gan gynnwys faint o bob math o gynnwys a oedd yn ymddangos ar y hafanau a/neu mewn mannau 'hawdd dod o hyd iddynt', a faint o gynulleidfaoedd oedd wedi 'gweld' y cynnwys. Mae 'Gweld' yn y cyd-destun hwn yn golygu ei fod wedi ymddangos ar sgrin defnyddiwr – nid yw o reidrwydd yn golygu eu bod wedi clicio arno neu wedi'i wylio/gwrando arno.

Er nad yw'r data'n rhoi'r holl stori, mae'n rhoi cipolwg ar leoliad y cynnwys a pha mor hawdd y gallai fod i gynulleidfaoedd ei ddarganfod. Er enghraifft, er bod 85% o'r cynnwys ar BBC iPlayer yn gynnwys gwreiddiol o'r DU, dim ond 76% o'r cynnwys yn y rheilen â thraffig uchel y mae hyn yn ei gynrychiolieirio, , sy'n golygu bod rhaglenni sy'n cael eu prynu yn fwy tebygol o gael eu cynnwys ar gyfartaledd. Roedd 99% o gynulleidfaoedd wedi 'gweld' y cynnwys hwn mewn wythnos gyfartalog. Mae Newyddion a Materion Cyfoes yn cynrychioli dim ond 11% o'r cynnwys ar manau traffig uchel ar BBC iPlayer, ac ar eu bod yn cynrychioli 26% ar draws yr hafan yn gyffredinol, 44% o gynulleidfaoedd a oedd wedi 'gweld'[9] y cynnwys hwn mewn wythnos arferol.[10]

Er bod cynnwys newyddion a materion cyfoes ond yn cynrychioli tua 4% o'r cynnwys ar hafan BBC Sounds, roedd 62% o'r gynulleidfa wedi 'gweld' o leiaf un darn o'r cynnwys hwn bob wythnos.[11]

---

[7] BBC DoMaPP 2025/26, t.33-35, 87-88 ac ymateb y BBC i'r cais am wybodaeth ar y gallu i ganfod, Medi 2026

[8] Ymateb y BBC i'r cais am wybodaeth ar y gallu i ganfod, Medi 2026

[9] Fel y nodir uchod, mae hyn yn golygu ei fod wedi ymddangos ar sgrin defnyddiwr – nid yw o reidrwydd yn golygu eu bod wedi clicio arno neu wedi'i wylio/gwrando arno.

[10] Roedd cynnwys dysgu anffurfiol yn cynrychioli 28% o'r teitlau ar BBC iPlayer mewn mannau â thraffig uchel a 32% ar draws y hafan yn gyffredinol; roedd 77% o'r defnyddwyr wedi 'gweld' y cynnwys hwn. Roedd cynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau yn cynrychioli 9%, o deitlau mewn mannau traffic uchel a 8% ar draws y hafan yn gyffredinol, a 'welwyd' gan 53%. Ymateb y BBC i'r cais am wybodaeth ar y gallu i ganfod, Medi 2026. Mae cynnwys dysgu anffurfiol ar BBC iPlayer yn cynnwys teitlau ffeithiol (ac eithrio adloniant ffeithiol), a theitlau i blant (ac eithrio rhaglenni wedi'u prynu i blant). Mae cynnwys gwledydd a rhanbarthau yn eithrio teitlau portreadol cenhedloedd fel *Shetland* a *Blue Lights.*

[11] Roedd cynnwys dysgu anffurfiol yn cynrychioli 53% o'r cynnwys ar hafan Sounds; roedd 27% o'r defnyddwyr wedi 'gweld' y cynnwys hwn. Roedd cynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau yn cynrychioli 39%, a 'welwyd' gan 28%. Ymateb y BBC i'r cais am wybodaeth ar y gallu i ganfod, Medi 2026. Mae cynnwys dysgu anffurfiol ar BBC Sounds yn cynnwys teitlau ffeithiol ac i blant.

Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddod o hyd i gynnwys newydd yn gadarnhaol ond gellid gwneud mwy

Mae 68% o gynulleidfaoedd yn dweud bod BBC iPlayer yn 'dda' o ran gallu dod o hyd i gynnwys newydd yn rhwydd; sy'n cyd-fynd yn fras â gwasanaethau gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.[12] Rydym yn cydnabod bod y dull a ddefnyddir i gefnogi'r 'gallu i ganfod' yn faes sy'n esblygu, wedi'i siapio gan newidiadau mewn technoleg ac ymddygiad cynulleidfaoedd. Dyna pam rydym wedi defnyddio dull hyblyg sy'n seiliedig ar ganlyniadau i osod ein gofynion 'gallu i ganfod'.


Mae'r BBC yn curadu rhai rheiliau amlwg yn olygyddol ar BBC iPlayer, tra bo eraill wedi'u personoleiddio yn ôl ymddygiad cynulleidfaoedd. Mewn cyd-destun lle mae disgwyliadau cynyddol o ran cynnwys wedi'i bersonoleiddio, rydym yn cydnabod bod rhywfaint o densiwn rhwng personoleiddio mwy ar ei wasanaethau ar-lein (er mwyn cynyddu ymgysylltiad) a sicrhau bod cynulleidfaoedd yn dod i gysylltiad ag amrywiaeth o gynnwys. Fodd bynnag, rydym yn glir bod yn rhaid i'r BBC sicrhau bod personoleiddio yn ategu, yn hytrach nag yn disodli, y broses ehangach o ddarganfod cynnwys. Mewn rhai achosion, bydd arnom eisiau gweld rhagor o dystiolaeth gan y BBC bod ei fesurau 'gallu i ganfod' yn effeithiol o ran cyflawni'r nodau a fwriadwyd. Er enghraifft, o ystyried bod darparu newyddion yn ganolog i genhadaeth y BBC, byddwn yn archwilio ymhellach gyda'r BBC sut mae cynulleidfaoedd yn dod ar draws cynnwys newyddion ar BBC iPlayer.

[12] Arolwg Fideo Ar-alw Ofcom 2026. 'Hwylustod canfod cynnwys newydd': ITVX (61%), Ffrydio Channel 4 (64%) a ffrydio Channel 5 (57%). Sylwer bod sgoriau gan y gynulleidfa a gofnodir fel 'da' yn cynnwys yr holl gyfranogwyr a nododd 'da' neu 'dda iawn' o ran perfformiad y nodwedd hon.


DIBEN CYHOEDDUS 1

Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas


Defnydd o blatfformau'r BBC ar gyfer newyddion ymhlith oedolion yn 2026




Allbwn newyddion a materion cyfoes y rhwydwaith



% o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol sy'n nodi eu bod wedi gweld newyddion y BBC ar y platform



Ymddiriedaeth yn newyddion y BBC ar ac oddi ar blatfformau ymhlith pobl 16+



Ffynonellau: Barb fel y'i gwyliwyd, setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â WiFi yn y cartref, oedran 16+ (cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog o 3 munud neu fwy yn olynol) ar gyfer newyddion cenedlaethol a rhyngwladol, darllediadau byw, rhaglenni wedi'u recordio a BVoD; Ipsos Iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn, Mawrth 2026; Arolwg Ofcom ar Ddefnydd o Newyddion 2026; Arolwg Ofcom ar Ddefnydd o Newyddion gan Blant 2026; dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Mae 'ar/oddi ar y platfform' yn cyfeirio at newyddion a welir neu a glywir ar lwyfannau'r BBC ei hun, megis sianeli teledu, gorsafoedd radio neu'r wefan/ap; tra bod 'oddi ar y

platfform' yn cyfeirio at newyddion y BBC a welir neu a glywir ar lwyfannau nad ydynt yn eiddo i'r BBC, megis ar gyfryngau cymdeithasol.

Perfformiad Diben Cyhoeddus 1 yn 2025/26

- **Y BBC yw prif ddarparwr newyddion y DU o hyd**, mae'n cael ei ddefnyddio gan 77% o oedolion bob mis ac mae'n dal yn amlwg iawn ymysg cynulleidfaoedd iau er bod y ffordd mae pobl yn cael gafael ar newyddion yn fwyfwy darniog.
- **Mae strategaeth digidol yn gyntaf y BBC yn dod yn mynd o nerth i nerth,** gyda chynnydd mewn defnydd o newyddion ar-lein ar draws ei wasanaethau ei hun a llwyfannau trydydd parti. Roedd cyraddau gwylio rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar BBC iPlayer wedi cynyddu 35% yn 2025/26 ac roedd newyddion ar-lein y BBC wedi cyrraedd 67% o oedolion ym mis Mehefin 2026, i fyny chwe phwynt canran o un flwyddyn i'r llall.
- Mae'r BBC yn parhau i ddarparu **lefelau sylweddol o allbwn newyddion a materion cyfoes gwreiddiol**, gyda mwy na 17,000 awr o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar deledu a BBC iPlayer, ac amrywiaeth eang o gynnwys ar BBC Radio, BBC Sounds a BBC ar-lein.
- **Mae ymddiriedaeth a chywirdeb yn dal yn gryfderau allweddol i newyddion y BBC,** er yn unol â PSBs eraill, mae sgoriau y mae'r cynulleidfa yn eu rhoi i'r rhain wedi disgyn, ac mae'r canfyddiadau o ddidueddrwydd yn is.

Ein hasesiad

Mae newyddion wrth galon cenhadaeth y BBC: dyma brif ddarparwr newyddion y DU o hyd

Mae newyddion y BBC yn chwarae rhan ganolog yn iechyd democratiaeth a chymdeithas y DU ac mae wrth galon rôl gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Drwy ei newyddion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu newyddiaduraeth sy'n ddigon diduedd, cywir ac o ansawdd uchel sy'n hysbysu cynulleidfaoedd, yn cefnogi trafodaethau dinesig ac yn helpu i ddal sefydliadau i gyfrif. Mae'r ffordd mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar newyddion yn parhau i newid ac, yn yr amgylchedd hwn sy'n esblygu, mae gallu'r BBC i sicrhau bod ei newyddiaduraeth yn hawdd dod o hyd iddi, yn dal i gyrraedd cynulleidfaoedd, ac yn cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn bwysicach nag erioed.

Yng nghanol yr amgylchedd sy'n esblygu'n gyson, mae'r BBC yn dal i gyrraedd cynulleidfaoedd mawr gydag allbwn newyddion a materion cyfoes ar draws amrywiaeth o lwyfannau. Ar draws ei wasanaethau ei hun, mae 77% o oedolion yn defnyddio newyddion y BBC bob mis, sy'n codi i 80% pan adroddir am ddefnyddio cynnwys newyddion y BBC ar gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau rhannu fideos.[13]

Wrth i arferion newid, mae newyddion teledu a radio'r BBC yn dal i ddenu cynulleidfaoedd mawr

Er bod cyrhaeddiad newyddion y BBC ar deledu traddodiadol wedi parhau i ostwng,[14] mae cynulleidfaoedd mawr yn dal i droi at y BBC ar gyfer amrywiaeth o raglenni newyddion a materion

[13] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2026: Teledu (65%), radio (34%), BBC iPlayer (32%), gwefan ac ap BBC News (28%), a chyfryngau cymdeithasol, lle mae 32% o oedolion yn dweud eu bod yn gweld cynnwys newyddion y BBC bob mis.
[14] Gostyngodd cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog newyddion y BBC ar y teledu o 50% o oedolion 16 oed a hŷn yn 2022 i 39% yn 2025 Barb fel y'i gwyliwyd, oedolion 16 oed a hŷn. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi yn y

cyfoes ar draws ei wasanaethau darlledu a fideo a sain ar-lein. Er enghraifft, mae 16.8% o oedolion ar gyfartaledd yn gwylio BBC *News at Six* bob wythnos, ac mae 16% o oedolion yn gwylio ei fwletin rhanbarthol 6:30pm,[15] sy'n dangos y gwerth mae cynulleidfaoedd yn ei roi ar newyddion lleol. Roedd 5.6 miliwn o bobl ar gyfartaledd yn gwrando ar brif raglen *Today* BBC Radio 4 bob wythnos, ac roedd 3.2 miliwn o bobl ar gyfartaledd yn gwrando ar raglenni BBC Radio 5 Live yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener bob wythnos.[16]

Mae cynulleidfaoedd o bob oed yn troi fwyfwy at wasanaethau ar-lein ac mewn llawer o achosion, bydd hyn yn ategu eu lefelau gwylio a gwrando ar y teledu a'r radio. Er bod newyddion teledu'r BBC (drwy ddarlledu neu BBC iPlayer) yn dal yn brif ffynhonnell i gynulleidfaoedd hŷn, gan gyrraedd 81% o'r rheini sy'n 75 oed a hŷn, mae 58% o bobl ifanc 16-24 oed hefyd yn ei wylio, sy'n ganran sylweddol. Mae'r defnydd o radio'r BBC ar gyfer newyddion yn gymharol gyson ar draws grwpiau oedran, gan amrywio o 33% ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed i 43% ar gyfer y rheini sy'n 75 oed a hŷn. Mae ein hymchwil hefyd yn dangos bod 20% o bobl 16-24 oed a 16% o'r rhai 75 oed a hŷn wedi nodi eu bod yn defnyddio gwefan neu ap BBC News, o'i gymharu â 27% ymhlith yr holl oedolion. O ran BBC News ar y cyfryngau cymdeithasol, dywedodd 43% o bobl 16-24 oed eu bod yn dod ar draws y newyddion yn y modd hwn, o'i gymharu â dim ond 5% o'r rhai 75 oed a hŷn.[17]

Mae'r BBC wedi cyflymu ei strategaeth newyddion digidol yn gyntaf sy'n ymddangos ei fod yn helpu i ddenu cynulleidfaoedd ar-lein.

Mae'r BBC wedi bod yn buddsoddi yn ei wasanaethau cyfryngau cymdeithasol a digidol drwy ehangu darllediadau newyddion byw a newyddion diweddaraf, cynhyrchu mwy o fideos esboniadol a fideos byr, a rhyddhau cynnwys materion cyfoes dethol fel Panorama yn gynharach ar BBC iPlayer. Mae hefyd wedi bod yn datblygu podlediadau fideo a fformatau digidol yn gyntaf eraill fel *Diddy on Trial* a ffrydiau byw rhyngweithiol *Your Voice*, yn ogystal â chryfhau ei bresenoldeb ar TikTok, Instagram ac YouTube. [18] Mae'r BBC yn dweud ei fod wedi rhoi mwy o bwyslais ar newyddiaduraeth ymchwiliol a manwl sy'n ceisio cael effaith fawr drwy gyrraedd cynulleidfaoedd mawr a/neu sbarduno trafodaeth gyhoeddus ar BBC iPlayer, BBC InDepth ar-lein a BBC Verify.[19]

Mae'r datblygiadau hyn yn debyg o fod wedi helpu i gynyddu'r defnydd cyffredinol o wasanaethau newyddion ar-lein y BBC. Yn 2025/26, cynyddodd cyfrifon newyddion gweithredol wythnosol ar draws BBC iPlayer, BBC News ar-lein a BBC Sounds: Ar BBC Sounds, cafodd 1.7 miliwn o gyfrifon sy'n weithredol yn wythnosol wedi cael gafael ar gynnwys newyddion, 3% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol,[20] ac roedd cynnydd o 35% yn lefelau gwylio ar BBC iPlayer.[21] Cyrhaeddodd BBC News ar-

---

cartref. Genre newyddion: cenedlaethol/rhyngwladol. Meini prawf cyrhaeddiad 3+ munud. Chwarae'n fyw, wedi'i recordio a BVoD.

[15] Barb, fel y'i gwyliwyd gan oedolion 16 oed a hŷn. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi yn y cartref. Meini prawf cyrhaeddiad 3+ munud. Chwarae'n fyw, wedi'i recordio a BVoD.

[16] RAJAR Chwarter 1 2026, pwysoliad 12 mis. *Today* a ddarlledir Llun-Gwener 06:0'0-09:00.

[17] Ofcom, 2026. Arolwg Newyddion yn y DU: Canfyddiadau Ymchwil

[18] BBC DoMaPP 2025/26, t6-10 a 17. Cynllun Blynyddol y BBC 2025/26, t.3 Gweler hefyd: Lansio sianel BBC News ar YouTube

[19] Ymateb y BBC i gais am wybodaeth, 2025/26.

[20] BBC DoMaPP, 2025/26 t12.

[21] Barb, fel y'i gwyliwyd, munudau a welwyd y person i newyddion cenedlaethol a rhyngwladol ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi yn y cartref ymhlith oedolion 16 oed a hŷn. Pryd bynnag y bydd dadansoddiad Ofcom o ddata gwylio Barb yn cyfeirio at lefelau gwylio BBC iPlayer, mae hyn yn cynnwys holl gynnwys y BBC sy'n cael ei wylio ar-alw gan gynnwys rhaglenni heb fod yn llinol, yn ogystal â chynnwys y BBC sy'n cael ei wylio drwy wasanaethau eraill fel Sky Go/On-demand a Virgin Media Catch-up.

lein, ar draws ei ap a'i wefan, 67% o bobl 15 oed a hŷn ym mis Mehefin 2026, chwe phwynt canran yn uwch o un flwyddyn i'r llall.[22]

Mae'r BBC hefyd wedi magu cynulleidfaoedd sylweddol ar lwyfannau trydydd parti. BBC news yw'r darparwr newyddion unigol sy'n cael ei ddilyn amlaf o hyd ar draws y prif wasanaethau cyfryngau cymdeithasol ac mae wedi cofnodi twf cryf ar YouTube a TikTok. Mae ganddo bron i 15 miliwn o ddilynwyr ledled y byd ar TikTok, gyda bron i draean o wylwyr rhwng 18 a 24 oed yn tanlinellu ei bwysigrwydd i'r BBC o ran cyrraedd cynulleidfaoedd ifanc.[23]

Mae'r datblygiadau hyn wedi galluogi'r BBC i gynnal ei gyrhaeddiad cryf ar gyfer newyddion ymysg cynulleidfaoedd iau

Mae'r presenoldeb hwn yn helpu'r BBC i gyrraedd pobl ifanc a phlant. BBC News yw'r darparwr newyddion sy'n cael ei gofio amlaf gan bobl ifanc 16-24 oed sy'n cael gafael ar newyddion drwy lwyfannau fel YouTube, Instagram, TikTok ac X.[24] Mae ymchwil hefyd yn dangos bod defnyddwyr iau yn gwerthfawrogi bod newyddion ar-lein yn gryno ac yn hawdd i'w ddefnyddio drwy negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, hysbysiadau apiau a fideos byr. Ymysg pobl ifanc 12-15 oed, y BBC yw'r ffynhonnell newyddion gan gyhoeddwyr sy'n cael ei defnyddio amlaf o hyd,wedi'i chefnogi gan lefelau uchel o ymddiriedaeth, gyda phedwar o bob pump yn dweud eu bod yn ymddiried yn newyddion y BBC.[25]

Mae lefelau gwylio materion cyfoes wedi gostwng, ond mae'n parhau i gael effaith

Er bod cyrhaeddiad materion cyfoes ar draws teledu a BBC iPlayer wedi gostwng eleni, mae 4.8 miliwn o bobl yn dal i'w wylio bob wythnos.[26] O fewn hyn, mae mwy'n gwylio ar BBC iPlayer, ond nid yn ddigon i wneud yn iawn am y gostyngiadau llinol.[27] Mae rhaglenni unigol yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd sylweddol, er enghraifft, denodd *Panorama: Undercover in the Police* gynulleidfa o 3.2 miliwn o wylwyr, y bennod â'r perfformiad gorau ers 2023, gan ddangos bod y BBC yn gallu cael effaith amlwg ar y cyhoedd drwy ei ymchwiliadau.[28] Tynnodd y BBC sylw hefyd at berfformiad cryf elfennau penodol, gan gynnwys *The Big Cases*, ymysg cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.[29]

---

[22] Gwasanaeth Mesur Cynulleidfa Ar-lein Ipsos Iris. Sylwer bod y ffigurau ar gyfer Ipsos Iris yn cynnwys mesur goddefol, ac felly maent yn uwch na'r defnydd a adroddwyd ac a gofnodwyd yn ein Harolwg ar Ddefnydd o Newyddion.
[23] BBC DoMaPP 2025/26, t18-19.
[24] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2026: Ar gyfer cynulleidfaoedd 16-24 oed, BBC News yw'r darparwr newyddion sy'n cael ei gofio amlaf ymysg y rheini sy'n cael gafael ar newyddion drwy YouTube (48%), X (48%), Instagram (40%), Facebook (33%) a TikTok (38%).
[25] Arolwg Ofcom ar Ddefnydd Plant o Newyddion 2026: Mae 50% o bobl ifanc 12–15 oed yn nodi eu bod yn defnyddio BBC News drwy unrhyw ffynhonnell, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol; nododd 35% eu bod wedi defnyddio ffynhonnell uniongyrchol o BBC News yn ystod y mis diwethaf, a nododd 33% eu bod wedi cyrchu BBC News drwy gyfryngau cymdeithasol. Dywedodd 80% o bobl ifanc 12–15 oed a welodd neu a glywodd newyddion ar y BBC eu bod yn ymddiried ynddo.
[26] Ymateb y BBC i gais am wybodaeth, 2025/26.
[27] Barb, fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wifi y cartref ar gyfer gwylio byw, wedi'i recordio a BVoD. Yn y cyd-destun hwn, fe wnaethom ddiwygio'r cwota materion cyfoes rhwydwaith ar BBC One a BBC Two i adlewyrchu arferion gwylio sy'n esblygu a rôl gynyddol BBC iPlayer. Daeth y newidiadau hyn i rym o fis Rhagfyr 2025 ymlaen; byddwn yn adrodd ymhellach yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.
[28] Ymateb y BBC i gais am wybodaeth, 2025/26. Er enghraifft, gyda'i ymchwiliad *Undercover* i'r diwylliant yn yr Heddlu Metropolitanaidd a gyda'r ymchwiliad *The Dark Side of Married at First Sight* yn arwain at nifer o gamau gweithredu.
[29] Ymateb y BBC i gais am wybodaeth, 2025/26.

Mae'r BBC wedi cynnal allbwn sylweddol ac wedi lleihau gwariant a newid darpariaeth ar yr un pryd

Eleni, cynhyrchodd y BBC 17,365 awr o allbwn teledu newyddion a materion cyfoes gwreiddiol i'w ddarlledu am y tro cyntaf, y lefel uchaf erioed a chynnydd o 5% o'i gymharu â lefel 2024. Roedd hyn yn cyfrif am 78% o'r allbwn gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf ar draws pob genre.[30] Roedd allbwn materion brys eleni yn cynnwys rhaglen wythnosol newydd gan y World Service, *Global Eye,* a lansiwyd ar BBC Two. [31]Mae'r BBC yn dweud fod dull mwy cydgysylltieidg yn arwain at fwy o effaith ar ei allbwn.[32] Roedd faint o newyddion rhanbarthol a chenedlaethol a oedd ar gael wedi gostwng ychydig tra gwelwyd cynydd mewn materion cyfoes yn y gwledydd a'r rhanbarthau - sbardunwyd y newidiadau hyn gan newidiadau yn yr Alban. Edrychwch ar Ddiben Cyhoeddus 4 a thudalennau'r gwledydd i gael rhagor o wybodaeth.

Fodd bynnag, mae'r BBC yn darparu'r allbwn cynyddol hwn er yn gwario llai. Bu gostyngiad o 10% o un flwyddyn i'r llall mewn gwariant ar raglenni teledu newyddion a materion cyfoes (ar draws y rhwydwaith a'r gwledydd a'r rhanbarthau), o £310.5m yn 2024 i £279.4m yn 2025, y lefel isaf dros gyfnod y Siarter hon. Roedd hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn gwariant rhanbarthol.[33]

Er bod y BBC yn gwario llai, ar hyn o bryd mae'n cynnal, ac mewn rhai meysydd yn cynyddu allbwn gwreiddiol, ond gallai'r cyhoeddiad ynghylch toriadau yn y gyllideb yn y dyfodol ei gwneud yn anoddach cyflawni hyn heb effeithio ar raddfa na natur y ddarpariaeth. Disgwylir i'r BBC hefyd gyhoeddi rhagor o doriadau ym mis Ionawr 2027, ac mae'n dweud ei fod yn bwriadu adolygu ei allbwn materion cyfoes fel rhan o ymdrechion ehangach i wella effeithlonrwydd a sicrhau rhagor o arbedion.[34] Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC wrth iddo ddatblygu'r cynlluniau hyn.

Ym mis Gorffennaf 2025, fe wnaethom gymeradwyo gostyngiadau i'r cwotâu newyddion a materion cyfoes ar gyfer BBC Asian Network a BBC Radio Foyle. Bwriad newid BBC Asian Network oedd cefnogi mwy o fuddsoddiad mewn cynnwys unigryw ar gyfer cynulleidfaoedd iau. Eleni, aeth yr orsaf y tu hwnt i'w chwota diwygiedig, gan ddarparu 710 awr o allbwn newyddion a materion cyfoes yn erbyn gofyniad o 675 awr. [35] Er bod cyrhaeddiad wythnosol wedi gostwng 5% i 540,000, cynyddodd yr oriau gwrando, o 5.1 i 5.8 awr yr wythnos fesul gwrandawr.[36] Yn achos BBC Radio Foyle, er nad oes data RAJAR ar gael, mae data'r BBC yn dangos y bu cynnydd o 3% o un flwyddyn i'r llall yn y nifer sy'n gwrando ar ei raglen *North West Today* ar BBC Sounds.[37]

Mae'r BBC yn parhau i chwarae rhan bwysig mewn newyddion lleol

Mae newyddion lleol dibynadwy o ansawdd uchel yn cefnogi democratiaeth leol ac ymgysylltiad â'r gymuned ac mae'r BBC yn parhau i chwarae rhan bwysig yn hyn o beth; mae ei ddarpariaeth

---

[30] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Cafodd y twf ei sbarduno'n bennaf gan newyddion, ac roedd cynnydd o 874 awr (6%) mewn allbwn newyddion rhwydwaith gwreiddiol a ddangoswyd am y tro cyntaf, gan gynrychioli 79% o holl allbwn newyddion teledu rhwydwaith y BBC, tra bod allbwn materion cyfoes gwreiddiol a ddangoswyd am y tro cyntaf wedi gostwng 9% ac ailddarllediadau wedi cynyddu. Arhosodd cyfanswm allbwn newyddion a materion cyfoes ar deledu rhwydwaith yn weddol sefydlog yn 2025 ar 22,746 awr, o'i gymharu â 22,692 awr yn 2024.

[31] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2025/26, t.22.

[32] Ymateb y BBC i gais am wybodaeth, 2025/26. Mae'r BBC yn cyfeirio at berfformiad cryf *The Big Cases* ymysg cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

[33] Daeth y rhan fwyaf o'r gostyngiad mewn gwariant o faterion cyfoes rhanbarthol ar y teledu (20%) a newyddion rhanbarthol ar y teledu (-21%). Bu gostyngiad o 1% mewn gwariant ar newyddion a materion cyfoes ar deledu rhwydwaith.

[34] Cynllun Blynyddol y BBC 2026/27 t.14. Bydd adolygiad y BBC yn edrych ar drefniadau comisiynu ar gyfer allbwn materion cyfoes a strwythurau mewnol i leihau dyblygu a sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd ag anghenion cynulleidfaoedd sy'n newid. Ymateb y BBC i gais am wybodaeth, 2025/26.

[35] BBC DoMaPP, t12, t139.

[36] RAJAR Ch1 2026 a Ch1 2025 ar bwysoliad 12 mis. Oedolion 15 oed a hŷn.

[37] BBC DoMaPP 2025/26, t112.

newyddion lleol yn dal i gael ei defnyddio'n eang ac yn uchel ei pharch. Mae traean o bobl (33%) yn defnyddio gwefan neu ap y BBC i gael newyddion lleol, ac mae 30% yn gwylio bwletinau newyddion rhanbarthol BBC One, ac mae 11% o oedolion yn gwrando ar wasanaethau radio lleol a chenedlaethol y BBC i gael newyddion lleol bob wythnos.[38] Mae 80% o'r rheini sy'n gwrando ar newyddion lleol a chenedlaethol ar gorsafoedd y BBC yn fodlon.[39] Mae rôl y BBC yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i ddirywiad darparwyr newyddion lleol annibynnol greu bylchau mewn darpariaeth lleol ac mae ymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi newyddion lleol dibynadwy sy'n diwallu eu hanghenion.

Mae mynediad at ffynonellau newyddion dibynadwy yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i ymddiriedaeth ddod o dan bwysau

Mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi darparwyr newyddion sy'n cynnig adroddiadau cywir, cyd-destun clir a sylw gwrthrychol i wahanol safbwyntiau, gan eu helpu i lywio drwy amgylchedd gwybodaeth tameidiog a gwneud penderfyniadau gwybodus am y materion sy'n effeithio arnynt. Oherwydd ei faint a'i gyrhaeddiad, mae'r BBC mewn sefyllfa arbennig o dda i ddiwallu'r angen hwn.

Y llynedd, fe wnaethom ymrwymo i wneud rhagor o waith i edrych ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o ymddiriedaeth sy'n effeithio ar y BBC. Fel rhan o hyn, rydym hefyd wedi edrych yn ehangach ar yr hyn sy'n sbarduno ymddiriedaeth mewn sefydliadau newyddion eraill yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.[40]

Canfu ein hadolygiad o Ymddiriadaeth yn y BBC, er bod goblygiadau o ran ymddiriedaeth i ddatblygiadau yn yr amgylchedd gwybodaeth ddigidol, gan gynnwys dylanwad cynyddol llwyfannau a deallusrwydd artiffisial, llai o ymddiriedaeth yn newyddion y BBC, ac ar draws darparwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fwy cyffredinol, canfu ein hadolygiad ei fod yn adlewyrchu cyfuniad ehangach o ffactorau strwythurol, ymddygiadol ac enw da. Dros y degawd diwethaf, mae mwy o ddewis i gynulleidfaoedd a chystadleuaeth gan ddarparwyr newyddion amgen wedi newid y marchnadoedd newyddion domestig a byd-eang yn sylfaenol. Ar yr un pryd, mae newidiadau yn y patrymau o gael gafael ar newyddion wedi newid y ffordd mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â newyddion. Mae penderfyniadau golygyddol dadleuol a'r canfyddiad o ddiffygion wedi effeithio hefyd ar ganfyddiadau o ddarparwyr newyddion. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn wedi cyfrannu at amgylchedd mwy heriol o ran cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd.

Ochr yn ochr â hyn, mae pryderon cynyddol yn fwy cyffredinol am gamwybodaeth a thwyllwybodaeth a'r cynnydd yn y cynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial wedi ei gwneud yn fwy heriol i gynulleidfaoedd asesu dibynadwyedd gwybodaeth, gan atgyfnerthu pwysigrwydd cael gafael ar ffynonellau newyddion dibynadwy.

Mae ymddiriedaeth a chywirdeb yn dal i fod yn gryfderau cymharol i newyddion y BBC, ond mae canfyddiadau wedi gwanhau

Mae ein tystiolaeth yn dangos bod Newyddion y BBC yn parhau i gael ei ddefnyddio'n eang ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Fel PSB eraill a allfeydd newyddion, mae'n wynebu heriau sylweddol o newid arferion cynulleidfaoedd a dirywiad mewn ymddiriedaeth mewn sefydliadau. Er enghraifft, mae data Reuters yn dangos bod cyfran y bobl sy'n dweud eu bod 'yn ymddiried yn y rhan fwyaf o

[38] Arolwg Cyfryngau Lleol Ofcom 2026.
[39] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26. Gwrandawyr BBC Local Radio, Radio Scotland, Radio nan Gàidheal, Radio Wales, Radio Cymru/Cymru 2, Radio Ulster a Radio Foyle sy'n rhoi sgôr o 7 neu fwy iddo o ran boddhad.
[40] Ofcom, Cael Gafael ar Newyddion yn y DU 2026 t.26 - Mae ein hymchwil yn tynnu sylw at y ffaith bod ymddiriedaeth mewn gwasanaethau newyddion sy'n cael eu darparu ar lwyfannau trydydd parti yn is na phan fydd modd cael gafael ar gynnwys yn uniongyrchol o lwyfan y darparwr.

newyddion y rhan fwyaf o'r amser' wedi gostwng o 51% yn 2015 i 30% yn 2026.[41] Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r BBC yn parhau i berfformio'n gryf ac mae ymddiriedaeth a chywirdeb yn parhau i fod yn gryfderau cymharol newyddion y BBC: mae 65% o gynulleidfaoedd y BBC yn rhoi sgôr uchel iddo am gywirdeb a 63% am ddibynadwyedd. O'i gymharu ag ymddiriedaeth a chywirdeb, mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd y BBC yn is, gyda 54% o gynulleidfaoedd y BBC yn rhoi sgôr uchel iddo.[42] Mae newyddion lleol y BBC yn parhau i fod yn ddibynadwy iawn, gan gynnwys ei ddarllediadau o etholiadau lleol[43], ac yn ei Adroddiad Blynyddol, mae'r BBC yn cynnwys ymchwil sy'n dangos bod oedolion y DU ar y brig ymhlith darparwyr cyfryngau yn y DU am gynnig adroddiadau cywir wedi'u gwirio gan ffeithiau a chynnwys y gall pobl ymddiried ynddo.[44]

Mae canfyddiadau o ymddiriedaeth mewn newyddion yn amrywio yn ôl oedran, grŵp economaidd-gymdeithasol ac yn dibynnu ar ble mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r cynnwys y maent yn ei wylio ac yn gwrando arno. Mae ymddiriedaeth yn dueddol o fod yn gryfach ymhlith cynulleidfaoedd hŷn na chynulleidfaoedd iau ac mae'n gyffredinol uwch pan fydd newyddion y BBC yn cael ei gyrchu drwy wasanaethau'r BBC nag y deuir ar ei draws yng nghyd-destun cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau trydydd parti eraill. Er enghraifft, mae canfyddiadau o ymddiriedaeth yn cynyddu i 67% pan ystyrir cynnwys ar lwyfannau'r BBC ei hun yn unig, ond mae'n is, ar 51% ar gyfer newyddion y BBC 'oddi ar lwyfan' (h.y. ar gyfryngau cymdeithasol neu VSPs). Nid yw'r patrwm hwn yn unigryw i'r BBC, gydag ITV a Channel 4 hefyd yn cael graddfeydd ymddiriedaeth is ar gyfryngau cymdeithasol nag ar deledu.[45]

Mae data'r BBC ei hun yn dangos bod sgoriau ar gyfer ymddiriedaeth, cywirdeb ac amhleidioldeb wedi gostwng ers 2021/22. Ymhlith yr holl oedolion (h.y. nid defnyddwyr y BBC yn unig), rhwng 2021/22 a 2025/26, gostyngodd y gyfran sy'n credu bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes cywir o 63% i 56%, dibynadwyedd o 63% i 55%, a didueddrwydd o 51% i 45%.[46] Mae ein hymchwil o wylwyr newyddion teledu yn dangos tueddiadau tebyg sy'n amlwg ar draws y PSBs eraill, a chyda didueddrwydd yn gyson yn denu sgorau is nag ymddiriedaeth a chywirdeb.[47]

Er bod didueddrwydd yn dal yn ddisgwyliad sylfaenol i newyddion y BBC, caiff canfyddiadau cynulleidfaoedd eu siapio gan amrywiaeth o ffactorau. Yn ogystal â chywirdeb adroddiadau unigol, maent yn cael eu dylanwadu gan ganfyddiadau o ddewis a hepgoriadau, yr amrywiaeth o safbwyntiau a gynrychiolir a gwerthoedd a disgwyliadau cynulleidfaoedd eu hunain, sydd hefyd yn cael eu siapio gan yr amgylchedd cyfryngau ehangach. Yr her felly yw darparu newyddiaduraeth sy'n ddigon diduedd a gwneud y penderfyniadau golygyddol sy'n sail iddi yn glir ac yn gredadwy i wahanol gynulleidfaoedd.[48]

---

[41] Reuters Institute Digital News Report 2026, t.71.

[42] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2026. Sylwer, drwy gydol y bennod hon, bod sgôr o 7 neu uwch ar raddfa o 10 pwynt yn cael ei ystyried yn sgôr "uchel" neu "gadarnhaol". Eleni, rydym wedi diweddaru ein Harolwg ar Ddefnydd o Newyddion er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r canfyddiadau cyffredinol o BBC News ar draws gwahanol lwyfannau. Er y gallwn barhau i ddadansoddi canfyddiadau yn ôl llwyfan, rydym, am y tro cyntaf, yn cyflwyno canfyddiadau cyffredinol ynglŷn â BBC News.

[43] Arolwg Ofcom ar Etholiadau Lleol 2026 – Yn Lloegr, rhoddodd 80% o'r rhai a ddefnyddiodd orsafoedd radio rhanbarthol y BBC ar gyfer newyddion am etholiadau cynghorau lleol ym mis Mai 2026 sgôr uchel iddynt o ran dibynadwyedd; roedd y ffigurau ar gyfer gorsafoedd radio'r BBC sy'n darlledu ar draws y DU, a newyddion y BBC ar-lein (drwy'r wefan neu'r ap), yn 73% yn y ddau achos. Sylwer bod sgôr o 7 neu uwch ar raddfa o 10 pwynt yn cael ei ystyried yn sgôr "uchel" neu "gadarnhaol".

[44] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2025/26, t.26.

[45] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2026

[46] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2025/26, t.26.

[47] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2026

[48] Adolygiad o Ymddiriedaeth yn y BBC

Ar sail cwynion a dderbyniwyd gan gynulleidfaoedd, mae gan y BBC hanes da o gydymffurfio â rheolau darlledu a fwriedir i sicrhau bod y rhaglenni'n gywir ac yn ddiduedd. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu nifer o fethiannau golygyddol difridol yn y BBC. Mae'r BBC yn cydnabod bod hyn wedi niweidio hyder cynulleidfaoedd ac mae wedi cymryd camau i gryfhau safonau golygyddol ac atebolrwydd, gan gynnwys diwygiadau i'r broses o ddelio â chwynion).[49] [50] Os bydd canfyddiadau'n parhau i wanhau, gallai hyn greu heriau tymor hirach i enw da ac effeithio ar allu'r BBC i gyflawni ei rôl. Rydym yn ystyried yr heriau hyn, ac ymateb y BBC iddynt, yn fwy manwl yn ein Hadolygiad o Ymddiriedaeth y BBC.

Mae'r BBC yn gweithredu drwy fod yn fwy ymatebol o ran anghenion cynulleidfaoedd

Er mwyn hyrwyddo mwy o dryloywder ac ymgysylltiad â chynulleidfaoedd, mae'r BBC wedi rhoi mwy o bwyslais ar newyddiaduraeth sy'n fwy esboniadol ac sy'n cael ei harwain gan y gynulleidfa.[51] Nod mentrau fel *Your Voice* ac *Your Voice, Your BBC News*, yw rhoi mwy o gyfleoedd i gynulleidfaoedd ddylanwadu ar flaenoriaethau golygyddol a gofyn cwestiynau'n uniongyrchol.[52] Eu nod yw cefnogi ymddiriedaeth drwy wneud newyddiaduraeth y BBC yn fwy ymatebol i bryderon cynulleidfaoedd ac yn gliriach ynghylch sut mae straeon yn cael eu dewis, eu hadrodd arnynt a'u hesbonio. Mae'n helpu cynulleidfaoedd i lywio camwybodaeth a thwyllwybodaeth drwy ehangu BBC Verify i wneud ei brosesau dilysu'n fwy gweladwy, ac yn helpu cynulleidfaoedd i sylwi pan fo cynnwys yn ffug, yn gamarweiniol neu wedi'i gynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial.[53] Dylai'r mesurau hyn helpu BBC Verify i sefydlu ei hun ymhellach fel adnodd pwysig i gynulleidfaoedd; mae chwarter oedolion y DU wedi dweud eu bod wedi defnyddio gwefan neu adnodd gwirio ffeithiau o leiaf unwaith, ac roedd dros un o bob pump yn honni eu bod wedi defnyddio BBC Verify o leiaf unwaith.

Mae'r BBC wedi parhau i fuddsoddi mewn mentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio i gryfhau llythrennedd newyddion a sgiliau dilysu.[54] Yn ein hargymhellion diweddar ar Lythrennedd yn y cyfryngau, fe wnaethom bwysleisio pa mor bwysig yw gwerthuso a dangos effaith gweithgareddau o'r fath.

[49] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2025/26, t.20 - Cydnabuwyd bod y fersiwn a olygwyd gan *Panorama* o araith yr Arlywydd Trump, yn ogystal â thorri canllawiau golygyddol mewn perthynas â *Gaza: How to Survive a Warzone,* wedi bod yn ddigwyddiadau a niweidiodd canfyddiadau o ymddiriedaeth ac annibyniaeth.
[50] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2025/26, t.118 – Adroddiad y Pwyllgor Safonau Golygyddol.
[51] Mae hyn yn cynnwys mwy o ffocws ar newyddiaduraeth ymchwiliol a manwl drwy BBC Investigates ar BBC iPlayer, *BBC InDepth, BBC Verify* ac esboniadau byw. Ymateb BBC RFI, 2025/26.
[52] Cynllun Blynyddol y BBC 2025/26, t20. Yn 2025/26, defnyddiodd Newyddion y BBC ffrydiau byw *Eich Llais* i ateb cwestiynau cynulleidfaoedd ar faterion yn amrywio o bleidleisio a hawliau rhentwyr i bryderon defnyddwyr bob dydd, gan helpu i greu mwy o ryngweithio rhwng newyddiadurwyr a chynulleidfaoedd BBC DoMaPP t.6.
[53] BBC DoMaPP, t20.
[54] Mae BBC DoMaPP t.20-21 - *Other Side of the Story*, sy'n helpu pobl ifanc 11 i 16 oed i adnabod camwybodaeth a chyrhaeddodd tua 77,000 o ddefnyddwyr wythnosol yn 2025/26, cynnydd o fwy na 60% o un flwyddyn i'r llall. Mae hefyd wedi cyflwyno mentrau yn yr ysgol, gan gynnwys gweithdai, y ffrwd byw *AI or Real* a *Solve the Story*.

DIBEN CYHOEDDUS 2

Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oedran

Cyrhaeddiad cynulleidfa wythnosol Bitesize

BBC BITESIZE

1.58m visitors | ▼ 1.65m in 2024/25



Sgoriau ar gyfer Bitesize

86% o ddefnyddwyr, 4-16 oed yn dweud: ***"bod BBC Bitesize yn ddefnyddiol"***

Athrawon sydd wedi defnyddio, neu sy'n bwriadu defnyddio BBC Teach

BBC TEACH

Athrawon ysgolion cynradd	Athrawon ysgolion uwchradd
79%	72%

Cyrhaeddiad traws-blatfform wythnosol y BBC ymhlith plant 3-16 oed: 76%

Cyrhaeddiad wythnosol CBeebies a CBBC

	4-6 oed	4-15 oed
BBC CBeebies	30%	12%
BBC CBBC	7-12 oed	4-15 oed
	8%	7%

Barn plant am y BBC

75% o blant 8-16 oed a rhieni plant 3-7 oed yn cytuno bod y BBC yn darparu rhaglenni a chynnwys sy'n eu helpu i ddysgu

79% o wylwyr Cbeebies yn cytuno bod rhaglenni Cbeebies yn eu dysgu am y byd

74% o wylwyr CBBC yn cytuno bod rhaglenni CBBC yn eu dysgu am y byd

Cyfartaledd oedolion sy'n gwylio cynnwys dysgu anffurfiol ar sianeli'r BBC yn 2026



58%

o oedolion yn dweud bod y BBC yn darparu:

"Rhaglenni a chynnwys sy'n helpu ac yn annog pobl i ddysgu am bethau newydd"

Partneriaethau'r BBC

356 o bartneriaethau ▼370 yn 2024/25

Ffynonellau: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; data Barb – yn seiliedig ar wylio ar draws sianeli teledu a gwasanaethau ar-alw, ar setiau teledu a dyfeisiau eraill yn y cartref sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi. Oedolion 16 oed a hŷn ar gyfer dysgu anffurfiol. Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog i blant: 3 munud neu fwy; data a ddarparwyd gan y BBC – Piano Analytics; Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/6; Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus i Blant Ofcom 2025/26; BBC DoMaPP; data a ddarparwyd gan y BBC – Traciwr Myfyrwyr ac Athrawon DJS Research (Haf 2025 a Hydref 2025).

Perfformiad Diben Cyhoeddus 2 yn 2025/26

- **Mae BBC Bitesize yn dal i gael ei werthfawrogi'n fawr:** mae 46% o blant 4-16 oed yn ei ddefnyddio, ac mae 86% o ddefnyddwyr yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol, ond bod y defnydd a'r canfyddiadau'n is ymysg plant mewn aelwydydd 'DE'.
- **Mae'r BBC wedi cynnal cyrhaeddiad ei wasanaethau plant, gan dyfu cynulleidfaoedd ar-lein ar yr un pryd.** Mae 30% o blant 0-6 oed yn gwylio CBeebies bob wythnos ac mae 8% o blant 7-12 oed yn gwylio CBBC. Mae'r BBC yn gwneud cynnydd gyda'i gynlluniau i ymgysylltu â phlant ar y llwyfannau maent yn treulio mwy a mwy o'u hamser arnynt.
- **Mae'r BBC yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys dysgu anffurfiol**, gyda'r rhan fwyaf (58%) o oedolion y DU yn cytuno bod y BBC yn darparu rhaglenni a chynnwys sy'n helpu ac yn annog pobl i ddysgu am bethau newydd.

Ein hasesiad

Dysgu ffurfiol i blant

Mae Bitesize yn dal i gael ei werthfawrogi'n fawr gan blant sy'n ei ddefnyddio

Mae'r BBC yn gwasanaethu plant o bob oed drwy ddarparu cynnwys i ategu eu dysgu ffurfiol drwy BBC Bitesize i fyfyrwyr. Yn 2025/26, cafodd ei ddefnyddio gan 1.58 miliwn o ymwelwyr unigryw bob wythnos ar gyfartaledd. Er bod hyn wedi gostwng ychydig o 1.65 miliwn yn 2024/25, mae nifer yr ymwelwyr wedi bod yn weddol sefydlog ers 2022/23.[55] Mae ein hymchwil yn dangos bod 46% o blant 4-16 oed yn defnyddio Bitesize ar gyfer gwaith ysgol neu waith cartref, ac o blith y rheini sy'n gwneud hynny, mae 86% yn dweud ei fod yn ddefnyddiol iddynt a 79% yn dweud ei fod yn ddiddorol.[56] Pan ofynnwyd am y gwahanol fathau o wefannau/apiau, ystyrir mai gwefannau addysg, fel BBC Bitesize, yw'r rhai mwyaf dibynadwy, gyda 60% o blant yn dweud bod yr holl wybodaeth neu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth maen nhw'n ei gweld ar y safleoedd neu'r apiau hyn yn 'wir'.[57]

Mae rhai gwahaniaethau demograffig o ran defnydd a chanfyddiadau o Bitesize - er bod plant hŷn ychydig yn fwy tebygol o'i ddefnyddio, mae plant iau yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn gweld ei golli pe na bai ar gael mwyach.[58] Mae cyrhaeddiad yn dal yn uwch ymysg plant o aelwydydd economaidd-gymdeithasol ABC1 o'i gymharu â C2DE (51% o'i gymharu â 40%) a rhoddodd y rheini

[55] Data a ddarparwyd gan y BBC, (Piano Analytics). Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2024/2025.
[56] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Plant 2025/26.
[57] Ofcom, Plant a Rhieni: adroddiad ar agweddau a defnyddio'r cyfryngau 2026. Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i blant 8-17 oed: Ydych chi'n defnyddio apiau neu safleoedd ar gyfer gwaith ysgol neu waith cartref - fel BBC Bitesize neu apiau neu safleoedd a awgrymwyd gan eich athrawon? Os ydych chi, ydych chi'n credu bod yr holl wybodaeth rydych chi'n ei gweld ar yr apiau neu'r safleoedd hyn yn wir, bod y rhan fwyaf yn wir, neu mai dim ond rhywfaint ohoni sy'n wir?
[58] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Plant 2025/26. Mae 46% o blant 8-11 oed yn dweud eu bod yn defnyddio Bitesize a byddai 72% yn gweld ei golli pe na bai ar gael mwyach. Mae hyn yn cymharu â 52% o ddefnydd a 60% o rai a fyddai'n 'gweld ei golli' ymysg pobl ifanc 12-16 oed.

sy'n ei ddefnyddio sgoriau uchel iddo - dywedodd 90% o blant o aelwydydd AB, ac 80% o aelwydydd DE, ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwaith ysgol neu waith cartref.[59]

Mae Bitesize for Teachers yn parhau i gefnogi athrawon ac mae'n cael ei ddefnyddio'n helaeth

Mae'r BBC yn parhau i gefnogi athrawon drwy BBC Bitesize for Teachers[60], a gyrhaeddodd 157.5k o ymwelwyr bob wythnos ar gyfartaledd yn 2025/26.[61] Dywedodd 93% o athrawon cynradd a 91% o athrawon uwchradd eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaeth, a chododd y gyfran a oedd wedi'i ddefnyddio, neu'n bwriadu ei ddefnyddio, ar draws y ddau grŵp, i 79% a 72% yn y drefn honno (o'i gymjharu â 71% a 61% y llynedd). Mae hyn yn gynnydd sylweddol dros gyfnod y Siarter yn ei chyfanrwydd, i fyny o 26% o athrawon cynradd a 27% o athrawon uwchradd oedd wedi bwriadu defnyddio'r gwasanaeth yn 2018/19.[62] Wrth i athrawon wneud mwy o ddefnydd o adnoddau BBC Bitesize, mae'n debygol o gefnogi llawer o blant i ddysgu. Mae hefyd yn chwarae rhan mewn ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, ac, fel y nodir uchod yn Niben Cyhoeddus 1, mae'r BBC yn parhau i fuddsoddi ynddo ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae darpariaeth dysgu ffurfiol y BBC yn parhau i esblygu

Mae'r BBC yn dweud ei fod wedi 'gwella'r cynnwys sydd ar gael ar wefan Bitesize [yn 2025], gan ei gwneud yn haws i fyfyrwyr ac athrawon ddod o hyd i gynnwys perthnasol' ac wedi dechrau gweithio i uwchraddio ap Bitesize. Erbyn tymor arholiadau 2025, roedd ganddo dros 525 o restrau chwarae fideo TGAU penodol ar gael, gyda chynnydd o 28% yn y nifer sy'n ei chwarae o un flwyddyn i'r llall. Mae hefyd wedi ceisio cyrraedd cynulleidfaoedd oedran uwchradd yn well gyda chynnwys ar YouTube, WhatsApp a TikTok, ac mae wedi gweithio gyda BBC News i gyd-gynnal ffrydiau TikTok LIVE cyn rhai arholiadau TGAU allweddol.[63] Mae ganddo gynlluniau hefyd i ehangu Bitesize ar gyfer dysgwyr ac athrawon Safon Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2026/27, dywedodd y BBC y bydd Bitesize yn parhau i esblygu, yn enwedig mewn ymateb i newidiadau cyflym mewn technoleg ar draws y sector addysg ac mae wedi cyhoeddi newidiadau'n ddiweddar i helpu athrawon i gael gafael ar Bitesize mewn ystafelloedd dosbarth.[64]

Ennyn diddordeb plant yng ngwasanaethau ac allbwn y BBC

Mae'r BBC wedi cynnal cyrhaeddiad CBBC a Cbeebies, gan dyfu cynulleidfaoedd ar-lein ar yr un pryd

Ar adeg pan mae buddsoddiad y sector darlledu ehangach mewn cynnwys i blant yn gostwng, mae'r BBC yn parhau i ddarparu'r amrywiaeth fwyaf helaeth o gynnwys i blant yn y DU, drwy ei wasanaethau penodol i blant, CBBC a CBeebies, BBC iPlayer ac yn gynyddol drwy lwyfannau trydydd parti. Mae gan ei ddarpariaeth ran hollbwysig yn y gwaith o ddarparu dysgu ffurfiol ac anffurfiol i gynulleidfaoedd ifanc.

---

[59] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Plant 2025/26. Sylwch fod sgoriau cynulleidfaoedd y nodir eu bod yn "uchel" neu'n "gadarnhaol" drwy gydol y bennod hon yn seiliedig ar sgoriau o 7-10 ar raddfa 10 pwynt.
[60] Noder, yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC ar gyfer 2025/26, fod y BBC wedi nodi'r ffigur ar gyfer ymwelwyr unigryw i 'BBC Education', gan fod 'BBC Bitesize for Students' wedi'i gyfuno â 'BBC Bitesize for Teachers'.
[61] Data a ddarparwyd gan y BBC, (Piano Analytics).
[62] Data a ddarparwyd gan y BBC – Myfyriwr Ymchwil DJS a Traciwr Athrawon 2019/20-2025/26; Traciwr Myfyrwyr ac Athrawon YouGov 2018/19.
[63] BBC, DoMaPP 2025/26, t.22, 26-27.
[64] Cynllun Blynyddol y BBC 2026/2027, t. 46.

Y llynedd fe dynnom sylw fod yr arwyddion cynnar, wrth i'r BBC foderneiddio ei ddarpariaeth i blant, yn dangos bod ei ymdrechion yn cael effaith fesuradwy.[65] Eleni, mae'r arwyddion cadarnhaol yn parhau, ond mae'r amgylchedd yn parhau i fod yn heriol: arhosodd y cyrhaeddiad cyffredinol yn weddol sefydlog, gydag 8% o blant 7-12 oed yn gwylio CBBC bob wythnos, a 30% o blant 0-6 oed yn gwylio CBeebies bob wythnos. O fewn hyn, roedd twf parhaus yn lefelau gwylio BBC iPlayer ynghyd â gostyngiad yn lefelau gwylio sianeli darlledu plant.[66]

Mae animeiddiadau a rhaglenni addysgol yn parhau i berfformio'n dda, er enghraifft *Bluey* oedd y teitl a gafodd ei wylio fwyaf ar CBeebies, a *Horrible Science* oedd y teitl a gafodd ei wylio fwyaf ar CBBC yn 2025/26. Roedd *Horrible Histories* ac *Operation Ouch!* ymysg teitlau gorau'r sianel[67] a pherfformiwyd y rhaglen gyntaf a gynhyrchwyd gan fenter animeiddio BBC Ignite, *Duck a Frog*, am y tro cyntaf ym mis Chwefror eleni.[68]

Mae canfyddiadau o allbwn y BBC i blant yn parhau'n uchel - mae 81% o wylwyr CBeebies yn cytuno bod ei 'raglenni'n addysgiadol', mae 79% yn dweud eu bod yn 'eu haddysgu am y byd', ac mae 78% yn dweud eu bod 'wrth eu bodd' â rhaglenni CBeebies. Yn achos CBBC, y canrannau cyfatebol yw 77%, 74% a 72% yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae plant hŷn, plant o aelwydydd C2DE a phlant anabl fel arfer yn llai tebygol o roi sgoriau uchel i'r sianeli,[69] gyda phlant hŷn hefyd yn llai tebygol o wylio[70]. Mae 41% o blant rhwng 3 ac 16 oed yn dweud eu bod yn gwylio *Newsround* neu'n defnyddio gwefan *BBC Newsround* o leiaf unwaith yr wythnos, tra bod bron i dri o bob pump (59%) yn nodi eu bod wedi defnyddio neu wylio'r gwasanaethau hyn ar ryw adeg. Mae mwy na thraean (35%) o blant 3-16 oed yn gwylio CBBC neu BBC iPlayer yn rheolaidd, ac mae 23% yn defnyddio gwefan *BBC Newsround* yn rheolaidd. Ymysg plant 8-16 oed sy'n gwylio neu'n defnyddio *Newsround*, mae'n cael ei ystyried yn addysgiadol, yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth.[71]

Gan gyd-fynd â'n hargymhellion yn Argyfwng Darlledu i fynd lle mae'r cynulleidfaoedd, mae'r BBC yn gwneud newidiadau sylweddol o ran ymgysylltu â phlant ar lwyfannau trydydd parti. Fel rhan o'i bartneriaeth strategol â YouTube, mae'r BBC yn lansio sianeli newydd i blant ac yn ceisio creu cymunedau wedi'u targedu ar gyfer plant ac oedolion ifanc yn y DU. Mae hefyd yn sicrhau bod bwletinau *Newsround* a chynnwys Bitesize ar gael ar YouTube.[72] Yn 2024, lansiodd y BBC hyb adloniant i blant ar Roblox, *Wonder Chase*, sydd wedi denu 2.4 miliwn o ymweliadau yn y DU hyd yma.[73] Yn 2025, ychwanegodd y BBC at hyn gyda'i brofiad addysgol cyntaf Bitesize ar Roblox, *Planet*

---

[65] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2024/25, t.22-23.

[66] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi yn y cartref. Ymysg plant 7-12 oed, mae cyrhaeddiad llinol CBBC (yn fyw ac chwarae'n ôl wedi'i recordio) wedi gostwng 3 phwynt canran ers 2023, ac mae BVoD wedi cynyddu 1 pwynt canran, sy'n golygu bod cyrhaeddiad cyffredinol CBBC (chwarae'n fyw, wedi'i recordio a BVoD) wedi aros yn sefydlog ar 8%. Ymysg gwŷr a gwragedd tŷ sydd â phlant 0-3 oed a'r plant hynny sydd rhwng 4 a 6 oed, mae cyrhaeddiad llinol CBeebies (chwarae'n fyw ac wedi'i recordio) wedi gostwng 5 pwynt canran ers 2023, ac mae BVoD wedi cynyddu 1 pwynt canran, sy'n golygu fod cyrhaeddiad cyffredinol CBeebies wedi aros yn weddol sefydlog (30% o'i gymharu â 32%). Meini prawf cyrhaeddiad: 3+ munud yn olynol.

[67] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi yn y cartref. Chwarae'n fyw, wedi'i recordio a BVoD. Pennod a berfformiodd orau fesul teitl yn seiliedig ar gyfanswm gwylio cronnus ar draws y flwyddyn gyfan ar gyfer plant 4-15 oed. Mae ffigurau darlledwyr yn cynnwys teledu byw, chwarae recordiadau a BVoD.

[68] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC, tud. 35. Bwriad menter BBC Ignite, a lansiwyd yn 2021, yw dod o hyd i raglen animeiddiedig fawr nesaf y DU. Mae crewyr dethol yn cael cyllid a chefnogaeth i ddatblygu eu syniadau ar y cyd mewn partneriaeth â'r BBC.

[69] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Plant 2025/26.

[70] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi y cartref. Chwarae'n fyw, wedi'i recordio a BVoD.

[71] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Plant 2025/26. Dywedodd 80% o blant 8-15 oed sy'n defnyddio *Newsround* ei fod yn eu dysgu am y byd, mae 78% yn dweud ei fod yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth, mae 77% yn dweud ei fod yn ddiddorol, mae 77% yn dweud ei fod yn hawdd ei ddeall ac mae 76% yn dweud eu bod yn dysgu llawer o Newsround.

[72] Cynllun Blynyddol y BBC 2026/27, t. 15 a 17,

[73] Data a gyflenwyd gan y BBC, hyd at fis Hydref 2026.

Planners, a oedd, yn ôl y BBC, wedi denu 1.6 miliwn o ymweliadau. Ym mis Mehefin 2025, lansiwyd CBeebies Parenting, cynnig wedi'i anelu at rieni plant o'u geni hyd at oedran ysgol.[74]

Yn ogystal â'i allbwn i blant, mae gwasanaethau'r BBC yn fwy cyffredinol yn dal i gyrraedd nifer fawr o blant

I asesu'r gwaith o gyflawni Diben Cyhoeddus 2 mae angen ystyried cynnwys sydd wedi'i gomisiynu'n benodol ar gyfer gwasanaethau plant yn ogystal â'r amrywiaeth ehangach o gynnwys y BBC sy'n cyrraedd plant ac o fudd iddynt, y gallent hefyd fod yn ei wylio neu'n gwrando arno gyda'u teuluoedd.

Y BBC yw'r darlledwr sy'n cael ei wylio fwyaf ymysg plant o hyd, gyda 44% o blant 4-15 oed yn ei wylio bob wythnos.[75] Mae cyrhaeddiad cyffredinol y BBC yn dal yn uchel, gyda 76% o blant 3-16 oed yn dweud eu bod yn defnyddio'r BBC ar draws wasanaethau teledu/iPlayer, radio/Sounds y BBC neu ar-lein bob wythnos.[76] Rhai o'r teitlau a fu'n boblogaidd iawn ymysg plant dros y flwyddyn ddiwethaf yw'r gyfres fyd natur *Kingdom* wedi'i restru ymhlith y 10 cyfres orau gan y BBC o ran gwylio gan blant, *The Traitors* (cyfanswm o 1.0m o blant a phobl ifanc rhwng 4 a 15 oed ar gyfer diweddglo tymor 4) a *Gladiators* (cyfanswm o 1.3m o blant â phobl ifanc rhwng 4 a 15 oed ar gyfer premiere tymor 3).[77]

Mae cyrhaeddiad y BBC, gan gynnwys ar BBC iPlayer, yn dal yn uwch ymysg plant iau (4-6 oed) o'i gymharu â grwpiau oedran hŷn, gyda 38% o blant 4-6 oed yn gwylio BBC iPlayer bob wythnos o'i gymharu â 29% o blant 7-12 oed. Roedd 30% o blant 4-15 oed yn gwylio BBC iPlayer, cynnydd o 6 phwynt canran ers 2022, ac roedd ar y blaen i wasanaethau ffrydio darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill ar gyfer y grŵp oedran hwn o gryn bellter.[78] Mae ein hymchwil hefyd yn dangos bod 21% o blant 3-16 oed yn defnyddio BBC Sounds bob wythnos.[79]

Dysgu anffurfiol i oedolion

Mae'r BBC yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys dysgu anffurfiol ar amrywiaeth o lwyfannau

Mae'r BBC yn cefnogi dysgu i bobl o bob oed ar draws ei amrywiaeth o gynnwys yn ogystal â thrwy genres penodol fel hanes, crefydd, gwyddoniaeth, y celfyddydau a cherddoriaeth, materion cyfoes, rhaglenni dogfen ac adloniant ffeithiol. Gyda'n gilydd, ein diffiniad o'r genres hyn yw rhai sy'n cyfrannu at 'ddysgu anffurfiol', gan nodi y gall cynulleidfaoedd wrth gwrs gael gwybodaeth a dysgu pethau newydd ar draws ystod llawer ehangach o allbwn.

Mae'r BBC yn parhau i ddarparu llawer iawn o gynnwys dysgu anffurfiol ar ei wasanaethau llinol traddodiadol, yn ogystal ag ar-lein drwy BBC iPlayer, BBC Sounds a gwefan y BBC. Ar y teledu, roedd faint o allbwn dysgu anffurfiol gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf wedi cynyddu ychydig eleni i 657 awr, er ei fod yn dal yn is yn y tymor hirach. Bu gostyngiad o 124 awr yng nghyfanswm yr allbwn teledu dysgu anffurfiol (gan gynnwys ailddarllediadau a rhaglenni a brynwyd) i 4,701 awr.[80] Mae

---

[74] BBC, DoMaPP 2025/2026, t.23, 26-27.
[75] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi yn y cartref. Chwarae'n fyw, wedi'i recordio a BVoD. Meini prawf cyrhaeddiad: 3+ munud yn olynol.
[76] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Plant 2025/26.
[77] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi yn y cartref. Chwarae'n fyw, wedi'i recordio a BVoD. Yn seiliedig ar y bennod sy'n perfformio orau, o'r lansiad tan ddiwedd mis Mawrth 2026.
[78] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi yn y cartref. Meini prawf cyrhaeddiad: 3+ munud. ITVX (14%), Channel 4 8% a Channel 5 3%.
[79] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Plant 2025/26
[80] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC

wedi tyfu ei gatalog dysgu anffurfiol ar BBC iPlayer, gyda dros 8,600 awr ar gael yn 2025, cynnydd o 35% ers 2021.[81] Ar BBC Radio a BBC Sounds, mae'r BBC yn dweud ei fod wedi darparu 1,978 awr o gynnwys dogfennol a llafar llawn gwybodaeth, ac roedd 1,125 o'r oriau hynny'n cael eu dangos am y tro cyntaf.[82] Mae cynnwys dysgu anffurfiol hefyd ar gael ar wefan y BBC, a chyrhaeddodd 21% o oedolion ar-lein ym mis Mawrth 2026 – cynnydd o 17% ym mis Mawrth 2025.[83]

Eleni, gwyliodd 18% o oedolion rywfaint o gynnwys dysgu anffurfiol ar wasanaethau teledu'r BBC a BBC iPlayer mewn wythnos arferol, gan gyd-fynd â 2024. O fewn hyn, gostyngodd gwylio llinol ychydig o 16% yn 2024 i 15% yn 2025, a chynyddodd lefelau gwylio BBC iPlayer ychydig, gan godi o 3% yn 2024 i 4% yn 2025.[84] Yn ôl Arolwg Ofcom o Bodlediadau, BBC Sounds yw'r ail wasanaeth sy'n cael ei ddefnyddio amlaf i wrando ar bodlediadau, gyda 45% o'r rhai sy'n gwrando ar bodlediadau yn defnyddio'r gwasanaeth.[85]

Mae cynulleidfaoedd yn dal yn gwerthfawrogi darpariaeth dysgu anffurfiol y BBC

Mae 58% o oedolion y DU yn rhoi sgoriau uchel i'r BBC am ddarparu rhaglenni a chynnwys sy'n helpu ac yn annog pobl i ddysgu pethau newydd,[86] ac mae 84% o ddefnyddwyr wythnosol BBC iPlayer yn dweud ei fod yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r diben dysgu.[87] Mae gwrandawyr BBC Radio a Sounds hefyd yn canmol ei gynnwys dysgu anffurfiol: Mae 72% o wrandawyr BBC Radio ac 83% o wrandawyr BBC Sounds yn canmol y BBC am ddarparu 'cynnwys sydd wedi fy helpu i ddysgu am bethau newydd na fyddwn i'n wedi gallu eu dysgu fel arall'.[88]

Partneriaethau

Partneriaethau diwylliannol yn parhau i chwarae rôl bwysig

Mae'r BBC yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau gwahanol fel prifysgolion, elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill yn y cyfryngau, i helpu i gyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus. Yn 2025/26, bu'n gweithio gyda 356 o sefydliadau (gostyngiad bychan o'r ffigur o 370 yn 2024/25). O'r rhain, dywedodd y BBC fod 187 (53%) o blaid cyflawni Diben Cyhoeddus 2. Mae partneriaethau'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflawni'r Diben Cyhoeddus hwn, fel helpu i ddarparu cynnwys addysgol a chysylltu cynulleidfaoedd â gwasanaethau a gwybodaeth berthnasol.[89]

Fe wnaethom adrodd y llynedd ei bod yn ymddangos bod dull y BBC o reoli a monitro partneriaethau wedi'i wreiddio'n dda yn y sefydliad.[90] Drwy'r broses o Adolygu'r Siarter, mae'r DCMS yn ystyried opsiynau i annog y BBC i gyflawni mwy drwy gydweithio a phartneriaethau.[91]

---

[81] Dadansoddiad Ofcom o ddata Ampere Analysis, a gyrchwyd ym mis Tachwedd 2026
[82] BBC DoMaPP 2025/26, t.79.
[83] Gwasanaeth Mesur Cynulleidfa Ar-lein Ipsos iris, Mawrth 2025 / Mawrth 2026, oedran: 15+, defnyddwyr rhyngrwyd yn y DU. Categorïau a gynhwysir yn y dadansoddiad: BBC News - Gwyddoniaeth a'r Amgylchedd; BBC News – Busnes; BBC News – Technoleg; BBC News - Teulu ac Addysg
[84] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi yn y cartref. Meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol.
[85] Arolwg Podlediadau Ofcom 2026. Spotify oedd â'r cyrhaeddiad uchaf a nodwyd, sef 49%.
[86] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025-26
[87] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2025/26, t.215
[88] Arolwg Sain Ofcom 2026.
[89] BBC DoMaPP 2025/26, t.36
[90] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2024/25, t.26
[91] Papur Gwyrdd ac Ymgynghoriad Cyhoeddus DCMS ar Adolygiad Siarter Frenhinol y BBC, Rhagfyr 2025, t.47

DIBEN CYHOEDDUS 3

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, uchaf eu hansawdd ac unigryw

GWREIDDIOLDEB

Oriau a gwariant ar gynnwys a ddangoswyd gyntaf ar deledu rhwydwaith yn y DU

45% awr

92% gwariant

Gwariant teledu rhwydwaith y BBC ar raglenni mewn perygl


20.8% ar genres mewn perygl

18.7% yn 2024


Genres mewn perygl a wylir gan oedolion bob mis ar gyfartaledd: **2 awr, 20 munud**

ARLOESEDD

Oriau o gynnwys teledu gwreiddiol newydd y BBC a chynnwys sy'n dychwelyd



Cwmnïau cynhyrchu sy'n gweithio gyda'r BBC



CANFYDDIADAU CYNULLEIDFAOEDD


Sgoriau cadarnhaol am natur unigryw'r BBC ymysg oedolion

62% yn dweud bod y BBC yn darparu cynnwys creadigol o ansawdd uchel

63% yn dweud bod y BBC yn darparu cynnwys sydd wedi'i wneud i gynulleidfaoedd y DU

63% yn dweud bod y BBC yn darparu cynnwys sy'n wahanol i ddarparwyr eraill

Sgoriau cadarnhaol o BBC iPlayer



74% yn dweud bod iPlayer yn darparu ystod dda o gynnwys

68% yn dweud bod iPlayer yn ei gwneud hi'n hawdd darganfod cynnwys newydd

Sgoriau cadarnhaol ar gyfer BBC Sounds a BBC Radio

79% yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Sounds am gynnwys creadigol o ansawdd uchel


70% yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Radio am gynnwys creadigol o ansawdd uchel

61% yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Sounds am eu cyflwyno i gerddoriaeth neu artistiaid newydd

54% yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Radio am eu cyflwyno i gerddoriaeth neu artistiaid newydd

78% yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Sounds am yr ystod o gynnwys sydd ar gael

72% yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Radio am yr ystod o gynnwys sydd ar gael



Ffynonellau: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Adroddiad Comisiynu a Chyflenwi'r BBC; Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26; Arolwg Sain Ofcom 2026; Arolwg Fideo ar-Alw Ofcom 2026; Data Barb fel y'i gwyliwyd, (gwylio fel y digwyddodd), ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â WiFi yn y cartref, ar gyfer unigolion 16 oed a hŷn, yn ymwneud â genres sydd mewn perygl (ac eithrio rhaglenni plant), gan gynnwys darllediadau byw, rhaglenni wedi'u recordio, a fideo ar-alw gan ddarlledwyr (BVoD).

Perfformiad Diben Cyhoeddus 3 yn 2025/26

- **Mae'r BBC yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys ar y teledu, y radio ac ar-lein.** Mae sianeli teledu'r BBC a BBC iPlayer yn parhau i ddarparu cymysgedd ehangach o genres na sianeli eraill a darparwyr fideo ar-alw eraill. Mae ei allbwn radio a BBC Sounds yn cwmpasu cerddoriaeth brif ffrwd ac arbenigol ac amrywiaeth eang o gynnwys llafar.
- **Mae'r BBC yn parhau i gynhyrchu llawer iawn o allbwn gwreiddiol ond mae'r gwariant wedi gostwng.** Cynhyrchodd y BBC fwy o oriau o gynnwys teledu gwreiddiol o'r DU a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf yn 2025 o'i gymharu â 2024, a gostyngodd cyfanswm y gwariant 11% mewn termau real.
- **Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o raglenni a chynnwys y BBC yn dal yn gadarnhaol ar y cyfan.** Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn canmol y BBC am ddarparu 'rhaglenni a chynnwys creadigol o ansawdd uchel' (62%), er bod y sgoriau'n dal yn is ar y cyfan ymysg cynulleidfaoedd DE a phobl 16-24 oed.
- **Mae'r BBC yn parhau i gyfrif am gyfran sylweddol o'r gwylio.** Roedd teledu'r BBC a BBC iPlayer yn cyfrif am 18% o'r holl fideos a wyliwyd yn y cartref yn 2025, sy'n weddol sefydlog o un flwyddyn i'r llall.
- **Mae'r BBC yn newid ei ddull o gyrraedd cynulleidfaoedd drwy roi mwy o gynnwys lle mae cynulleidfaoedd.** Cynyddodd nifer y bobl sy'n gwylio cynnwys y BBC ar lwyfannau trydydd parti, gan gynnwys YouTube a TikTok, yn 2025/26.

Pum colofn natur unigryw

Mae natur unigryw yn mesur sut mae'r BBC yn cymharu ag eraill, yn ogystal â mesur y gwerth unigryw mae'n ei gynnig i gynulleidfaoedd. Mae wrth galon yr hyn rydym yn disgwyl i'r BBC ei wneud. Rydym yn ystyried y ffactorau allweddol a ganlyn (pum colofn natur unigryw) ar sail y fframwaith mesur perfformiad:

- Ansawdd allbwn y BBC;
- Faint o allbwn gwreiddiol sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU;
- Y cymysgedd o genres ac allbwn;
- Yr amrywiaeth o gynulleidfaoedd mae'n eu gwasanaethu; a
- Lefel cymryd risg ac arloesi.

Nid yw natur unigryw yn golygu bod angen i holl raglenni'r BBC fod yn wahanol i'r rhai a geir gan ddarparwyr eraill. Mae ein hasesiad yn ystyried y BBC yn ei gyfanrwydd ac ar draws ei wasanaethau ar sail y colofnau hyn.

Ein hasesiad

Ansawdd yr allbwn

Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o ansawdd y BBC yn dal yn uchel

Ar adeg lle mae mwy o ddewis a chystadleuaeth, mae'n brawf o ddarpariaeth barhaus y BBC i gynulleidfaoedd bod 62% o oedolion yn 2025/26 wedi rhoi sgôr uchel iddo am ddarparu rhaglenni a

chynnwys creadigol o ansawdd uchel.[92] Er bod y BBC yn parhau i gymharu'n dda â darparwyr eraill o ran canfyddiadau o ansawdd, mae eraill fel Netflix hefyd yn cael sgoriau uchel.[93] Fe ddywedom y llynedd, yn unol â chanfyddiadau o'r BBC yn ehangach, bod rhai gwahaniaethau allweddol o hyd yn ôl grwpiau demograffig. Mae hyn yn dal yn wir: mae'r rheini mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol o roi sgôr uchel i'r BBC, ac mae canfyddiadau'n dal yn is ymysg y rheini mewn aelwydydd DE a chynulleidfaoedd iau (16-24).[94]

Mae diwallu anghenion cynulleidfaoedd DE yn well wedi bod yn fater hirsefydlog i'r BBC, yr ydym eisoes wedi'i amlygu.[95] Yn ei ddogfen DoMaPP ddiweddaraf, dywed y BBC y bydd yn gwasanaethu'r cynulleidfaoedd hyn orau drwy raglenni sy'n cael effaith fawr ac sy'n apelio at ystod eang o bobl ledled y DU. Mae hefyd yn amlinellu camau mae'n eu cymryd yn dilyn adolygiad thematig annibynnol o bortreadu a chynrychiolaeth yng nghynnwys y BBC, ac rydym yn trafod hyn yn ein hasesiad o Ddiben Cyhoeddus 4.

Mae rhai arwyddion cadarnhaol bod ymgysylltiad â'r BBC ymhlith cynulleidfaoedd DE yn gwella. O'i gymharu â 2022/23, gwelwyd cynnydd o 4% yn nifer y bobl o grwpiau DE sy'n gwylio'r BBC, er gwaethaf gostyngiad yn niferoedd gwylio. Denodd nifer o raglenni'r BBC eleni gynulleidfaoedd mawr o grwpiau DE, gan gynnwys *The Celebrity Traitors*, *Strictly Come Dancing* a *Call the Midwife*, tra bod rhaglenni fel *EastEnders* a *Casualty* wedi perfformio'n well na'r disgwyl ymhlith y grwpiau hyn.[96]

Mae'r gwelliant hwn wedi'i gefnogi gan ymgysylltiad cryfach â BBC iPlayer; gwelwyd y cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog ymhlith cynulleidfaoedd DE yn cynyddu o 23% yn 2022/23 i 29% yn 2025/26. [97] Wrth edrych ar gynnwys penodol a wylir gan y cynulleidfaoedd hyn ar draws pob gwasanaeth fideo ar-alw gan ddarlledwyr (BVoD), gwelwyd cynnydd yn nifer y rhaglenni BBC sy'n cael eu gwylio.[98] Mae cynulleidfaoedd DE hefyd yn darganfod cynnwys ar BBC iPlayer sy'n apelio'n arbennig atynt o'i gymharu â chynulleidfaoedd eraill, fel rhaglenni sy'n deillio o EastEnders (e.e. EastEnders Revealed) a Waterloo Road. Fel yr amlinellwn yn yr Adolygiad Cyffredinol, ac o ystyried y bydd toriadau sylweddol yn digwydd yn y dyfodol, rydym yn disgwyl i'r BBC egluro sut y bydd yn parhau i ddarparu gwasanaeth i'r grwpiau cynulleidfa hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio fwyaf.

Mae gwelliant hefyd wedi bod o ran ymgysylltiad pobl 16-24 oed â BBC iPlayer. Gwelwyd cynnydd cymedrol yn y cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog ar gyfer y grŵp hwn,[99] tra bod BBC iPlayer yn parhau i ddenu'r gynulleidfa fwyaf yn y grŵp oedran hwn o'i gymharu ag unrhyw wasanaeth BVoD arall. Roedd 34 o'r 50 teitl BVoD mwyaf poblogaidd a wyliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf ar BBC

---

[92] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025/26. Sylwch fod sgoriau cynulleidfaoedd y nodir eu bod yn 'uchel' neu'n 'gadarnhaol' drwy gydol y bennod hon yn seiliedig ar sgoriau o 7-10 ar raddfa 10 pwynt.
[93] Ofcom, Adroddiad atodol Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025-26.
[94] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025/26. Mae 70% o'r rheini mewn aelwydydd AB yn rhoi sgôr uchel i'r BBC am 'gynnwys creadigol o ansawdd uchel' o'i gymharu â 55% mewn aelwydydd DE, ac mae 54% o bobl 16-24 oed yn rhoi sgôr uchel o'i gymharu â 62% yn gyffredinol.
[95] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC, 2024/25, t. 7 a 29
[96] Data 'fel y'i gwyliwyd' Barb. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n gysylltiedig â WiFi cartref ymhlith oedolion yn y categori DE. Gwylio byw, chwarae rhaglenni a recordiwyd, a BVoD (darlledu ar alw gan ddarlledwyr). Mae'r mynegai yn dangos a yw rhaglen yn fwy neu'n llai poblogaidd ymhlith oedolion DE o'u cymharu ag oedolion yn gyffredinol, gan ystyried maint y boblogaeth ar gyfer pob grŵp.
[97] Data 'fel y'i gwyliwyd' gan Barb. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n gysylltiedig â WiFi cartref. BVoD yn unig. Meini prawf cyrhaeddiad: 15 munud neu fwy yn olynol.
[98] Data 'fel y'i gwyliwyd' gan Barb. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n gysylltiedig â WiFi cartref ymhlith oedolion yn y categori DE. Gwylio BVoD yn unig.
[99] Data 'fel y'i gwyliwyd' gan Barb. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n gysylltiedig â WiFi yn y cartref. Meini prawf cyrhaeddiad: 3 munud neu fwy yn olynol. 19% yn 2022/23 i 21.2% yn 2025/26.

iPlayer, ac roeddent yn cynnwys comedi (e.e. *This Country*), drama (e.e. *The Night Manager*) a rhaglenni ffeithiol (e.e. *Louis Theroux*).[100]

Allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU

Mae'r BBC yn parhau i gynhyrchu llawer iawn o allbwn gwreiddiol. Mae ei wariant cyffredinol ar gynnwys wedi gostwng

Mae cynhyrchu amrywiaeth eang o allbwn sy'n deillio o'r DU yn arwydd allweddol o natur unigryw y BBC - mae'n ei wneud yn wahanol i ddarparwyr eraill ac yn helpu'r BBC i wasanaethu cynulleidfaoedd ar draws y DU i gyd. Er enghraifft, darparodd y BBC 49,005 awr o allbwn yn 2025 ar draws ei sianeli teledu sy'n cael eu darlledu, ac roedd 22,135 awr (45%) ohono yn rhaglenni gwreiddiol a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf, cynnydd o 3% ers y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd nifer y cyfresi teledu newydd i 176 o deitlau yn 2025, i fyny o 158 y flwyddyn flaenorol, gyda nifer yr oriau sy'n cael eu priodoli i'r teitlau hyn yn cynyddu, o 389 i 453.[101]

Ar y cyfan, ar y teledu roedd cynnydd yn nifer y rhaglenni Adloniant a Chomedi, Ffeithiol a Dysgu a Newyddion a Materion Cyfoes gwreiddiol o'r DU gyda gostyngiadau mewn Chwaraeon, Ffilm a Drama a Phlant. Fodd bynnag, mae rhai o'r gostyngiadau hyn mewn oriau teledu yn ganlyniad i'r BBC yn symud darpariaeth ar-lein i ble mae cynulleidfaoedd, gan gyd-fynd â'i strategaeth i ddarparu e.e. mwy o gynnwys i blant ar YouTube.

Roedd cyfanswm y gwariant ar allbwn teledu 8% yn is o un flwyddyn i'r llall mewn termau nominal i £1.59bn yn 2025, wedi'i sbarduno'n bennaf gan fod llai o wariant ar chwaraeon yn dilyn Gemau Olympaidd 2024 a Phencampwriaeth Pêl-droed Ewrop y Dynion yn 2024. Gan addasu ar gyfer chwyddiant, roedd cyfanswm gwariant teledu wedi gostwng 11% mewn termau real, sy'n golygu bod y BBC wedi cynhyrchu mwy o allbwn teledu gyda llai o wariant.[102] Ar draws ei wasanaethau radio ac ar BBC Sounds, mae'n cynhyrchu amrywiaeth eang o gynnwys sain gwreiddiol. Ar BBC Sounds yn ystod 2025/26, cafodd 34% o gynnwys ar-alw ei ddosbarthu fel 'ffeithiol', 24% fel 'newyddion', 22% fel 'adloniant' neu 'gerddoriaeth', 10% fel chwaraeon, a 7% o dan y categorïau comedi/crefydd a moeseg/dysgu/drama.[103] Yn 2025 gwariodd £400m ar gynnwys radio gwreiddiol. Cynyddodd cyfanswm y gwariant o dan ei gategori 'gwrando' o £537m i £553.[104]

Pan ofynnir iddynt am allbwn y BBC, mae canfyddiadau cynulleidfaoedd yn dal yn uchel: Mae 63% yn rhoi sgôr uchel iddo am ddarparu 'rhaglenni a chynnwys wedi'i wneud ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU' yn ogystal ag 'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni a chynnwys'.[105]

Fe wnaeth y BBC leihau gwariant ar raglenni sy'n cael eu prynu ac fe arhosodd yr oriau'n sefydlog, er bod cynnydd yn nifer y rhaglenni plant a brynwyd eleni

Fe wnaethom nodi'n flaenorol y byddem yn bryderus pe bai rhaglenni sy'n cael eu prynu yn chwarae rôl rhy fawr yn allbwn y BBC. Eleni, roedd nifer y rhaglenni a brynwyd i'w dangos am y tro cyntaf ar y

[100] Data 'fel y'i gwyliwyd' gan Barb; setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n gysylltiedig â WiFi yn y cartref. Yr episod sydd wedi perfformio orau ar gyfer pob teitl, yn seiliedig ar gyfanswm y gwylio cronnus dros y cyfnod cyfan.
[101] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[102] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Nid cynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau wedi'i gynnwys mewn ffigurau rhwydwaith. Mae'r oriau'n seiliedig ar slotiau amser (h.y. fel y rhestrir yng nghanllawiau'r rhaglen, ac yn cynnwys deunydd hyrwyddo a rhagflasau). Gweler ein hadroddiad data rhyngweithiol i gael rhagor o fanylion.
[103] Data a ddarparwyd gan y BBC.
[104] BBC Commissiong Supply Report 2025/26, t.2, Adroddiad Blynyddol y BBC 2025/26, t.62.
[105] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025/26.

teledu yn gymharol sefydlog, sef 739 awr (1% yn uwch na 2024), sy'n cyfateb i 1.5% o gyfanswm yr allbwn teledu. Roedd gostyngiad o 6% yn y gwariant ar brynu rhaglenni.[106] Mae'r BBC wedi datgan y bydd rhaglenni sy'n cael eu prynu yn dal i gyfrif am gyfran fach o'i wariant a'i oriau, ar deledu ac ar BBC iPlayer, ac mae'n canolbwyntio fwyfwy ar brynu cyfresi Prydeinig a byd-eang ar yr un pryd â lleihau cyfran y rhaglenni sy'n cael eu prynu sy'n setiau bocs o'r Unol Daleithiau.[107] Mae'r BBC hefyd yn dweud y gallai rhai teitlau gael eu prynu i helpu i ddenu cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol at y BBC a'u cyflwyno i raglenni a gomisiynir gan y BBC.[108]

O ran rhaglenni plant yn benodol, bu cynnydd o 48 awr yn y rhaglenni a brynwyd i'w dangos am y tro cyntaf, ac er mai cyfran fach ydynt o hyd o gyfanswm yr allbwn i blant (1.7%), roeddent yn cyfrif am 31% o oriau teledu plant a ddarlledwyd am y tro cyntaf yn 2025, i fyny o 24% y llynedd a'r lefel uchaf erioed. [109] Mae'r BBC yn nodi ei fod wedi prynu mwy o gynnwys plant na'r disgwyl oherwydd bod cynnwys o ansawdd uwch na'r disgwyl ar gael am brisiau cystadleuol, ac mae'n dweud bod hyn yn helpu i gynnal ei apêl eang.[110] Mae wedi nodi'n flaenorol bod rhaglenni wedi'u hanimeiddio wedi cyfrannu at dwf BBC iPlayer.[111]

Cymysgedd o genres ac allbwn

Mae'r BBC yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys ar y teledu a BBC iPlayer

Mae darpariaeth y BBC o amrywiaeth eang o genres yn rhan allweddol o'i gylch gwaith. Mae sianeli teledu'r BBC yn parhau i gynnig cymysgedd ehangach o genres na sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus neu sianeli masnachol eraill,[112] ac mae BBC iPlayer yn darparu cymysgedd ehangach o genres na darparwyr fideo ar-alw (BVoD) a darparwyr fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) eraill.[113]

Mae cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi hyn, gyda 63% o oedolion y DU yn rhoi sgôr uchel i'r BBC am ddarparu 'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni a chynnwys' a 60% o blant 3-16 oed yn cytuno bod y BBC yn darparu 'amrywiaeth eang o raglenni maen nhw'n eu mwynhau'.[114] Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n dal yn is ymysg cynulleidfaoedd iau (mae 56% o bobl 16-24 oed yn rhoi sgôr uchel iddo o'i gymharu â 70% o oedolion 75 oed a hŷn), ac mae cynulleidfaoedd DE (56% yn rhoi sgôr uchel iddo o'i gymharu â 71% ymysg cynulleidfaoedd AB).[115] Ymysg oedolion ar-lein, mae'r BBC yn dod yn ail i Netflix o ran pa wasanaeth maen nhw'n ei gysylltu â chynnig amrywiaeth eang o wahanol fathau o gynnwys. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc ar-lein: Dywedodd 32% o bobl 16-24 oed fod y BBC yn cynnig amrywiaeth eang o wahanol fathau o gynnwys o'i gymharu â 57% a ddywedodd yr un peth am Netflix.[116]

---

[106] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[107] BBC, Cynllun Blynyddol y BBC 2026/27, t.61.
[108] BBC DoMaPP, t156.
[109] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC
[110] Mae'r BBC yn adrodd, o'r 8,801 awr o raglenni plant a ddarlledwyd ar y teledu, cafodd 69% eu comisiynu gan y BBC gyda 2,776 awr yn rhaglenni a brynwyd. Roedd y gyfran ar iPlayer yn uwch gyda 71% o'r oriau'n cael eu comisiynu gan y BBC a 1,892 awr o raglenni wedi'u prynu. BBC, DoMaPP 2025/26, t. 51.
[111] Data a gyflenwyd gan y BBC, Medi 2025. (Fel yr adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol Ofcom 2024/25 t. 23).
[112] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.
[113] Dadansoddiad Ofcom o ddata Ampere Analysis, cyrchwyd ym mis Hydref 2026. Fideo ar-alw drwy danysgrifiad (SVoD): Gwasanaethau ffrydio/ar-alw sydd ar gael ar sail tanysgrifiad taledig yn unig. E.e. Netflix, Amazon Prime Video.
[114] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26 a Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Plant 2025/26.
[115] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025/26.
[116] Ofcom, Adroddiad atodol Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025-26. At ei gilydd, mae 57% o oedolion ar-lein yn cysylltu Netflix â chynnig amrywiaeth eang o wahanol fathau o gynnwys o'i gymharu â 45% ar gyfer y BBC.

Mae'r BBC yn ddarparwr pwysig o genres sydd 'mewn perygl'

Genres mewn perygl yw'r rheini nad ydynt yn cael eu darparu cystal ar draws y farchnad ar y cyfan ac maent yn cynnwys y celfyddydau, rhaglenni plant, comedi, cerddoriaeth, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol - mae'r BBC yn chwarae rhan bwysig yn eu darparu ar draws ei wasanaethau.[117] Yn draddodiadol, mae'r BBC wedi darparu llawer o'i gynnwys mewn genres sydd mewn perygl ar sianeli teledu traddodiadol ac er bod darpariaeth ar y teledu yn dal yn bwysig, mae'r BBC yn darparu'r cynnwys pwysig hwn fwyfwy ar-lein.

Ar y teledu, roedd genres mewn perygl yn cyfrif am 48% o gyfanswm yr oriau o raglenni ar sianeli teledu'r BBC yn 2005, sy'n fwy na'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill ac yn cyd-fynd â 2024 (49%).[118] Ar BBC iPlayer, roedd 34% o gyfanswm yr oriau a oedd ar gael yn 2025 mewn genres mewn perygl, mwy na ffrydio ITVX (22%) a Channel 4 (17%) a My5 (28%). Roedd hanner y cynnwys hwn - 17% o gyfanswm yr oriau ar BBC iPlayer - yn gynnwys i blant.[119]

Fe arhosodd darpariaeth y BBC o allbwn gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ac sydd mewn perygl ar deledu ac BBC iPlayer yn gymharol sefydlog yn 2025 ar 1,196 awr, gostyngiad o 2% ers 2024. Cafodd gostyngiadau cyfrannol mwy mewn comedi (gostyngiad o 17% i 84 awr) a cherddoriaeth (gostyngiad o 10% i 190 awr) eu gwrthbwyso ychydig gan gynnydd o 5% mewn rhaglenni ffeithiol arbenigol (i 409 awr). Bu cynnydd o 13% yn y cynnwys mewn perygl a gafwyd i 331 awr yn 2025, a gwrthbwyswyd gostyngiadau yn y celfyddydau (gostyngiad o 50% i 11) a rhaglenni ffeithiol arbenigol (gostyngiad o 19% i 88) gan gynnydd mewn rhaglenni plant (cynnydd o 46% i 152) a cherddoriaeth, a wnaeth fwy na dyblu o 13 i 34 awr yn 2025 - ei lefel uchaf ers 2021.[120]

Bu rhywfaint o gynnydd yn y genres mewn perygl (ac eithrio plant) a wyliwyd yn 2025, i 2 awr ac 20 munud y pen bob mis. Sbardunwyd y cynnydd hwn yn gan gynnydd cyffredinol mewn gwylio ar-alw, a gynyddodd o 14% ers 2024 i 49 munud y pen bob mis yn 2025. Rhaglenni ffeithiol arbenigol yw'r genre mewn perygl sy'n cael ei wylio fwyaf ar sianeli llinol, a chomedi yw'r genre sy'n cael ei wylio fwyaf ar-alw o hyd. Mae lefelau gwylio llinol o genres sydd mewn perygl yn gostwng o un flwyddyn i'r llall, ond roedd y gostyngiad yn 2025 (5%) yn llawer llai na'r gostyngiad o 20% yn 2024. [121]

Erbyn hyn, mae gan y BBC 13 gorsaf radio ledled y DU sy'n cynnig cymysgedd o genres cerddoriaeth prif ffrwd ac arbenigol, yn ogystal ag amrywiaeth o gynnwys llafar o genres fel cynnwys ffeithiol, newyddion, drama, comedi, chwaraeon, crefydd a dysgu.

Mae cynulleidfaoedd yn canmol gwasanaeth sain y BBC am ei amrywiaeth o gynnwys a'u cyflwyno i gerddoriaeth ac artistiaid newydd

Mae'r BBC yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys ar y teledu ac ar BBC Sounds. Roedd 446k o oriau o gynnwys sain ar-alw ar draws 11 genre ar gael ar BBC Sounds yn 2025/26.[122] Mae 72% defnyddwyr BBC Sounds a 78% o wrandawyr BBC Radio yn canmol arlwy sain y BBC am 'ddarparu amrywiaeth eang o raglenni a chynnwys'.[123] Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr BBC Sounds (71%)

[117] Mae Cytundeb Fframwaith y BBC yn nodi nad yw'r genres hyn yn cael eu darparu'n ddigonol neu eu bod yn dirywio ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
[118] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.
[119] Dadansoddiad Ofcom o ddata Ampere Analysis, cyrchwyd ym mis Hydref 2026.
[120] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[121] Barb fel y'i gwelwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydwaith WiFi y cartref, oedolion 16+. Mae ffigurau darlledwyr yn cynnwys teledu byw, chwarae recordiadau a BVoD.
[122] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[123] Arolwg Sain Ofcom 2026.

hefyd yn rhoi sgôr uchel am 'fy ngalluogi i ddarganfod cerddoriaeth neu artistiaid newydd, ac i mi gael darganfod cynnwys newydd (80%).[124]

Ym mis Medi 2025, lansiodd y BBC dair gorsaf radio newydd ar DAB+ a BBC Sounds: Radio 1 Anthems, Radio 1 Dance, a Radio 3 Unwind. Mae'r BBC yn nodi bod y gwasanaethau hyn wedi llwyddo i ddenu gwrandawyr newydd i frandiau Radio 1 a Radio 3.[125] Yn dilyn hynny, lansiodd estyniad ar-lein yn unig i'w frand 6 Music, BBC Radio 6 Music Indie Forever, ym mis Gorffennaf 2026.

Mae cerddoriaeth newydd a cherddoriaeth fyw yn dal i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o wneud y BBC yn unigryw

Mae cerddoriaeth newydd yn rhan allweddol o natur unigryw radio'r BBC, ac mae gan y BBC amodau Trwydded Weithredu sy'n ymwneud â cherddoriaeth newydd, cerddoriaeth y DU, cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth arbenigol. Fel rhan o'n hasesiad perfformiad, rydym yn edrych ar nifer y gwahanol draciau cerddoriaeth, cyfradd ailadrodd gyfartalog traciau cerddoriaeth a chyfran y gerddoriaeth newydd sy'n cael ei chwarae ar BBC Radio 1, BBC Radio 2 a detholiad o orsafoedd masnachol cymharol perthnasol.[126]

Yn 2025/26, chwaraeodd BBC Radio 1 lai o draciau cerddoriaeth gwahanol o'i gymharu â 2024/25, ond roedd hyn dal ddwy neu dair gwaith yn uwch na gorsafoedd masnachol cymharol. Arhosodd y traciau gwahanol a chwaraewyd ar BBC Radio 2 yn sefydlog. Roedd 51% o'r traciau a chwaraewyd ar BBC Radio 1 a 25% a chwaraewyd ar BBC Radio 2 yn cael eu hystyried yn gerddoriaeth newydd yn 2025/26, [127] uwch na'r gorsafoedd masnachol cymharol.[128] Fe ddywedom y llynedd y byddem yn ymgysylltu â'r BBC gan fod cyfran y gerddoriaeth newydd ar Radio 1 wedi gostwng.[129] Rydym wedi trafod hyn gyda'r BBC ac rydym yn nodi ei fod yn dweud bod ei lefelau cerddoriaeth newydd wedi gostwng ychydig dros y blynyddoedd diwethaf wrth i'r diwydiant cerddoriaeth a'r siart cerddoriaeth barhau i esblygu, ond mae wedi cymryd camau i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni ei gwotâu.[130]

Mae cerddoriaeth a digwyddiadau byw hefyd yn gwneud cyfraniadau pwysig at arlwy unigryw'r BBC. Yn 2025/26, darlledodd y BBC 210 o sesiynau cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 1, gan gynnwys y sesiynau *Live Lounge*, *Piano Lounge* a recordiadau yn ei stiwdios ym Maida Vale. Darlledodd BBC Radio 2 76 awr o gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth newydd ei recordio, gan gynnwys perfformiadau a digwyddiadau fel *Radio 2 in the Park*, sesiynau *Piano Room* a *Radio 2 in Concert*. Eleni, roedd 52% o allbwn cerddoriaeth BBC Radio 3 yn fyw neu wedi'i recordio'n arbennig.[131]

---

[124] Cynyddodd y sgoriau cadarnhaol ar gyfer y ddwy nodwedd ers y llynedd, 5 pwynt canran a 3 phwynt canran yn y drefn honno. Arolwg Sain Ofcom 2026.

[125] BBC DoMaPP, t66. Cyhoeddwyd data RAJAR ar gyfer y gorsafoedd hyn am y tro cyntaf ym mis Mai ac mae'n ymwneud â gwrando rhwng mis Hydref 2025 a mis Mawrth 2026. Ym mis Mehefin 2026, roedd gan Radio 1 Anthems gynulleidfa wythnosol gyfartalog o 584k o wrandawyr, Radio 1 Dance 615k a Radio 3 Unwind 408k, a thyfodd y tair gorsaf eu cynulleidfaoedd o'u cymharu â'r chwarter blaenorol.

[126] Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar ddata rhestr chwarae o 3 wythnos enghreifftiol ar draws y flwyddyn ariannol. Mae ar wahân i sut rydym yn ystyried cydymffurfiad yn erbyn amodau Trwydded Weithredu'r BBC, sy'n edrych ar berfformiad y BBC yn unig gan ddefnyddio set ddata fwy.

[127] Mae'r ffigurau hyn yn cyd-fynd ag amcangyfrifon y BBC: mae'n amcangyfrif cyfartaledd o 51% o gerddoriaeth newydd yn ystod y dydd ar Radio 1 a 24% ar Radio 2 yn 2025/26. BBC, DoMaPP 2025/26, t.67.

[128] Yr orsafoedd cymharu rydym wedi'u defnyddio ar gyfer BBC Radio 1 yw Capital a Kiss; ac ar gyfer BBC Radio 2, Heart a Magic. Ym mis Ionawr 2026, fe wnaethom ddiwygio ein hadroddiad blaenorol i ddweud bod cyfran y gerddoriaeth newydd ar Radio 1 yn cyd-fynd yn fras â gorsafoedd masnachol cymharol yn 2024/25. Ers hynny, rydym wedi nodi gwall yn ein cyfrifiadau, sydd wedi cael eu cywiro yn yr adroddiad rhyngweithiol diweddaraf, ac mae'n dangos bod cyfran y gerddoriaeth newydd ar Radio 1 yn dal yn uwch na gorsafoedd masnachol cymharol yn 2024/25.

[129] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2024/25, t.30-31.

[130] BBC DoMaPP 2025/26, t.67.

[131] Darlledwyd 30 o sesiynau ar *New Music Show* Radio 1, 27 ar *Future Artists*, 11 ar *Future Pop*, a 10 ar *Rock Show* Radio 1. BBC, DoMaPP 2026/26, t.75-76.

Amrywiaeth o gynulleidfaoedd

Mae'r BBC yn dal i gael ei ddefnyddio gan amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd

Mae 80% o oedolion y DU yn dweud eu bod yn defnyddio o leiaf un o wasanaethau'r BBC bob wythnos ar draws teledu, radio, BBC iPlayer, BBC Sounds a'i wefannau a'i apiau.[132] Mae dyletswydd ar y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa ac mae angen sicrhau ei fod yn dod o hyd i ffyrdd o gyrraedd cynulleidfaoedd lle maen nhw'n defnyddio eu cynnwys. Mae cyrhaeddiad y BBC yn dal yn arbennig o gryf ymysg cynulleidfaoedd hŷn (mae'n cael ei ddefnyddio bob wythnos gan 89% o bobl 65-74 oed a 92% o bobl 75 oed a hŷn), cynulleidfaoedd AB (89%) ac aelwydydd â phlant (86%).[133] Dangosir demograffeg bellach isod:

Ffigur 1: Cyrhaeddiad wythnosol ar draws gwasanaethau a grwpiau demograffig y BBC (ac eithrio cynnwys ar lwyfannau trydydd parti)

	Oedolion dros 16	16-34	35-54	55+	Oedolion AB	Oedolion DE	Oedolion o leiafrif-oedd ethnig	Oedolion gwyn
Unrhyw beth gan y BBC	80%	73%	79%	87%	89%	74%	77%	81%
Teledu'r BBC (gan gynnwys iPlayer)	61%	33%	57%	84%	62%	59%	37%	61%
Sain BBC	52%	53%	48%	54%	65%	39%	53%	52%
BBC Ar-lein (cyrhaeddiad misol)	77%	65%	80%	85%	82%	72%	75%	77%

Ffynonellau: Unrhyw beth gan y BBC- Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2026; oedolion 16+ oed; Teledu'r BBC (gan gyn. BBC iPlayer)- Barb fel y'i gwyliwyd, blwyddyn galendr 2025. Meini prawf cyrhaeddiad ar gyfer teledu'r BBC a BBC iPlayer 15 munud a mwy yn olynol. Mae teledu'r BBC yn cynnwys chwarae'n fyw ac wedi'i recordio oddi ar sianeli llinol a BBC iPlayer/gwasanaethau BBC ar-alw eraill a fesurir; Mae Arolwg Sain y BBC-Ofcom 2026 yn cynnwys gorsafoedd radio a Sounds, oedolion 16 oed a hŷn; Apiau/Safleoedd y BBC- Ipsos, gwasanaeth mesur cynulleidfaoedd Ipsos iris, mae'r ffigurau'n cynrychioli cyrhaeddiad misol ym mis Mawrth 2026 gan nad oes modd cymharu'n uniongyrchol â ffigurau cyrhaeddiad wythnosol, nid yw defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 15 oed a hŷn, yn cynnwys safleoedd ac apiau BBC iPlayer a BBC Sounds. Mae cynulleidfa '16-34 oed' yn golygu 15-34 oed yn achos apiau/safleoedd y BBC (cyrhaeddiad misol).

Chwaraeon byw a rhaglenni y mae'n rhaid eu gwylio: dod â phobl at ei gilydd sy'n gwneud y BBC yn wahanol

Mae digwyddiadau chwaraeon byw a rhaglenni y mae'n rhaid eu gwylio fel *The Traitors* ymysg y rhai sy'n cael eu gwylio fwyaf yn y DU ac maent yn dal yn ffordd bwysig i'r BBC gyrraedd cynulleidfaoedd mawr. Y llynedd, diweddglo *The Celebrity Traitors* oedd y bennod a gafodd ei gwylio fwyaf ar sianeli teledu'r BBC gan oedolion, a phennod gyntaf cyfres 1 *The Celebrity Traitors* oedd y rhaglen a gafodd ei gwylio fwyaf ar BBC iPlayer, gan gyrraedd cynulleidfaoedd ar draws bob oed. Roedd teitlau'r BBC yn cyfrif am 26 o'r 50 o deitlau rhaglenni a gafodd eu gwylio fwyaf ar draws gwasanaethau teledu llinol, BVoD a SVoD yn 2025/26, gyda'r teitlau hyn roedd rhaid eu gwylio yn denu cynulleidfaoedd

[132] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025/26.
[133] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025/26. Canran y rhieni sydd â plentyn dan 16 oed.

iau. Ar gyfer y rheini dros 54 oed, y BBC oedd y rhan fwyaf o'r 50 teitl mwyaf poblogaidd; doedd dim teitlau SVoD yn y 50 uchaf ar gyfer y grŵp oedran 75 oed a hŷn.[134]

Mae rhaglenni y mae'n rhaid eu gwylio hefyd yn dod â phobl yn ôl i'r BBC. Yn 2025/26, y teitlau a berfformiodd orau o ran ysgogiadau ar BBC iPlayer oedd drama, chwaraeon ac adloniant yn bennaf (*The Celebrity Traitors*, *EastEnders, This City is Ours*, *Match of the Day*, *The FA Cup*, *Bluey*,*Wimbledon Championships*, *Glastonbury*, *The Traitors*, *Winter Olympics 2026*, *Strictly Come Dancing*, *UEFA Women's Euro 2025*).[135]

Cymryd risgiau ac arloesi

Mae'r BBC wedi newid ei ddull gweithredu'n sylweddol o ran mynd i le mae'r cynulleidfaoedd

Mae cynlluniau'r BBC i gyrraedd cynulleidfaoedd wedi datblygu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, yn fwyaf nodedig drwy gyhoeddi ei bartneriaeth strategol â YouTube ym mis Ionawr 2026. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i'r BBC gymryd risgiau ac arloesi gyda gwahanol fathau o gynnwys, yn ogystal â dod o hyd i ffyrdd o gyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol gydag amrywiaeth o gynnwys. Byddwn yn mynd yn ôl at y BBC i edrych ar effaith hyn a'i gynlluniau ehangach.

Rydym eisoes yn gweld effaith ymdrechion y BBC i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar lwyfannau trydydd parti, gyda thwf yn nifer y bobl sy'n gwylio cynnwys y BBC ar YouTube a TikTok a chyrhaeddiad uchel ar gyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau SVoD. Arweiniodd cynnwys y BBC ar YouTube at gynnydd o 21% yn nifer y bobl sy'n gwylio fideos o'r DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf,[136] a roedd cynnydd o 74% yn nifer y bobl sy'n gwylio cynnwys y BBC ar TikTok ar draws y byd.[137] Dywedodd pedwar oedolyn o bob deg eu bod wedi gweld cynnwys y BBC ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn ystod y chwe mis diwethaf, gan gynyddu i 61% ymysg pobl 16-24 oed, 65% ymysg pobl 25-34 oed a 47% ymysg pobl 35-44 oed. Dywedodd 18% o oedolion eu bod wedi gweld cynnwys y BBC ar Netflix/Amazon/Disney+ yn ystod y chwe mis diwethaf, gan godi i 32% ymysg pobl 25-34 oed.[138]

Mae'r BBC yn buddsoddi yn ei wasanaethau ar-lein i gynyddu ei gyrhaeddiad

Mae'r BBC wedi dweud bod cynyddu BBC iPlayer a BBC Sounds yn flaenoriaeth allweddol,[139] ac, ers dechrau fel Cyfarwyddwr Cyffredinol ym mis Mai 2026, mae Matt Brittin wedi amlinellu'r angen i fuddsoddi yn ei lwyfannau ei hun i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well, gan rybuddio bod BBC iPlayer wedi disgyn y tu ôl i lwyfannau eraill sy'n cystadlu.

Arhosodd nifer y cyfrifon gweithredol ar BBC iPlayer yn weddol sefydlog yn 2025/26, sef 15.4 miliwn, a bu cynydd o 8 munud yn yr amser cyfartalog a dreuliwyd yn gwylio BBC iPlayer i 89 munud yr wythnos.[140] Cynyddodd cyrhaeddiad wythnosol BBC iPlayer ychydig eleni i 32%, i fyny o 30% yn

[134] Barb fel y gwyliwyd, oedolion 16 oed a hŷn, setiau teledu yn unig. Pennod a berfformiodd orau fesul teitl yn seiliedig ar gyfanswm gwylio cronnus ar draws y flwyddyn gyfan.
[135] Dadansoddiad Ofcom o ddata perchnogol y BBC. Cyfrifon yn dychwelyd i BBC iPlayer ar ôl bod heb eu defnyddio am 13 wythnos.
[136] Yn codi o gael eu gwylio 872 miliwn o weithiau i 1.05 biliwn. Darparwyd y data i Ofcom gan y BBC.
[137] Cynyddodd o 8.51 biliwn yn 2024/25 i 14.83 biliwn yn 2025/26. Darparwyd y data i Ofcom gan y BBC.
[138] Ofcom, Adroddiad atodol Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025-26.
[139] BBC, Cynllun Blynyddol 2025/26, t.23.
[140] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2025/26, t.223 ; (Ffynhonnell: Barb, fel y'i gwyliwyd. Pob dyfais)

2024.[141] Yn 2025, roedd y BBC yn cyfrif am 18% o'r holl fideos a wyliwyd yn y cartref ar draws dyfeisiau gan bob unigolyn, sy'n weddol sefydlog o un flwyddyn i'r llall, a bu cynnydd o 1 pwynt canran i gyfran gwylio BBC iPlayer.[142]


Arhosodd cyrhaeddiad BBC Sounds yn sefydlog eleni, gyda 23% o oedolion yn ei ddefnyddio.[143] Arhosodd nifer cyfartalog y cyfrifon sydd wedi mewngofnodi ar BBC Sounds yn weddol sefydlog hefyd, sef 4.85m yn 2025/26 (+1%), gyda gostyngiadau yn yr oedolion dan 55 oed yn cael eu gwrthbwyso gan gynnydd o 6% yn nifer y bobl dros 55 oed. Fodd bynnag, bu cynnydd yn y cynnwys a chwaraewyd ar BBC Sounds i 33.6 miliwn ar draws 2025/26 (12%).[144] Nid oedd llawer o newid yng nghyrhaeddiad gwefannau ac apiau eraill y BBC ar 77% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd.[145]

[141] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydweithiau Wi-Fi y cartref, unigolion dros 4 oed. BBC ar-alw. Meini prawf cyrhaeddiad 15+ munud.
[142] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydweithiau Wi-Fi y cartref, unigolion dros 4 oed. Mae ffigurau darlledwyr yn cynnwys teledu byw, chwarae recordiadau a BVoD.
[143] Arolwg Sain Ofcom 2026. Cyrhaeddiad a nodwyd ymysg ymatebwyr ar-lein 16 oed a hŷn.
[144] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[145] Nid yw ffigur cyrhaeddiad misol Ipsos Iris ym mis Mawrth 2026, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn yn y DU, yn cynnwys safleoedd ac apiau BBC iPlayer a BBC Sounds, ac nid yw'n cynnwys y BBC ar lwyfannau trydydd parti.

DIBEN CYHOEDDUS 4

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol pob un o'r gwledydd a'r rhanbarthau ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y DU

Lledaeniad gweithlu'r BBC ar draws y DU



Sgoriau i'r BBC am gyflawni Diben Cyhoeddus 4

Cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant cymunedau ledled y DU

60% CADARNHAOL


Yn cynnwys y rhanbarth/wlad yn y DU lle rwy'n byw

55% CADARNHAOL


Yn darparu cynnwys sy'n berthnasol i mi

53% CADARNHAOL


Oriau wythnosol cyfartalog o wrando ar radio lleol




Sgoriau cadarnhaol yn nodi bod gan y BBC 'raglenni a chynnwys sy'n adlewyrchu bywydau pobl fel fi'



Boddhad â Theledu y BBC a Radio y Cenhedloedd / Lleol y BBC



Cyfran oriau rhwydwaith a gwariant cymwys y BBC a wneir y tu allan i Lundain



Ffynonellau: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC a ddarparwyd mewn ymateb i arolwg Ofcom ar weithlu gwasanaethau cyhoeddus y DU / EDI ar gyfer 2026. Data cyfunol am weithwyr 'gweladwy' ar gyfer 31 Mawrth 2026; dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; data RAJAR ar gyfer Radio Lleol y BBC (Chwarter 1 2026), wedi'i bwyso dros gyfnod o 12 mis; Offeryn Olrhain Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26. Sylwer: Roedd y cwestiwn ynglŷn â radio lleol yn cyfeirio at: 'Bwletinau newyddion ar eich gorsaf radio BBC leol' ar gyfer cyfranogwyr yn Lloegr; ar gyfer cyfranogwyr yn y cenhedloedd eraill, disodlwyd y term 'gorsaf radio BBC leol' gan BBC Radio Scotland, BBC Radio Ulster, BBC Radio Foyle neu BBC Radio Wales/Cymru, yn ôl y genedl berthnasol.

Perfformiad Diben Cyhoeddus 4 yn 2025/26

- **Mae'r BBC yn dal i gael ei ddefnyddio'n eang ledled y DU gyfan**, ond mae canfyddiadau o sut mae'n 'adlewyrchu bywydau pobl fel fi' yn dal i gael sgôr is na meysydd eraill, gyda 53% yn rhoi sgôr uchel iddo. Mae'r BBC yn dweud ei fod yn cymryd camau yn dilyn ei adolygiad o Gynrychiolaeth a Phortreadu yn ogystal â chanolbwyntio ar dwf rhanbarthol.
- **Mae'r BBC yn chwarae rhan bwysig yn yreconomi greadigol ar draws y Deyrnas Unedig.** Mae ei strategaeth Accross the UK yn cefnogi clystyrau creadigol rhanbarthol, sgiliau a chynhyrchwyr annibynnol bach. Mae 400 o swyddi wedi cael eu hadleoli y tu allan i Lundain ac mae wedi gwneud newidiadau i'w strwythurau comisiynu ac ariannu.
- **Mae'r BBC yn parhau i ganolbwyntio ar gynnwys cynrychiolaeth a phortreadu sy'n cael 'effaith fawr'**, ac mae hyn wedi llwyddo i apelio at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, nid yw canfyddiadau cynulleidfaoedd mewn perthynas â chynrychiolaeth a phortreadu wedinewid ac mae tensiynau posibl rhwng y ffocws hwn a pharhau i wasanaethu cynulleidfaoedd gyda chomisiynu lleol.
- **Mae cynulleidfaoedd yn defnyddio ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth o wasanaethau ac allbwn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y BBC yn fawr.** Mae'r BBC yn parhau i fod un o'r prif ffynonellau ar gyfer defnyddio newyddion lleol. Mae 63% o wrandawyr radio lleol/radio gwledydd y BBC yn dweud eu bod yn 'dibynu ar radio lleol yn unig i gael y newyddion lleol diweddaraf' ac mae mwyafrif helaeth (82%) gwrandawyr radio lleol y BBC yn fodlon arno.

Nod y diben cyhoeddus hwn yw sicrhau bod y BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn dda ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae ein hasesiad yn canolbwyntio ar: cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd; rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ac ynddynt a chefnogi'r economi greadigol; agwedd at amrywiaeth a chynhwysiad yn ei raglenni a'i weithlu, a; gwasanaethau lleol.

Fel y nodir yn y Trosolwg, mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am bolisi golygyddol a chyfeiriad strategol y BBC. Nid oes gan Ofcom rôl o ran penderfyniadau am amserlennu neu raglenni. Fel rhan o'n gwaith monitro, rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y cenhedloedd a'r rhanbarthau, ac mae hyn yn helpu i lywio ein hasesiad o'r modd y mae'r BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus.

Yn yr adran hon, ac ar dudalennau'r gwledydd sy'n dilyn, rydym hefyd yn adrodd ar rywfaint o ddarpariaeth y BBC yn erbyn ei ymrwymiadau rhaglenni ei hun a nodir yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025/26. Nid yw'r ymrwymiadau penodol y mae'r BBC yn eu gwneud yn rhai y gellir eu gorfodi o dan y Drwydded Weithredu, ond rydym yn eu cynnwys yma i gynnig cipolwg perthnasol ar berfformiad y BBC. Mae ein hasesiad o adroddiadau'r BBC yn erbyn ei ymrwymiadau ei hun yn ein hatodiad ar gydymffurfedd.

Ein hasesiad

Mae'r BBC yn dal i gael ei ddefnyddio'n eang ledled y DU gyfan

Mae'r BBC yn dal i gyrraedd y rhan fwyaf o oedolion ym mhob un o wledydd a rhanbarthau'r DU, ac mae'n cael ei ddefnyddio gan 76% yng Nghymru, 78% yng Ngogledd Iwerddon, 81% yn Lloegr ac 80% yn yr Alban.

Ffigur 2: Cyrhaeddiad wythnosol ar draws gwasanaethau'r BBC yn y DU ac ar draws y gwledydd

	Y DU	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Unrhyw un o wasanaethau'r BBC	80%	81%	78%	80%	76%
Teledu'r BBC / BBC iPlayer	57%	57%	58%	55%	62%
BBC Radio / BBC Sounds	52%	52%	55%	49%	61%
BBC Online (cyrhaeddiad misol)	77%	76%	83%	78%	79%

Ffynonellau: Unrhyw wasanaeth y BBC – Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26, oedolion 16 oed a hŷn; Teledu'r BBC (gan gynnwys iPlayer) – Barb, gwylio fel y'i darlledwyd, blwyddyn galendr 2025. Y meini prawf cyrhaeddiad ar gyfer Teledu'r BBC a BBC iPlayer yw 15 munud olynol neu fwy. Mae Teledu'r BBC yn cynnwys gwylio'n fyw, gwylio rhaglenni wedi'u recordio o sianeli llinol a BBC iPlayer/gwasanaethau ar-alw eraill y BBC sy'n cael eu mesur; Sain y BBC – Arolwg Sain Ofcom 2026, sy'n cynnwys gorsafoedd radio a BBC Sounds, oedolion 16 oed a hŷn; Apiau/Gwefannau'r BBC – Ipsos, gwasanaeth mesur cynulleidfaoedd Ipsos iris. Mae'r ffigurau'n cynrychioli cyrhaeddiad misol ym mis Mawrth 2026 gan nad oes modd cymharu'n uniongyrchol â ffigurau cyrhaeddiad wythnosol, defnyddwyr rhyngrwyd y DU 15 oed a hŷn, ac nid ydynt yn cynnwys gwefannau ac apiau BBC iPlayer a BBC Sounds. Mae'r gynulleidfa '16-34' yn 15-34 ar gyfer apiau/gwefannau'r BBC (cyrhaeddiad misol).

Mae pa mor ffafriol y gwelir y BBC yn gyffredinol yn weddol sefydlog ar draws y gwledydd (59% o gynulleidfaoedd yn Lloegr a'r Alban yn rhoi sgôr uchel i'r BBC, 61% yng Nghymru a 65% yng Ngogledd Iwerddon). Wrth gwrs, mae amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys cyfansoddiad demograffig gwahanol, yn effeithio ar lefelau amrywiol o ddefnydd, ymgysylltiad a chanfyddiadau.[146] Mae ein hadroddiad data rhyngweithiol yn rhoi dadansoddiad manylach o ddefnydd y BBC yn gwahanol demograffeg. Gweler hefyd bennod Dibenion Cyhoeddus 3 am ein hasesiad o berfformiad y BBC o ran cyrraedd amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Mae angen i'r BBC wneud cynnydd o hyd o ran gwella canfyddiadau o sut mae ei gynnwys yn cynrychioli ac yn portreadu cynulleidfaoedd

Mae angen i'r BBC fod yn gyffredinol a chyrraedd holl gynulleidfaoedd y DU; mae cynrychioli eu straeon nhw yn elfen allweddol o hynny. Mae gwella canfyddiadau cynulleidfaoedd o ba mor dda mae'r BBC yn cynrychioli bywyd a diwylliant y DU yn dal yn her, ac yn un rydym wedi'i nodi'n gyson yn ein Hadroddiadau Blynyddol blaenorol.

Eleni, rhoddodd dros hanner y cynulleidfaoedd sgôr uchel i'r BBC am *'adlewyrchu bywydau pobl fel fi'* (53%) a *'darparu rhaglenni a chynnwys sy'n cynnwys fy rhanbarth'* (55%). Fodd bynnag, mae'r sgoriau hyn yn dal yn is na datganiadau sy'n ymwneud â Dibenion Cyhoeddus eraill y BBC. Mae cyfran ychydig yn uwch o gynulleidfaoedd yn canmol y BBC am '*ddarparu rhaglenni a chynnwys sy'n cynnwys pobl o gefndiroedd gwahanol*' (60%). Fel sy'n cael ei ddangos isod, a gyda rhagor o fanylion yn ein hadroddiad data rhyngweithiol, mae amrywiadau sylweddol yn dal i fodoli yn ôl grwpiau demograffig, gyda chynulleidfaoedd iau, DE ac anabl yn rhoi sgoriau is i'r BBC.

[146] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26. Er enghraifft, mae 52% o bobl 16-24 oed yn rhoi sgôr uchel i'r BBC o ran ffafrioldeb cyffredinol, o'i gymharu â 67% o'r rhai sy'n 75 oed a hŷn. Sylwer, drwy gydol y bennod hon, bod sgôr o 7 neu uwch ar raddfa o 10 pwynt yn cael ei ystyried yn sgôr "uchel" neu "gadarnhaol".

Ffigur 3: % o bob grŵp cynulleidfa sy'n rhoi sgôr gadarnhaol (7-10) i'r BBC ar draws priodoleddau dethol

	Holl oedolion	16-24	75+	AB	DE	Anabl	Ddim yn anabl	Lleiafrifoedd ethnig	Gwyn
Yn adlewyrchu bywydau pobl fel fi	53%	47%	53%	63%	46%	47%	58%	59%	53%
Yn cynnwys y rhanbarth/wlad lle rwy'n byw	55%	51%	57%	65%	48%	50%	59%	61%	55%
Cynnwys pobl o gefndiroedd gwahanol	60%	51%	64%	68%	54%	56%	63%	60%	60%

Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025/26.

Mae'r BBC wedi dod o hyd i batrymau tebyg yn ei ymchwil,[147] felly fe wnaethom ofyn iddynt pa gamau maent wedi'u cymryd o ganlyniad, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â chynrychioli bywyd a diwylliant y DU. Tynnodd sylw at y camau y mae'n eu cymryd yn dilyn ei adolygiad thematig o bortreadu a chynrychioli, fel cryfhau sut mae'r BBC yn mesur y ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn cael eu portreadu ac adolygu cynlluniau cynnwys yn systematig i sicrhau adlewyrchiadau dilys cynulleidfaoedd sy'n cael eu tangynrychioli. Mae hefyd wedi ymrwymo i dwf creadigol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd-ddwyrain Lloegr.[148] Byddwn yn cysylltu â'r BBC i ddeall effaith ei weithredoedd a sut gall wneud cynnydd yn y maes hwn.

Mae'r BBC yn parhau i ragori ar ei dargedau[149] o ran gwneud ei wasanaethau'n hygyrch i gynulleidfaoedd anabl. Yn 2024/25, roedd is-deitlau ar bron pob awr o ddarlledu (99.9% ar BBC One a BBC Parliament); cyflawnwyd neu rhagorwyd ar y gofyniad o 5% ar gyfer defnyddio iaith arwyddion; a chyflawnwyd ymrwymiad gwirfoddol i ddarparu disgrifiad sain ar gyfer 20% o'r cynnwys (gan godi i 65% ar BBC Three). Ar BBC iPlayer – sydd heb unrhyw rwymedigaethau hygyrchedd eto,[150] roedd is-deitlau ar 86% o'r rhaglenni, disgrifiad sain ar 24%, ac iaith arwyddion ar 15%.[151]

Wrth i'r BBC barhau i weithredu ei strategaeth *Across the UK*, mae cynnydd wedi bod yn yr oriau a gynhyrchir a chyfran y gwariant y tu allan i Lundain

Mae'r BBC yn dweud bod ei strategaeth *Across the UK* yn cefnogi clystyrau creadigol rhanbarthol, sgiliau a chynhyrchwyr annibynnol bach; adleolwyd 400 o swyddi y tu allan i Lundain ac mae wedi gwneud newidiadau i strwythurau comisiynu a chyllido cynnwys portreadu rhanbarthol a

[147] Yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC y llynedd, tynnwyd sylw at y ffaith bod arolwg cyhoeddus y BBC wedi dangos mai dim ond 51% o'r ymatebwyr a ddywedodd ei fod yn effeithiol ar hyn o bryd o ran adlewyrchu pobl a rhannau o'r DU.
[148] Ymateb yr RFI, 2025/26
[149] Wedi'i osod gan God Gwasanaethau Mynediad Teledu Ofcom
[150] Rydym wedi cynnig rhwymedigaethau ar gyfer y dyfodol ar gyfer BBC iPlayer o dan God Hygyrchedd Fideo ar-alw newydd.
[151] BBC DoMaPP 2025/26, t.193-195

chenedlaethol. Mae dros hanner (55%) staff gwasanaeth cyhoeddus wedi'u lleoli y tu allan i Lundain bellach.[152]

Cafodd 59% o wariant cymwys y BBC ar raglenni rhwydwaith ei wneud y tu allan i Lundain. Er bod hyn wedi gostwng rhywfaint ers y llynedd, roedd y lefel absoliwt wedi cynyddu, ac mae'r gyfran wedi cynyddu yn y tymor hirach, o 54% yn 2021, ac yn uwch na gofyniad y Drwydded Weithredu sef 50%.[153]

Mae'r BBC hefyd yn parhau i fodloni ei ofynion ar gyfer oriau o raglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain - yn 2025, llwyddodd i gyflawni 70% o oriau rhwydwaith cymwys, i fyny o 67% yn 2024. Sbardunwyd hyn gan gynnydd mawr yn yr oriau a ddyrannwyd i'r Alban, yn bennaf oherwydd cystadlaethau pêl-droed rhyngwladol fel Pencampwriaeth Ewros y Menywod a Gemau Rhagbrofol Cwpan y Byd y Dynion.[154] Mae'r oriau a'r gwariant ar gynnwys radio sy'n cael ei wneud y tu allan i Lundain hefyd wedi cynyddu.[155]

Yn 2025/26, comisiynodd y BBC 310 o gynhyrchwyr ar gyfer teledu, a 269 ar gyfer radio, o'i gymharu â 301 a 245 yn 2024/25. Ym mis Medi 2026, cyhoeddodd y BBC adroddiad effaith economaidd a oedd yn dangos bod 68% o gyflenwyr y BBC, yn 2024/25, wedi'u lleoli y tu allan i Lundain, a bod y BBC wedi cynyddu ei ôl troed economaidd y tu allan i Lundain i £3 biliwn. Mae'r ffigur hwn yn cyfleu gweithgarwch economaidd a gynhyrchir gan y BBC drwy ei gyflogaeth ranbarthol, yn ogystal â'r gweithgarwch economaidd dilynol a gynhyrchir drwy ei gadwyni cyflenwi a gwariant gan weithwyr y BBC a'i gyflenwyr.

Mae'r BBC yn parhau i ganolbwyntio ar gynnwys 'effaith uchel'; mae tensiynau posibl rhwng hyn a pharhau i greu cysylltiadau â chynulleidfaoedd lleol

Mae'r BBC yn defnyddio cynnwys portreadu 'effaith uchel' yn ffordd bwysig o wasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU.[156] Ym mis Rhagfyr 2025, cyhoeddodd y BBC ragor o newidiadau i'w strwythur cyllido a chomisiynu - mae'n dweud y bydd hyn yn dyblu gwariant ar gynnwys 'effaith uchel' yn y gwledydd i dros £100m o 2027/28 ymlaen ac yn cyflymu cynlluniau i gynyddu nifer y comisiynwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau y tu allan i Lundain. Y llynedd, rhagorodd ar ei ymrwymiad i greu cynnwys portreadu ag effaith uchel yn 2025/26, gan ddarparu 621 awr o'i gymharu â tharged o 560 awr. Rhai o'r enghreifftiau eleni oedd *Blue Lights* a *The City is Ours*.[157]

Mae'r newid ffocws hwn yn golygu, y tu allan i newyddion a materion cyfoes, bod y BBC yn gwneud llai o raglenni'n benodol ar gyfer pob gwlad neu ranbarth (a elwir yn rhaglenni 'optio allan'). Ers 2021 bu gostyngiad o tua 10% i 922 awr mewn rhaglenni 'optio allan' gwreiddiol heb fod yn newyddion/materion cyfoes sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf (er bod yr oriau'n weddol sefydlog rhwng 2024 a 2025). Rhai enghreifftiau o'r rhaglenni hyn yw teitlau fel *Saving Lives in Cardiff, Born in Belfast: A Hip-Hop Story* a *Highland Cops*.[158]

---

[152] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2025/26, t. 50 a 59

[153] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Mae'r BBC yn tynnu sylw at y ffaith y gall y ffigur hwn amrywio o un flwyddyn i'r llall ac mae ad-drefnu rhai comisiynau mawr a fydd nawr yn cael eu hadrodd yn 2026/27 wedi dylanwadu arno.

[154] Cafodd ffigur yr Alban hwb hefyd gan y sylw a roddwyd i snwcer byw, er bod y rhain wedi cael eu dyrannu i Gymru o'r blaen, felly nid oedd hyn yn cyfrannu at y cynnydd cyffredinol. Priodolwyd teitlau newydd i'r Alban hefyd, e.e. cyfres gwis *The Inner Circle.*

[155] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Cynyddodd oriau radio i 51% yn 2025/26, o 47% y llynedd, ac roedd gwariant radio yn 49.8%, bron â chyflawni targed y BBC ei hun o 50%.

[156] Mae hwn yn gynnwys sy'n cael ei wneud neu ei osod mewn ardal benodol ond y bwriedir iddo daro tant â chynulleidfaoedd mawr, gan ddod â phobl at ei gilydd a darparu gwerth cyhoeddus ar raddfa fawr.

[157] BBC, DoMaPP 2025/26, t.102

[158] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC

Mae'r dull effaith uchel wedi llwyddo i feithrin cynulleidfaoedd mawr, a dod â chynnwys cynrychiolaeth a phortreadu i gynulleidfaoedd ledled y DU. Fodd bynnag, nid yw wedi arwain hyd yma at gynnydd yn y canfyddiadau bod y BBC yn adlewyrchu ardaloedd neu fywydau'r gynulleidfa ei hun. Mae meithrin cysylltiadau â chynulleidfaoedd lleol yn dal yn bwysig, ac mae angen i strategaeth y BBC adlewyrchu hynny. Gall newidiadau y mae'n eu gwneud yn ei ddull comisiynu greu cyfleoedd i gyrraedd cynulleidfaoedd lleol mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys comisiynau ar-lein, a darparu llwybrau newydd i gynhyrchwyr llai a thalent newydd.

Ymysg ei weithlu, mae cynrychiolaeth dosbarth gweithiol yn dal yn her

Mae'n bwysig bod y bobl sy'n gwneud cynnwys y BBC wir yn adlewyrchu amrywiaeth y DU - mae'n siapio'r hyn mae cynulleidfaoedd yn ei weld a'i glywed, pa straeon sy'n cael eu hadrodd, a sut maen nhw'n cael eu hadrodd. Yn 2025, cyhoeddodd y BBC ei strategaeth amrywiaeth, cynhwysiad a pherthyn newydd You Belong - roedd hyn yn cynnwys targedau gweithlu wedi'u diweddaru ar gyfer cynrychioli pobl anabl ochr yn ochr â'r targedau ar gyfer rhywedd, ethnigrwydd a chefndir economaidd-gymdeithasol.

Mae 49% o'i weithlu'n fenywod,[159] ac mae wedi gwneud cynnydd o ran cynrychioli pobl anabl, gan gynyddu o 10% i 13%, ymhlith y rhai a ddarparodd ddata, er bod hyn yn dal yn is na chyfartaledd y boblogaeth sef 18%.[160] Mae cynrychiolaeth pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi aros yn weddol sefydlog, ar 19% ymysg y rheini a ddarparodd ddata, ac yn weddol debyg i gyfartaledd y boblogaeth; mae'n dal yn is ymysg uwch reolwyr (ar 13%).[161]

Mae'r BBC yn tynnu sylw at fentrau fel ei gynllun EXTEND, sy'n clustnodi rolau ar gyfer ymgeiswyr b/Byddar, anabl a niwrowahanol, ynghyd â'i ymrwymiad i sicrhau bod o leiaf £80 miliwn o'i wariant blynyddol presennol ar gomisiynu teledu a radio yn cael ei gyfeirio at gynyrchiadau sy'n bodloni ei feini prawf amrywiaeth greadigol ar gyfer cynrychiolaeth ar yr awyr ac oddi ar yr awyr. Y llynedd, cyflwynodd dros ddwywaith yr ymrwymiad, gyda £196m o'i wariant ar gynnwys. Mae ei god ymarfer comisiynu amrywiaeth diweddaraf yn nodi egwyddorion cynhyrchu cynhwysol a disgwyliadau cryfach o ran castio a chriwiau cynhwysol, hygyrchedd, addysg Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiad ac ymgysylltu â'r gymuned.[162]

Mae'r BBC yn tynnu sylw at sut mae cynyddu cynrychiolaeth cydweithwyr o gefndir dosbarth gweithiol bellach yn faes ffocws allweddol.[163] Yn seiliedig ar y rheini a ddarparodd ddata, 26% o staff sy'n dod o gefndir dosbarth gweithiol, sy'n is na chyfartaledd y boblogaeth o 39%.[164, 165]

---

[159] Sylwch ei fod yn parhau i gyrraedd ei darged ei hun o gael 50% o fenywod yn y gweithlu, sy'n cynnwys yr holl staff ar draws Grŵp y BBC, ar sail data yn ei Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb. Gweler troednodyn 165 am esboniad llawnach o'r gwahaniaethau yn y setiau data.

[160] Effeithiwyd ar hyn gan newid yn y drefn casglu data, i gynnwys cydweithwyr sy'n f/Fyddar a niwrowahanol. Mae'r BBC wedi adlewyrchu'r newid hwn drwy gynyddu ei darged ei hun, o 12% i 14%.

[161] Yma ac yn ein hadroddiadau Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad mewn Darlledu, rydym yn cyfeirio at ganrannau'r gweithwyr hynny y rhannwyd eu gwybodaeth ag Ofcom, (yn hytrach na bod yn seiliedig ar bob cyflogai). Rydym yn cyfeirio at hyn fel rhywbeth sy'n seiliedig ar ddata 'gweladwy'. Mae hyn yn wahanol i adroddiadau'r BBC yn ei Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb a'i dargedau ei hun, sy'n seiliedig ar gyfanswm y data.

[162] Ymateb y BBC i gais am wybodaeth, 2025/26; Adroddiad Blynyddol y BBC 2025/26, t. 35; Cod Ymarfer y BBC ar Gomisiynu sy'n Hyrwyddo Amrywiaeth

[163] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2025/26, t.64

[164] Yn seiliedig ar alwedigaeth rhieni. Data meincnod: Comisiwn symudedd cymdeithasol – Cefndir economaidd-gymdeithasol gweithlu cyffredinol y DU sy'n 16 oed a hŷn (Mai 2021).

[165] Data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad y BBC a gyflwynwyd i Ofcom, 2025/26. Mae data'r BBC ei hun yn ei Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb yn dangos, ar sail yr holl staff, bod 20.7% yn dod o gefndir dosbarth gweithiol, o'i gymharu â'i darged ei hun o 25%. Mae ffigurau'r BBC yn wahanol i ddata Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys bod yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb yn cynnwys nifer fach o staff sydd â chontractau yn y DU sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU, tra bod data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad am

Mae gwasanaethau lleol a chenedlaethol y BBC yn dal i gyrraedd cynulleidfa fawr ac yn dal i gael eu gwerthfawrogi'n fawr

Mae cynulleidfaoedd yn defnyddio ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth o wasanaethau ac allbwn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y BBC yn fawr.[166] Mae ei rhaglenni newyddion a materion cyfoes rhanbarthol yn dal i gyrraedd cynulleidfa fawr, er bod cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog newyddion rhanbarthol y BBC wedi gostwng yn unol â'r gostyngiad yn lefelau gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu: o 30% yn 2024 i 27% yn 2025, sy'n cael ei sbarduno gan ostyngiad mewn gwylio teledu llinol, ac mae gwylio ar-alw wedi cynyddu ychydig.[167] Mae 12% o oedolion yn gwrando ar wasanaethau radio lleol a chenedlaethol y BBC bob wythnos, yn unol â'r flwyddyn flaenorol.[168]

Mae cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi newyddion lleol yn fawr: mae 71% o oedolion yn dweud bod newyddion lleol yn bwysig iddyn nhw.[169] Ymysg gwrandawyr wythnosol radio lleol neu radio gwledydd y BBC, mae 63% yn dweud eu bod yn 'dibynnu ar radio lleol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am newyddion lleol'.[170] Ymysg gwrandawyr gorsafoedd lleol y BBC yn Lloegr yn benodol, mae 82% yn dweud eu bod yn fodlon â BBC Local Radio yn eu rhanbarth.[171]

Mae BBC ar-lein, ynghyd â bwletinau newyddion rhanbarthol ar BBC One, yw rhai o'r prif ffynonellau mae cynulleidfaoedd yn eu defnyddio i gael newyddion lleol, sy'n cael eu defnyddio gan 33% a 30% o oedolion yn y drefn honno, er mai'r cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu defnyddio amlaf erbyn hyn, sef 36%.[172] Ac fel y nodwyd gennym yn ein pennod cystadleuaeth, mae ymweliadau â thudalennau ar-lein lleol y BBC wedi cynyddu'n gyffredinol ers 2022, er bod twf arafach rhwng hanner cyntaf 2025 a'r un cyfnod yn 2026.[173]

Mae'r BBC yn parhau i ddarparu llawer iawn o newyddion a materion cyfoes rhanbarthol - sbardunwyd newidiadau mewn oriau eleni gan newidiadau i BBC Scotland

Yn 2025, darlledodd y BBC 4,616 awr o newyddion rhanbarthol gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf (i lawr 3% o'i gymharu â'r llynedd) a 419 awr o faterion cyfoes rhanbarthol (i fyny 10%). Yn 2024, fe wnaethom gymeradwyo newid i Drwydded Weithredu'r BBC i leihau nifer y rhaglenni newyddion ar BBC Scotland er mwyn ei alluogi i ail-lunio ei allbwn i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well. Yn unol â hyn, bu gostyngiad o 21% i 494 awr yn y newyddion gwreiddiol heb fod ar y rhwydwaith a ddangoswyd am y tro cyntaf yn yr Alban, ond bu cynnydd sylweddol mewn materion

---

y gweithlu'n cynnwys staff yn y DU yn unig. Mae'r Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb yn cynnwys holl staff y World Service, tra bod data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad am y gweithlu ond yn cynnwys staff y World Service sy'n gweithio ar gynnwys Saesneg a ddarperir ar wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU. Mae'r Adroddiadau Gwybodaeth am Gydraddoldeb yn seiliedig ar 'gyfanswm data'r gweithlu' yn wahanol i'w seilio ar y rheini a ddarparodd y data, a ddefnyddiwn yma ac yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad (y cyfeirir atynt hefyd fel data 'gweladwy').

[166] Ar draws teledu, radio ac ar-lein, maent yn cael eu defnyddio gan 58% o oedolion yng Ngogledd Iwerddon, 54% o oedolion yn yr Alban, 49% yng Nghymru a 43% yn Lloegr. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2025/26 t.52-55

[167] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi y cartref, oedolion dros 16 oed. Meini prawf cyrhaeddiad: 3 munud a mwy yn olynol i newyddion y gwledydd/rhanbarthau.

[168] RAJAR Ch1 2026. Pwyso 12 mis. Mae hyn yn amrywio o un gwasanaeth i'r llall: BBC Radio Uster/Foyle (25%), BBC Radio Scotland (18%), BBC Radio Wales (15%), BBC Local Radio yn Lloegr (10%) a BBC Radio Cymru/Cymru 2 (4%).

[169] Arolwg Cyfryngau Lleol Ofcom 2026. Mae'r pwysigrwydd ar ei uchaf yng Ngogledd Iwerddon (79%), ac yna'r Alban (76%) a Chymru (73%), o'i gymharu â 70% yn Lloegr.

[170] IPA TouchPoints SuperHub 2026.

[171] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025/26.

[172] Arolwg Ofcom ar Gyfryngau Lleol 2026

[173] Ymateb y BBC i Gais am Wybodaeth, 2025/26

cyfoes, gan fwy na dyblu o 59 awr i 133 awr. Roedd hyn yn cynnwys teitlau fel *Disclosure* a *Scotcast*.[174]

Yn unol â'i strategaeth digidol yn gyntaf ehangach, mae'r BBC yn parhau i ddarparu ei newyddion lleol a chenedlaethol/rhanbarthau drwy ddull gweithredu aml-lwyfan

Mae'r BBC yn dweud bod ei 39 o ganolfannau amlgyfrwng lleol ledled Lloegr, ochr yn ochr â newyddion penodol sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, yn darparu newyddion o ansawdd uchel sy'n hawdd i ddod o hyd iddo - mae'n dweud ei fod yn sicrhau bod straeon lleol perthnasol yn cael eu hyrwyddo a'u harddangos yn amlwg. Er enghraifft, dywed y BBC ei fod wedi cynhyrchu tua 82,000 o straeon ar-lein ar draws ei 45 ardal 'mynegai' yn Lloegr, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.[175] Nod strategaeth Local Value for All y BBC oedd moderneiddio gwasanaethau lleol y BBC yn Lloegr drwy symud gwariant o wasanaethau darlledu i gynhyrchu ar-lein ac amlgyfrwng. Yn fwy diweddar, fel rhan o gynllun arbedion ehangach y BBC, mae wedi cynnig lleihau nifer y rolau gohebwyr arbenigol i ddau ohebydd aml-lwyfan penodol ym mhob un o ranbarthau'r BBC. Mae hyn ochr yn ochr â'i gynllun arbedion ehangach.


Mae'r BBC yn parhau i ddarparu amrywiaeth o allbwn mewn ieithoedd lleiafrifol

Yn 2024/25, darparodd 2,614 awr o gynnwys Gaeleg ar BBC ALBA, gan gynnwys 571 awr o gynnwys a ddangoswyd am y tro cyntaf, er ei fod wedi methu a chyflawni ei ymrwymiad i gynnwys dysgu Gaeleg sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf. Mae'r BBC yn dweud mai'r rheswm am hyn yw'r ffocws ar genres sy'n cael mwy o effaith, mwy o chwaraeon byw, a tharfu ar gynnwys i blant yn sgil newidiadau i gyflenwyr. [176] Eleni, cyrhaeddodd BBC ALBA a Radio nan Gaidheal 43% a 50% yn y drefn honno o'r gymuned Aeleg bob wythnos.[177] Darparodd y BBC 57 awr o gynnwys Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar draws BBC One a BBC Two Northern Ireland, a thua 264 awr o allbwn Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar Radio Ulster a Radio Foyle. [178]

Y BBC yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau.

Yn y tudalennau canlynol, rydym yn amlinellu sut mae'r BBC wedi cyflawni dros gynulleidfaoedd ym mhob un o'r pedair cenedl, yn ogystal â darparu pwyntiau data allweddol ynglŷn â pherfformiad y BBC. Mae hyn yn wahanol i'n hasesiad o berfformiad y BBC o dan Ddibenion Cyhoeddus 4.

[174] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; BBC DoMaPP 2025/26, t.115.
[175] BBC DoMaPP 2025/26, t.108.
[176] Darparodd 660 awr, gan gynnwys 23 awr o gynnwys a ddarlledwyd am y tro cyntaf, o'i gymharu â'i ymrwymiadau o 700 awr, gan gynnwys 32 awr o gynnwys a ddarlledwyd am y tro cyntaf. [Add DoMaPP page ref]
[177] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2025/26, Y BBC yn yr Alban.
[178] BBC DoMaPP 2025/26, t.34 a 110.



Ffynonellau: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; data BARB ar draws sianeli teledu a gwasanaethau ar-alw, ar setiau teledu a dyfeisiau eraill yn y cartref sydd wedi'u cysylltu â WiFi (cyrhaeddiad o 15 munud neu fwy); Arolwg Sain Ofcom 2026; Ipsos iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn, Mawrth 2026, detholiad pwrpasol wedi'i ddiffinio gan Ofcom; Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26.

Parhaodd gwasanaethau'r BBC i gyrraedd y mwyafrif helaeth o oedolion yng Ngogledd Iwerddon yn 2025/26, a ddefnyddiwyd gan 78%, o'i gymharu â 79% yn 2024/25,[179] a bu gostyngiad yn y defnydd wythnosol o gynnwys BBC Northern Ireland ar draws teledu, ar-lein a radio o 64% i 58%.[180]

Cynyddodd oriau a gwariant ar raglenni teledu nad ydynt yn rhan o rwydwaith yng Ngogledd Iwerddon

Bu cynnydd o 13% yn y gwariant gwreiddiol heb fod ar gyfer rhwydwaith yng Ngogledd Iwerddon a ddangoswyd am y tro cyntaf i £25.9m, ei lefel flynyddol enwol uchaf ers 2019, a sbardunwyd gan raglenni heb fod yn newyddion a heb fod yn faterion cyfoes. Cyfanswm y gwariant ar deledu heb fod ar y rhwydwaith oedd £26.3m, sy'n cynrychioli 14% o wariant y BBC heb fod ar y rhwydwaith, o'i gymharu ag 11-12% yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[181] Yn 2025/26, darparodd 751 awr o raglenni a oedd yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon, gan ddarparu 11% yn fwy na'i ymrwymiad yn ei Gynllun Blynyddol. Roedd 550 awr o'r rhain yn cael eu dangos am y tro cyntaf. [182]

[179] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26 a Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2024/25. Mae'r cwestiynau ym mhob arolwg yn gymaradwy ond mewn fformat gwahanol; dylid ystyried y gymhariaeth fel un ddangosol yn unig.
[180] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2025/26, t.54
[181] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[182] BBC DoMaPP 2025/26, t.109.

Parhaodd y BBC i gyrraedd ei dargedau ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yng Ngogledd Iwerddon. Roedd yr oriau cymwys yn sefydlog ar 3.2%, ac fe ostyngodd gwariant cymwys o 4.0% i 3.2%.[183] Yn 2025/26, darparodd 48 awr o gynnwys 'effaith uchel'.[184]

Rhaglenni a wnaed yng Ngogledd Iwerddon yn perfformio'n gryf

Gwyliwyd *Blue Lights* gan 525,000 o oedolion yng Ngogledd Iwerddon ac roedd wedi ei fynegeio'n uchel (h.y. roedd ffigyrau cynulleidfaoedd yn uwch yng Ngogledd Iwerddon o'i gymharu â'r DU drwyddi draw). Gwyliodd 373,000 o oedolion *The Celebrity Traitors* a gwyliodd 288,000 *The Traitors*. Roedd gan *Confessions of a Killer*, a gafodd ei greu yng Ngogledd Iwerddon hefyd, gynulleidfa o 277,000 o oedolion ac roedd wedi'i fynegeio'n uchel. Roedd nifer o raglenni eraill a wnaed yn lleol hefyd wedi'u mynegeio'n uchel, gan gynnwys *BBC Newsline, House of the Year, The Crime I Can't Forget* a *Kinahan: The True Story of Ireland's Mafia*.[185]

Yng Ngogledd Iwerddon, dychwelodd cynulleidfaoedd i'r BBC iPlayer ar gyfer amrywiaeth o gynnwys cerddoriaeth, chwaraeon a ffeithiol. Y teitlau a berfformiodd orau o ran ysgogiadau ar BBC iPlayer oedd *Glastonbury, North West 200 Live, Kinehan: The True Story of Ireland's Mafia, Irish League Football Live, GAA Live, Blue Lights, The Celebrity Traitors* and *The Traitors* ymhlith teitlau eraill.[186]

Roedd canfyddiadau cynulleidfaoedd yn gadarnhaol, ond mae'r gystadleuaeth am gynulleidfaoedd yn parhau i fod yn heriol

Roedd pobl yng Ngogledd Iwerddon yn rhoi sgoriau uchel i'r BBC am fod *'y BBC yn cynnwys pobl o gefndiroedd gwahanol'* (66%), ac mae'n *'darparu rhaglenni a chynnwys sy'n dod â'r genedl at ei gilydd i gael profiad gwylio ar y cyd'* (65%). Dywedodd cyfran uwch fod *'y BBC yn cynnwys y wlad neu'r rhanbarth y maen nhw'n byw ynddi'* (64%), ac roedd 62% yn rhoi sgoriau uchel i'r BBC am *'gynnwys sy'n adlewyrchu bywydau pobl fel nhw'*.[187]

Roedd rhai mesurau canfyddiad a gofnodwyd gan y BBC wedi gwella eleni: er enghraifft, roedd 63% o oedolion yng Ngogledd Iwerddon yn meddwl bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU neu nhw'n bersonol, o'i gymharu â 60% yn 2024/25; roedd 50% yn meddwl ei fod yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw, i fyny o 45%.[188]

Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt at ba wasanaeth y byddent yn troi yn gyntaf, dewisodd 34% o oedolion Gogledd Iwerddon Netflix a dewisodd 18% unrhyw un o wasanaethau'r BBC, bwlch ehangach nag ar gyfer y DU drwyddi draw.[189]

Parhaodd BBC Radio i gyrraedd cynulleidfa sylweddol yng Ngogledd Iwerddon.


Yn 2025/26, roedd 46% o oedolion yn gwrando ar BBC Radio yng Ngogledd Iwerddon, tra roedd 23% yn gwrando ar BBC Radio Ulster/Foyle.[190] Dywedodd y BBC ei fod yn parhau i hysbysu

---

[183] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[184] BBC, DoMaPP 2025/26, t.102
[185] Pennod a berfformiodd orau fesul teitl yn seiliedig ar gyfanswm gwylio cronnus ar draws y flwyddyn gyfan ar gyfer oedolion 16 oed â hŷn yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r mynegai'n mesur sut mae maint cynulleidfa'r rhaglen ymysg poblogaeth Gogledd Iwerddon, yn cymharu â'r gymhareb cynulleidfa i boblogaeth gyfatebol ar draws y DU. Barb, fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi y cartref. Chwarae'n fyw, wedi'i recordio a BVoD.
[186] Dadansoddiad Ofcom o ddata perchnogol y BBC. Cyfrifon yn dychwelyd i BBC iPlayer ar ôl bod heb eu defnyddio am 13 wythnos.
[187] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025/26. Sylwch fod sgoriau cynulleidfaoedd y nodir eu bod yn "uchel" neu'n "gadarnhaol" drwy gydol y bennod hon yn seiliedig ar sgoriau o 7-10 ar raddfa 10 pwynt
[188] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2025/ 2026, The BBC in Northern Ireland.
[189] Traciwr PSM Ofcom 2025/26. Arolwg Atodol.
[190] RAJAR Ch1 2026; pwysoli 12 mis.

cynulleidfaoedd drwy raglenni newyddion a materion cyfoes yr orsaf, gan gynnwys *Good Morning Ulster, North West Today, Talkback, The Nolan Show* ac *Evening Extra*. Yn dilyn adnewyddiad i'r amserlen ym mis Mai 2025, mae *Evening Extra* yn awr o newyddion pwrpasol bob noson yn ystod yr wythnos, sy'n canolbwyntio ar y newyddion diweddaraf a straeon sy'n datblygu ar y pryd. Darparodd hefyd 264 awr o raglenni yn yr iaith Wyddeleg ac Ulster-Scots ar BBC Radio Ulster/Foyle.[191]

[191] BBC DoMaPP, t.112



Ffynonellau: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; data BARB ar draws sianeli teledu a gwasanaethau ar-alw, ar setiau teledu a dyfeisiau eraill yn y cartref sydd wedi'u cysylltu â WiFi (cyrhaeddiad o 15 munud neu fwy); Arolwg Sain Ofcom 2026; Ipsos iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn, Mawrth 2026, detholiad pwrpasol wedi'i ddiffinio gan Ofcom; Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26.

Parhaodd y BBC i gyrraedd y rhan fwyaf o oedolion yng Nghymru, ac mae'n cael ei ddefnyddio gan 76% o oedolion yng Nghymru bob wythnos ar gyfartaledd yn 2025/26, o'i gymharu â 78% yn 2024/25,[192] ac roedd y defnydd wythnosol o gynnwys BBC Cymru Wales yn 49%, o'i gymharu â 51% yn 2024/25.[193]

Cynyddodd y gwariant ar raglenni y tu allan i'r rhwydwaith yng Nghymru, er bod yr oriau wedi gostwng.

Cynyddodd y gwariant ar raglenni nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith yng Nghymru, er bod gostyngiad yn nifer yr oriau.Cynyddodd gwariant gwreiddiol heb fod ar gyfer rhwydwaith sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf o 8% i £28.8m a chynyddodd cyfanswm y gwariant heb fod ar rwydwaith o 6% i £29.3m, sy'n cynrychioli 16% o wariant y BBC heb fod ar gyfer rhwydwaith, i fyny o 13% yn y flwyddyn flaenorol a'r gyfran uchaf a gofnodwyd ar gyfer Cymru. Rhaglenni heb fod yn newyddion a heb fod yn faterion cyfoes oedd yn bennaf gyfrifol am y cynnydd. I'r gwrthwyneb, roedd gostyngiad o 21 awr yn yr allbwn gwreiddiol heb fod yn allbwn rhwydwaith a ddarlledwyd am y tro cyntaf i 583 awr, a bu gostyngiad o 83 awr yng nghyfanswm yr allbwn heb fod yn allbwn rhwydwaith i 750 awr. Roedd Cymru yn cyfrif am 8.6% o oriau rhwydwaith cymwys, i lawr o 10.7%, ond cynyddodd ei chyfran o wariant rhwydwaith cymwys o 8.8% i 9.1%.[194]

---

[192] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2024/25. Mae cwestiynau o bob blwyddyn yn gymaradwy, ond maent mewn fformat gwahanol; felly, dylid ystyried cymariaethau fel rhai dangosol yn unig.

[193] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2025/26, t.52

[194] Dadansoddiad Ofcom o ddata

Darlledodd y BBC 736 awr ar draws sianeli teledu BBC Cymru o raglenni sy'n cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu Cymru, 10% yn uwch na'i ymrwymiad o tua 670 awr. O'r rhain, roedd 566 yn cael eu dangos am y tro cyntaf, o'i gymharu ag ymrwymiad o tua 520 awr. Hefyd, darparodd 45 awr o gynnwys rhwydwaith effaith uchel yn portreadu Cymru, gydag enghreifftiau'n cynnwys *The Guest, Mr Burton, Death Valley* a *Mammoth.*[195]

Roedd rhaglenni drama a ffeithiol yn cysylltu'n gryf â chynulleidfaoedd yng Nghymru

Y Celebrity Traitors a *The Traitors* ddarparodd y cynulleidfaoedd mwyaf i'r BBC yng Nghymru, gyda'r penodau a berfformiodd orau yn denu 731k a 608k o oedolion yn y drefn honno. Roedd drama hefyd yn amlwg ymysg y teitlau a gafodd eu gwylio fwyaf, gan gynnwys *Shetland, The Night Manager, Death Valley* a *Call the Midwife*. Rhai o'r teitlau a sgoriodd yn uchel oedd *Our Lives, SOS: Extreme Rescues, Mrs Brown's Boys, BeddyByes, The Crash Detectives* a *Saving Lives in Cardiff*.[196]

Fe wnaeth chwaraeon, drama ac adloniant helpu denu cynulleidfaoedd yng Nghymru yn ôl i BBC iPlayer. Rhai o'r prif deitlau ar gyfer ysgogiadau ar BBC iPlayer yng Nghymru oedd *Wimbledon*, *Glastonbury*, *Six Nations Rugby*, *2026 Winter Olympics*, *Strictly Come Dancing*, *The Celebrity Traitors*, *The Guest* a *This City is Ours*.[197]

Cyrhaeddodd radio'r BBC fwyafrif yr oedolion yng Nghymru

Yn gyffredinol, cyrhaeddodd Radio'r BBC 61% o oedolion yng Nghymru bob wythnos a dywedodd 79% o oedolion yng Nghymru eu bod yn fodlon â gwasanaethau sain y BBC. [198]

Gostyngodd cyrhaeddiad wythnosol BBC Radio Wales o 350k (13%) yn Ch1 2025 i 303k (11%), yn Ch1 2026 a gostyngodd y gwrando cyfartalog o 8.3 awr i 7.1 awr fesul gwrandäwr yr wythnos. Gostyngodd ei chynulleidfa ddigidol o 178k i 159k, a gostyngodd yr oriau gwrando digidol o 1.29 miliwn i 997k awr yr wythnos. Cyrhaeddodd BBC Radio Cymru/Cymru 2, 117k o bobl yn Ch1 2026, sy'n weddol sefydlog o'i gymharu â 114k yn Ch1 2025. Gostyngodd yr oriau gwrando cyfartalog o 9.1 i 8.0 awr fesul gwrandäwr, yr wythnos.[199]

Parhaodd y BBC i gefnogi dysgu Cymraeg, a sicrhau bod modd dod o hyd i gynnwys Cymraeg ar-lein

Dywedodd y BBC ei fod yn darparu podlediadau rheolaidd sy'n ceisio cefnogi dysgwyr Cymraeg ar wahanol lefelau yn eu taith iaith. Unwaith eto, ffurfiodd Radio Cymru bartneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar Wythnos Ddathlu Dysgu Cymraeg. Parhaodd hefyd i ddatblygu'r arlwy Radio Cymru 2 sy'n cael ei arwain gan gerddoriaeth Gymraeg wedi'i anelu at siaradwyr Cymraeg iau a llai rhugl. Mae hefyd wedi dweud ei fod wedi ei gwneud yn hawdd dod o hyd i gynnwys ar wefan BBC news drwy gategorïau amlwg Cymru a Wales a'r gallu i osod eich cod post neu eich tref enedigol i dderbyn newyddion lleol ac mae cynnwys BBC Radio Cymru wedi bod yn hawdd dod o hyd iddo ar BBC Sounds, drwy'r rheilen 'Local to Me'. [200]

---

[195] BBC DoMaPP - t.102, 121, 188

[196] Y bennod a berfformiodd orau fesul teitl yn seiliedig ar gyfanswm gwylio cronnus ar draws y flwyddyn gyfan ar gyfer oedolion 16 oed â hŷn yng Nghymru. Mae'r mynegai'n mesur sut mae maint cynulleidfa'r rhaglen ymysg poblogaeth Cymru, yn cymharu â'r gymhareb cynulleidfa i boblogaeth gyfatebol ar draws y DU. Barb, fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi yn y cartref. Chwarae'n fyw, wedi'i recordio a BVoD.

[197] Dadansoddiad Ofcom o ddata perchnogol y BBC. Cyfrifon yn dychwelyd i BBC iPlayer ar ôl peidio â chael eu defnyddio am 13 wythnos.

[198] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26


[199] RAJAR Ch1 2025 a Ch1 2026 ar sail pwysoli 12 mis.

[200] BBC DoMaPP 2025/26, t. 34, 123, 189-190

Roedd cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi cynrychiolaeth, er bod llai'n teimlo eu bod yn cael eu hadlewyrchu'n bersonol

Rhoddodd pobl yng Nghymru sgor uwch i'r BBC am *'gynnwys pobl o gefndiroedd gwahanol'* (69%); na *'dod â'r genedl at ei gilydd drwy brofiadau gwylio a rennir'* (56%) a *'cynnwys eu gwlad neu eu rhanbarth'* (55%). Rhoddodd gyfran lai sgôr uchel i'r BBC am *'gynnwys sy'n adlewyrchu bywydau pobl fel nhw'* (51%).[201]

[201] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025/26. Sylwch fod sgoriau cynulleidfaoedd yr adroddir eu bod yn "uchel" neu'n "gadarnhaol" drwy gydol y bennod hon yn seiliedig ar sgoriau o 7-10 ar raddfa 10 pwynt.



Ffynonellau: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; data BARB ar draws sianeli teledu a gwasanaethau ar-alw, ar setiau teledu a dyfeisiau eraill yn y cartref sydd wedi'u cysylltu â WiFi (cyrhaeddiad o 15 munud neu fwy); Arolwg Sain Ofcom 2026; Ipsos iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn, Mawrth 2026, detholiad pwrpasol wedi'i ddiffinio gan Ofcom; Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26.

Parhaodd y BBC i gyrraedd mwyafrif helaeth o'r oedolion yn yr Alban, ac roedd yn cael ei ddefnyddio gan 80%, i lawr o 82% yn 2024/25.[202] Mewn wythnos arferol, roedd 54% o oedolion yn defnyddio cynnwys a ddarperir gan BBC Scotland, i lawr o 56% yn 2024/25.[203]

Gostyngodd oriau a gwariant ar raglenni nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith yn yr Alban

Darparodd y BBC 2,577 awr (gan gynnwys 1,100 awr o raglenni a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf) o raglenni ar draws BBC One Scotland a BBC Scotland. Roedd hyn yn cynnwys 501 awr o newyddion, 263 awr o faterion cyfoes a 1,813 awr o raglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes. Dywedodd ei fod yn cyflawni pob un ond un o'i ymrwymiadau ar gyfer y rhaglenni hyn, gan fethu ei ymrwymiad o bedair awr o ran materion cyfoes a ddangoswyd am y tro cyntaf ar BBC One Scotland. Dywedodd fod hyn oherwydd bod yr aildrefnu a'r sylw i etholiadau wedi dod i ben yn gynt na'r disgwyl.[204] Darparodd 93 awr o raglenni 'effaith uchel' yn cynrychioli ac yn portreadu'r Alban y llynedd.[205]

[202] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26 a Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2024/25. Mae cwestiynau o bob blwyddyn yn gymaradwy, ond maent mewn fformat gwahanol; felly, dylid ystyried cymariaethau fel rhai dangosol yn unig.

[203] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2025/26, t5

[204] BBC DoMAPP 2025/26, t.115-117. Roedd wedi darparu 21 awr o raglenni materion cyfoes a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf ar BBC One Scotland o'i gymharu â'i ymrwymiad o 25 awr.

[205] BBC DoMaPP 2025/26, t.102

Roedd gwariant yn yr Alban ar raglenni gwreiddiol a ddangosir am y tro cyntaf heb fod i'r rhwydwaith wedi disgyn 11% i £58.5m, y lefel nominal isaf ers 2020, a gostyngodd yr oriau hefyd wedi'i ysgogi gan ostyngiad yn newyddion, er i gynnwys materion cyfoes gynyddu.Rydym yn nodi bod gwariant rhwydwaith a ddefnyddir ar gyfer cynnwys wedi'i gomisiynu ar y cyd wedi'i eithrio o hyn. Roedd cyfran yr Alban o oriau rhwydwaith cymwys wedi codi o 11.2% i 19.8%, ac roedd ei chyfran o wariant cymwys wedi codi o 9.7% i 10.4%.[206]

Mae'r BBC wedi wedi bod yn ceisio esblygu ac yn darparu mwy o gynnwys ar-lein

Yn 2024, cymeradwyodd Ofcom gais y BBC i leihau nifer yr oriau darlledu oriau brig o raglenni newyddion ar BBC Scotland. Ym mis Ionawr 2025 ar ôl i *The Nine* ddod i ben, cyflwynodd *Reporting Scotland: News at Seven,* yn canolbwyntio ar gymunedau ledled yr Alban, a chyflwynodd *Scotcast* podlediad sydd ar gael mewn fformatau sain a gweledol. Yn ôl y BBC bu gwelliant bach mewn gwylio, gyda'r gynulleidfa gyfartalog tua 5,000 yn uwch na *The Nine's* yn 2024.[207] At ei gilydd, roedd BBC Scotland wedi cyrraedd cynulleidfa o 1.3 miliwn bob wythnos.[208]

Yn 2025/26, roedd 17% o oedolion yr Alban wedi gwrando ar Radio Scotland.[209] Dywed y BBC fod Radio Scotland wedi darparu mwy na 3,000 awr o newyddion a materion cyfoes. Soniodd am lwyddiant amrywiaeth o bodlediadau fel *Crime Next Door*, *Inside Murder Trial*, *Scottish Football Podcast* a *Breaking the News*. Dywedodd hefyd fod *Scotcast* wedi cael ei chwarae mwy na 440,000 o weithiau ar BBC Sounds yn ystod 2025/26, ac roedd oddeutu 137,000 o gyfrifon gweithredol wythnosol wedi gwrando ar gynnwys BBC Radio Scotland ar BBC Sounds, 19% yn fwy nag yn 2024/25.[210]

Parhaodd i ddarparu cynnwys Gaeleg ar BBC ALBA

Roedd y BBC wedi darparu 2,614 awr o raglenni ar BBC ALBA, gan gynnwys 571 o oriau a ddangoswyd am y tro cyntaf, gan ddiwallu ei ymrwymiadau cyffredinol, ond nid oedd wedi diwallu ymrwymiad ar wahân ar ddysgu Gaeleg, gan ddarparu 660 o oriau gan gynnwys 23 o oriau a ddangoswyd am y tro cyntaf (yr ymrwymiad oedd 700 awr a 32 o oriau a ddangoswyd am y tro cyntaf). Dywedodd y BBC ei fod wedi parhau i ddefnyddio teitlau dwyieithog i helpu pobl i ganfod cynnwys, yn ogystal â rhoi'r cynnwys hwn ar reiliau thematig BBC iPlayer a sylw i Celtic Connections, Òran Ùr, Belladrum a'r Mòd.[211]

Roedd cynnwys a oedd yn cynrychioli ac yn portreadu'r Alban wedi taro tant gyda chynulleidfaoedd

Dywedodd y BBC fod llawer yn yr Alban wedi gwylio *The Celebrity Traitors*, gyda 25% o gynulleidfaoedd yr Alban yn gwylio o gymharu â 23% o gynulleidfaoedd y DU; roedd *The Traitors*, wedi cyrredd 20% o gymharu â 19%; roedd *Shetland*, wedi cyrraedd 16% o gymharu â 10%; ac roedd *Two Doors Down Christmas Special*, wedi cyrraedd 14% o gymharu â 5%.[212] Roedd cynnwys Chwaraeon ac Adloniant wedi helpu i ddod â chynulleidfaoedd yn yr Alban yn ôl at BBC iPlayer;

---

[206] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[207] BBC DoMAPP 2025/26, t.116
[208] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi y cartref. Chwarae'n fyw, wedi'i recordio a BVoD. Unigolion 4+, 2025, meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol.
[209] RAJAR Ch1 2026; pwysoli 12 mis
[210] BBC DoMAPP 2025/26, t.117 a 120
[211] BBC DoMAPP 2025/26, t.118
[212] BBC DoMAPP 2025/26, t.117. Dadansoddiad y BBC, Barb fel y'i gwyliwyd. Data a gasglwyd rhwng 30 Mawrth 2025 a 29 Mawrth 2026


roedd y prif deitlau ar gyfer ysgogiadau yn cynnwys *Winter Olympics 2026*, Wimbledon, *Glastonbury*, *Sportscene*, Pêl-droed Rhyngwladol, Snwcer, Rygbi'r Chwe Gwlad, *The Celebrity Traitors* a *The Traitors*.[213]

Roedd canfyddiadau cynulleidfaoedd yn gadarnhaol, ond roedd llai yn teimlo eu bod yn cael eu hadlewyrchu'n bersonol

Ymysg pobl yr Alban, roedd 67% wedi rhoi sgôr uchel i'r BBC am 'mae'r BBC yn cynnwys pobl o gefndiroedd gwahanol', 'mae'r BBC yn dod â'r genedl at ei gilydd drwy brofiadau gwylio a rennir' (61%), 'mae'r BBC yn cynnwys eu gwlad neu ranbarth' (60%), a bod 'cynnwys y BBC yn adlewyrchu bywydau pobl fel nhw' (57%); dywed 77% o'r gwylwyr yn yr Alban eu bod yn fodlon â BBC One.[214]

[213] Dadansoddiad Ofcom o ddata perchnodol y BBC. Cyfrifon yn dychwelyd i BBC iPlayer ar ôl peidio â chael eu defnyddio am 13 wythnos

[214] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2025/26. Sylwch fod sgoriau cynulleidfaoedd yr adroddir eu bod yn "uchel" neu'n "gadarnhaol" drwy gydol y bennod hon yn seiliedig ar sgoriau o 7-10 ar raddfa 10 pwynt.



Ffynonellau: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; data BARB ar draws sianeli teledu a gwasanaethau ar-alw, ar setiau teledu a dyfeisiau eraill yn y cartref sydd wedi'u cysylltu â WiFi (cyrhaeddiad o 15 munud neu fwy); Arolwg Sain Ofcom 2026; Ipsos iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn, Mawrth 2026, detholiad pwrpasol wedi'i ddiffinio gan Ofcom; Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26.

Yn gyffredinol, mae'r BBC yn dal i gyrraedd mwyafrif helaeth o'r oedolion yn Lloegr, caiff ei ddefnyddio gan 81%, i lawr o 84% yn 2024/25.[215] Mewn wythnos arferol, roedd 43% o oedolion Lloegr wedi defnyddio cynnwys lleol y BBC.[216]

Roedd cyrhaeddiad cynulleidfaoedd yn amrywio rhanbarthau Lloegr

Eleni, roedd 57% o bobl yn Lloegr yn gwylio teledu'r BBC neu iPlayer bob wythnos. Roedd y cyrhaeddiad ar ei uchaf yn Ne Ddwyrain Lloegr sef 62% ac ar ei isaf yn Llundain sef 52%.[217] Edrychwch ar ein hadroddiad data rhyngweithiol am ragor o fanylion.

Roedd y BBC wedi rhagori ar ei ymrwymiadau rhaglenni rhanbarthol, ac roedd gwariant yn Lloegr heb fod i'r rhwydwaith wedi gostwng

Darparodd y BBC 3,725 awr o raglenni rhanbarthol ar BBC One a BBC Two England, i gyd yn cael eu dangos am y tro cyntaf, yn erbyn ymrwymiad yn y Cynllun Blynyddol i ddarparu tua 3,680 awr.

[215] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26 a Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2024/25. Mae cwestiynau o bob blwyddyn yn gymaradwy, ond maent mewn fformat gwahanol; felly, dylid ystyried cymariaethau fel rhai dangosol yn unig.

[216] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC, t.55

[217] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi y cartref. Chwarae'n fyw, wedi'i recordio a BVoD Meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol, unigolion 4+.

Roedd hyn yn cynnwys 3,518 awr o newyddion, 203 awr o faterion cyfoes.[218] Dywedodd y BBC ei fod wedi diwallu ei holl ymrwymiadau newyddion a materion cyfoes ar gyfer 2025/26.[219]

Roedd gwariant y BBC yn Lloegr ar raglenni teledu heb fod i'r rhwydwaith wedi disgyn 26% i £67.8m, y cyfanswm blynyddol nominal isaf dros y Siarter. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y gostyngiad mewn gwariant ar newyddion. Roedd y BBC wedi parhau i gyrraedd ei dargedau ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn Lloegr, er bod ei gyfran o oriau cymwys wedi disgyn eleni o 42% i 37.5% ac roedd cyfran y gwariant cymwys wedi disgyn o 35.9% i 33.1%.[220] Darparodd 435 awr o raglenni rhwydwaith 'effaith uchel' yn cynrychioli ac yn portreadu rhanbarthau Lloegr, a'i ymrwymiad oedd darparu 400 awr. Roedd hyn yn cynnwys *This City is Ours*, yn Lerpwl; *Riot Women*, yn Hebden Bridge; *The Dream Lands*, ym Margate; a *Man Like Mobeen*, yn Coventry.[221]

Roedd radio a gwasanaethau ar-lein lleol wedi parhau i fod yn ganolog i gynnig lleol y BBC

Yn 2025/26, roedd 10% o oedolion yn Lloegr wedi gwrando ar Radio Lleol y BBC , ac roedd 34% o rheini yn Lloegr wedi defnyddio gwefan neu ap y BBC i gael newyddion lleol.[222] Mae 82% o wrandawyr Radio Lleol y BBC yn dweud eu bod yn fodlon arno.[223] Mae'r BBC yn tynnu sylw at amrywiaeth o raglenni fel rhai sy'n parhau i gyflawni i gynulleidfaoedd lleol, gan gynnwys ei gynllun *Make a Difference*, *BBC Introducing*, *BBC Upload*, chwaraeon lleol a'r brand newydd *Need to Know* a'r podlediad *In Detail…*.[224]

Dywedodd y BBC ei fod wedi cyhoeddi tua 82,000 o straeon ar-lein ar draws 45 o ardaloedd 'mynegai' sy'n cynnwys Lloegr, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw. Roedd hefyd yn disgrifio 39 o ganolfannau amlgyfrwng lleol, "portread lleol" drwy fewngofnodi yn ap BBC News, hyrwyddo straeon lleol ar dudalennau blaen BBC News a Sport, a mwy o bersonoleiddio ar gyfer chwaraeon. Ar BBC Sounds, cyflwynodd grynodebau clybiau a threialu bwletinau pêl-droed byr wedi'u cynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial ar gyfer rhai clybiau.[225]

Ym mis Rhagfyr 2025, fe wnaethom gymeradwyo newid i Drwydded Weithredu'r BBC, i ddiwygio'r cyfnod pan fydd rhaglenni sy'n cael eu rhannu ar Radio Lleol y BBC yn gallu cyfrif at ei amod ar gyfer rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu gwneud yn lleol. Roedd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i'r BBC ailffocysu ei adnoddau ar yr un pryd â diogelu'r oriau gwrando mwyaf gwerthfawr ar gyfer cynulleidfaoedd lleol. Yn fwy diweddar, mae'r BBC wedi cyhoeddi rhagor o newidiadau i BBC Local fel rhan o'i gynlluniau arbedion. Wrth i'r BBC roi newidiadau ar waith, byddwn yn parhau i asesu pa mor dda mae'r BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd gyda chynnwys lleol.

Roedd teitlau poblogaidd wedi cyrraedd cynulleidfaoedd mawr

Roedd rhaglenni 'rhaid eu gwylio' yn dal i ddod â phobl at ei gilydd: Ar gyfartaledd roedd 12.5 miliwn o oedolion yn Lloegr wedi gwylio *The Celebrity Traitors* a 10.7 miliwn wedi gwylio *The Traitors.*[226] Roedd amrywiaeth o allbwn wedi dod â chynulleidfaoedd yn ôl: roedd y prif deitlau ar gyfer

---

[218] Yn ogystal â 4.5 awr o raglenni heb fod yn newyddion na materion cyfoes
[219] Cynllun Blynyddol y BBC 2025/26, t.82; BBC DoMaPP 2025/26, t.105
[220] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC
[221] BBC DoMaPP 2025/26, t.102
[222] RAJAR Ch1 2026; pwysoli 12 mis, Arolwg Cyfryngau Lleol Ofcom, 2026
[223] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2025/26
[224] BBC DoMaPP 2025/26, t.106-108
[225] BBC DoMAPP 2025/26, t.108
[226] Barb, fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi y cartref. Chwarae'n fyw, wedi'i recordio a BvoD. *The Celebrity Traitors* Cyfres 1, pennod 9 a *The Traitors* cyfres 4, pennod 1. Pennod a berfformiodd orau fesul teitl yn seiliedig ar gyfanswm gwylio cronnus ar draws y flwyddyn gyfan ar gyfer oedolion 16 oed â hŷn yn Lloegr.

‘ysgogiadau’ ar BBC iPlayer yn cynnwys *The Traitors*, *Match of the Day*, *Glastonbury*, *This City is Ours*, *Eastenders*, *Women’s Euro 2025*, a *The FA Cup*.[227]

Mae'r BBC yn parhau i ehangu ei bresenoldeb yn rhanbarthau Lloegr

Fel rhan o’i strategaeth *Across the UK*, mae’r BBC wedi parhau i gryfhau ei bresenoldeb a’i allu cynhyrchu y tu allan i Lundain, gan ymrwymo i dwf creadigol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd Ddwyrain Lloegr – gan gynnwys adleoli rhaglenni fel *MasterChef* a *Silent Witness* i Digbeth, ac i wario o leiaf £25 miliwn ar gomisiynu rhaglenni teledu i’r rhwydwaith yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr. [228]

[227] Dadansoddiad Ofcom o ddata perchnodol y BBC. Cyfrifon yn dychwelyd i BBC iPlayer ar ôl peidio â chael eu defnyddio am 13 wythnos

[228] BBC DoMaPP 2025/26,tp. 90-91

Diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol

Cystadleuaeth y BBC yn 2025/26

- Yn dilyn ein hasesiad o newidiadau i wasanaethau radio'r BBC ym mis Gorffennaf 2025 **fe ddaethom i'r casgliad na chaiff y BBC fwrw ymlaen â'r estyniadau arfaethedig i Radio 2 na Radio 5 Sports Extra oherwydd pryderon am gystadleuaeth**. Fe wnaethom ganiatáu i **Radio 1 Dance, Radio 1 Anthems a Radio 3 Unwind fwrw ymlaen** oherwydd bod gwerth cyhoeddus y cynigion hyn yn cyfiawnhau'r effaith gyfyngedig ar gystadleuaeth.
- Roedd y BBC wedi cynnig **nifer o newidiadau eraill** yr oeddem yn cytuno nad oeddent yn sylweddol.
- Ym mis Mai 2026, **fe wnaethom ddiweddaru ein canllawiau ar gystadleuaeth i** i adlewyrchu'r newidiadau i'r Cytundeb ac i gefnogi trefn fwy hyblyg wedi'i thargedu.
- **Mae ein barn am safle'r BBC yn y sectorau sain a chlyweledol yn dal yn weddol debyg i'r llynedd**. Er gwaethaf y newid parhaus ar-lein, rydym o'r farn pe bai'r BBC yn cynnig newidiadau i'w wasanaethau llinol, gallai hyn barhau i gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth. Gallai newidiadau i BBC iPlayer a BBC Sounds fod yn llai tebygol o wneud hynny. Fodd bynnag, bydd effaith gystadleuol unrhyw newid yn dibynnu ar ei amgylchiadau penodol, a dylid ystyried hynny fesul achos.
- **Mae'r tueddiadau o ran cael gafael ar newyddion lleol y BBC yn cyd-fynd â blynyddoedd blaenorol.** Ar gyfer newyddion lleol ar-lein, mae darparwyr masnachol wedi gweld gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â thudalennau newyddion, ond nid ydym wedi gweld tystiolaeth i ddangos bod y BBC yn gyfrifol am hyn.

Yn y bennod hon rydym yn sôn am newidiadau diweddar i fframwaith rheoleiddio'r BBC ac yna'n edrych ar berfformiad a lle'r BBC yn y farchnad dros gyfnod adrodd 2025/26. Rydym yn rhoi ein hasesiad diweddaraf o safbwyntiau'r BBC yn y sectorau sain a chlyweledol, yn ogystal ag o ran darparu newyddion lleol a rhanbarthol.

Y fframwaith rheoleiddio

Gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, sy'n gweithredu ar draws teledu, sain ac ar-lein, mae'n gallu cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth - yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae rôl Ofcom wedi'i nodi yn y Siarter a'r Cytundeb ac mae'n mynnu ein bod yn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU ac yn rhoi rheolau ar waith ar gyfer gweithgareddau masnachol a gwasanaeth cyhoeddus y BBC.

Rhaid i'r BBC ystyried a yw unrhyw newidiadau arfaethedig i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus yn sylweddol (h.y. a allai'r cynigion gael effaith sylweddol er gwaeth ar gystadleuaeth deg ac effeithiol). Os ydynt, mae'n rhaid i'r BBC gynnal prawf budd y cyhoedd y mae'n rhaid i Ofcom ei adolygu. Efallai bydd yn rhaid i Ofcom wedyn gynnal Asesiad Cystadleuaeth y BBC (BCA) neu asesiad byrrach, i asesu a oedd gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Os bydd y BBC yn cynnig newidiadau i'w weithgareddau

masnachol, efallai y byddwn yn ystyried a yw'r berthynas â gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn arwain at fantais gystadleuol annheg.

Ym mis Rhagfyr 2025, cyhoeddodd y Llywodraeth ddiweddariadau i'r Cytundeb yn dilyn ei adolygiad canol tymor o Siarter a Chytundeb Fframwaith y BBC. Roedd y diweddariadau hyn yn cynnwys newidiadau i waith rheoleiddio Ofcom ar y BBC mewn perthynas â chystadleuaeth. Ar ôl ymgynghori, ym mis Mai 2026 fe wnaethom gyhoeddi datganiad a diweddaru ein canllawiau ar gystadleuaeth i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Mae ein canllawiau wedi'u diweddaru:

- yn cadarnhau pan fydd y BBC yn gwneud newid sylweddol i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a bod ei brawf budd y cyhoedd wedi nodi a mynd i'r afael yn briodol â materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth, gall Ofcom benderfynu y gall newid fynd rhagddo heb asesiad cystadleuaeth Ofcom;
- yn egluro'r ffactorau gall Ofcom eu hystyried wrth wneud y penderfyniad hwn, gan gynnwys ansawdd dadansoddiad y BBC a'i ymgysylltiad â rhanddeiliaid;
- yn egluro pryd y bydd Ofcom nawr yn ystyried cynnal asesiad byrrach;
- yn adlewyrchu y gall Ofcom gymeradwyo newid i'r BBC yn amodol ar amodau neu addasiadau ar ôl cynnal asesiad byrrach; ac
- yn rhoi'r gorau i drin cyfeiriadau at "wasanaethau cyhoeddus newydd yn y DU" fel newidiadau sylweddol yn awtomatig.

Daeth y newidiadau i rym ar 16 Mehefin 2026 a dylent gefnogi trefn cystadleuaeth fwy hyblyg a phenodol i'r BBC. Bydd sut gallai trefn cystadleuaeth newydd weithredu o dan Siarter a Chytundeb newydd yn fater i'r Llywodraeth ei ystyried fel rhan o'r broses o adnewyddu'r Siarter.

Datblygiadau Cystadleuaeth y BBC

Datblygiadau dros y cyfnod adrodd

Newidiadau i wasanaethau radio'r BBC

Ym mis Gorffennaf 2025 fe wnaethom gyhoeddi ein Penderfyniad Terfynol ar gynlluniau'r BBC i lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth newydd ac ymestyn oriau darlledu Radio 5 Sports Extra.[229] Daethom i'r casgliad na chaiff y BBC fwrw ymlaen â'r estyniadau arfaethedig i Radio 2 na Radio 5 Sports Extra oherwydd nad oedd y gwerth cyhoeddus yn ddigonol yn y naill achos na'r llall i gyfiawnhau'r effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Lansiwyd y gorsafoedd Radio 1 Dance, Radio 1 Anthems a Radio 3 Unwind ym mis Medi 2025. Rydym wedi edrych ar eu perfformiad hyd yma o dan bennod Diben Cyhoeddus 3.

Newidiadau i gynnwys S4C ar BBC iPlayer

Ym mis Chwefror 2026, anfonodd y BBC ei asesiad perthnasedd atom o'i gynnig i alluogi hysbysebu rhaglenni llinol S4C ar BBC iPlayer. Nid oeddem o'r farn y gallai'r newid gael effaith sylweddol er gwaeth ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae'r penderfyniad hwn yn benodol i'r trefniant partneriaeth hirsefydlog rhwng y BBC ac S4C a sefydlwyd o dan y Siarter a'r Cytundeb.

[229] Sylwch ein bod wedi cynnwys y penderfyniad hwn yn Adroddiad Blynyddol y llynedd ar y BBC, er bod hyn yn disgyn y tu allan i gyfnod adrodd 2024/25 (gweler Adroddiad Blynyddol 2024/25 ar y BBC, tudalen 62).

Ffrwd ychwanegol BBC Radio 6 Music

Ym mis Mawrth 2026, anfonodd y BBC ei asesiad perthnasedd atom o'i gynnig i lansio ffrwd ychwanegol 6 Music ar BBC Sounds. Yn dilyn ein hadolygiad o ddadansoddiad y BBC, nid oeddem o'r farn y gallai'r newid arfaethedig gael effaith sylweddol er gwaeth ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Cafodd y ffrwd, o'r enw *Indie Forever*, ei lansio ym mis Gorffennaf 2026 ac mae'n canolbwyntio ar gerddoriaeth roc a phob indie o'r 1980au i'r 2010au yn ogystal â cherddoriaeth indie gan artistiaid newydd. Dywedodd y BBC y bydd y ffrwd yn targedu cynulleidfaoedd iau a C2DE, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan 6 Music ar hyn o bryd.

Datblygiadau ers mis Ebrill 2026

BBC Bitesize: Safon Uwch

Ym mis Gorffennaf 2026, anfonodd y BBC ei asesiad perthnasedd atom ynghylch ei gynnig i ehangu BBC Bitesize i ddarparu cymorth i ddysgwyr ac athrawon Safon Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cynigiodd y BBC ddefnyddio cynnwys sain a fideo wedi'i guradu o archif y BBC i ddarparu deunyddiau dysgu Safon Uwch atodol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol. Nid oeddem o'r farn y gallai'r newid gael effaith sylweddol er gwaeth ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae'r BBC yn bwriadu lansio cyfres o dudalennau Bitesize sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm ar draws 10-12 pwnc i ddechrau dros dair blynedd ac yn dechrau gyda llenyddiaeth Saesneg nes ymlaen eleni.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Rydym o'r farn bod tryloywder ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn helpu i gefnogi'r gwaith o oruchwylio'r BBC yn effeithiol ac yn agweddau pwysig ar y fframwaith atebolrwydd. Yn aml, gall rhanddeiliaid ddarparu gwybodaeth werthfawr am yr effaith bosibl ar gynulleidfaoedd, ar y farchnad neu ar y sector, na fyddai ar gael fel arall i'r BBC nac i Ofcom.

Fel rhan o'r broses asesu perthnasedd, mae Ofcom yn mynnu bod y BBC yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i roi cyfle iddynt roi sylwadau ar bryderon a allai fod ganddynt am effaith bosibl newid arfaethedig ar y farchnad. Ym mis Gorffennaf 2026, cawsom gŵyn ffurfiol am gydymffurfiad y BBC â'r gofyniad hwn, mewn perthynas â ffrwd ychwanegol Radio 6 Music. Ar ôl adolygu'r wybodaeth a oedd ar gael i ni, daethom i'r casgliad nad oedd digon o sail dros agor ymchwiliad i'r gŵyn. Wrth ddod i'r farn hon, fe wnaethom ystyried a oedd ymgysylltiad y BBC â rhanddeiliaid ar y cynnig hwn yn gymesur, ac felly'n ddigonol, i natur ac i raddfa'r newid arfaethedig a daethom i'r casgliad ei fod yn yr achos hwn.

Ni chododd unrhyw bryderon yn sgil ein gwaith monitro ar weithgareddau masnachol y BBC

Yn 2025/26, dywedodd y BBC fod ei ganghennau masnachol wedi darparu refeniw o £2.2bn (2024/25: £2.2bn) ac EBITDA o £267m (2024/25: £228m).[230] Nid oedd unrhyw bryderon yn codi o'n hadolygiad o'i gydymffurfiad â'n gofynion adrodd ar weithgareddau masnachol a masnachu yn 2025/26, ac ni chawsom unrhyw gŵynion ynghylch cydymffurfiad y BBC â'n gofynion gweithgareddau masnachol a masnachu.

[230] BBC, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2025/26, t.75.

Dywed y BBC ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd ei dargedau cystadleuaeth erbyn diwedd y Siarter hon

Mae'n rhaid i'r BBC fodloni targedau penodol mewn perthynas â chyfran y cynnwys sy'n cael ei gomisiynu ar gyfer ei wasanaethau cyhoeddus drwy broses gystadleuol. Mae'r BBC wedi cyrraedd ei darged ar gyfer oriau radio sy'n destun cystadleuaeth, ac mae'n datgan ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd cystadleuaeth o 100% ar gyfer teledu ac ar-lein erbyn 31 Rhagfyr 2027.

Ffigur 4: Tabl yn amlinellu'r % sy'n destun cystadleuaeth a thargedau ar gyfer cynnwys teledu, radio ac ar-lein

	19/20	20/21	21/22	22/23	23/24	24/25	25/26	Targed
Teledu	62%	64%	62%	63%	77%	77%	87%	100% erbyn 31 Rhagfyr 2027
Radio	48%	53%	55%	62%	61%	61%	62%	60% erbyn 31 Rhagfyr 2022 (cyrhaeddwyd)
Ar-lein	62%	59%	72%	80%	82%	98%	99.6%	100% erbyn 31 Rhagfyr 2027

Ffynhonnell: Adroddiad Comisiynu'r BBC 2025/26. Mae canrannau wedi cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, ac eithrio'r ganran a heriwyd ar gyfer cynnwys ar-lein yn 2025/26, er mwyn dangos nad yw'r targed o 100% wedi'i gyrraedd eto.

Eleni, roedd 87% o'r rhaglenni teledu perthnasol[231] drwy gystadleuaeth. Mae'r BBC eisoes yn rhoi 100% o'r oriau teledu sydd newydd gael eu comisiynu drwy gystadleuaeth ac mae'n gwerthuso'r teitlau sy'n weddill y bydd angen eu tendro i fodloni'r 13% o oriau sy'n weddill.

Rydym yn siarad â chynhyrchwyr teledu, radio a sain yn ogystal â chyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant ar draws y DU fel rhan o'n rhaglen barhaus i ymgysylltu â'r sector a'i fonitro. Ni chodwyd unrhyw gŵynion ffurfiol am brosesau comisiynu'r BBC yn ystod y cyfnod adrodd hwn, a dywedodd llawer o gynhyrchwyr eu bod yn gwerthfawrogi eu hymgysylltiad â'r BBC. Yn fwy cyffredinol, nododd cynhyrchwyr y pwysau sy'n deillio o amgylchedd comisiynu anodd, gan gynnwys cyfyngiadau cyllidebol a llai o weithgarwch comisiynu ar draws y sector. Roeddent yn tynnu sylw at bwysigrwydd tryloywder a chyfleoedd comisiynu parhaus i gefnogi busnesau cynhyrchu ar draws y Gwledydd a'r Rhanbarthau.

Asesu'r farchnad

Sefyllfa'r BBC yn y sectorau clyweledol a sain

Wrth i gynulleidfaoedd symud fwyfwy at wasanaethau ar-lein, gallai effaith y BBC mewn rhai sectorau leihau, yn enwedig o ystyried maint y gystadleuaeth â darparwyr byd-eang. Fodd bynnag,

[231] Mae'r Cytundeb Fframwaith yn datgan bod 'rhaglenni teledu perthnasol' yn cynnwys yr holl raglenni teledu sydd wedi'u cynnwys yng ngwasanaethau cyhoeddus y DU ac eithrio rhaglenni sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cynyrchiadau annibynnol, newyddion a materion cyfoes sy'n ymwneud â newyddion, ac unrhyw raglen lle mae'r BBC o'r farn na fyddai cydymffurfio â'r rhwymedigaethau i wneud y cynnwys yn destun cystadleuaeth yn sicrhau gwerth am arian. Mae'r BBC yn ystyried eithriadau gwerth am arian fesul achos ar sail meini prawf a gymeradwywyd gan Fwrdd y BBC.

mae'n debygol y bydd sectorau lle mae gan y BBC y potensial o hyd i gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Bwriad ein hasesiadau blynyddol o'r amodau cystadleuol yn y sectorau clyweledol a sain yw helpu rhanddeiliaid i ddeall y man cychwyn rydym yn debygol o'i fabwysiadu wrth asesu effaith bosibl newidiadau'r BBC ar gystadleuaeth.[232] Fodd bynnag, byddwn yn parhau i asesu cynigion y BBC fesul achos, gan gydnabod y bydd yr effaith bosibl yn dibynnu ar natur benodol y newid.

Mae Atodiad 3 yn nodi ein hamcangyfrifon diweddaraf ar gyfran y gwylio a'r gwrando ar y BBC a gweithredwyr masnachol. Mae hyn yn dangos darlun gweddol debyg i'r flwyddyn flaenorol o ran safle'r BBC o'i gymharu â'i weithredwyr masnachol ar draws pob sector. Yn benodol:

- **Clyweledol:** Mae cyfrannau gwylio yn dangos bod gwasanaethau llinol y BBC yn cynrychioli 15% o'r gwylio cyffredinol a nodwyd, cyfran uwch na darlledwyr domestig eraill.[233] Fodd bynnag, rydym yn nodi bod y gyfran hon yn gostwng, yn enwedig ymysg gwylwyr iau, gan ostwng o 5% yn 2024 i 3% yn 2025 ar gyfer y grŵp demograffig hwn. BBC iPlayer yw'r gwasanaeth BVoD mwyaf o hyd, ond mae ei lefelau gwylio yn gymharol fach o ran y gyfran gwylio gyffredinol (5%).[234]
- **Sain:** Mae'r cyfrannau gwrando yn dangos bod portffolio radio'r BBC yn dal i gyfrif am gyfran sylweddol o wrando (er bod hyn yn gostwng dros amser) ac mae cyfran y BBC o radio ar-lein (byw a dal i fyny) wedi aros yn sefydlog, ond mae'n cyfrif am gyfran gymharol fach o'r gwrando cyffredinol (5%).[235]

Nodwn fod sefyllfa ar-lein y BBC wedi bod yn tyfu dros amser, ond mae'n dal yn gymharol fach. Felly, mae ein safbwyntiau lefel uchel ynghylch y sectorau hyn yn dal yn debyg i'r llynedd. Rydym hefyd yn nodi y gallai'r BBC fod yn llai tebygol o lansio neu ehangu gwasanaethau llinol yn y dyfodol (o ystyried y newid parhaus at wasanaethau ar-lein a chynlluniau'r BBC i wneud arbedion sylweddol gan gynnwys drwy gau rhai gwasanaethau llinol) ond rydym wedi nodi ein safbwyntiau ar gyfer pob sector isod er mwyn bod yn gyflawn:

- Mae'n bosibl y gallai **newidiadau i wasanaethau teledu llinol y BBC** gael mwy o effaith ar gystadleuwyr domestig, gan beri mwy o risg o wthio i ffwrdd na newidiadau i BBC iPlayer.
- Yn gyffredinol mae **newidiadau i BBC iPlayer** yn llai tebygol o gael effaith sylweddol ar gyfran y bobl sy'n gwylio – a refeniw – cystadleuwyr domestig, ac felly nid ydym yn disgwyl risg sylweddol iddynt gael eu gwthio i ffwrdd.[236] Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai'r risg fod yn uwch petai disgwyl i effaith newid penodol ddisgyn ar gronfa ddwys o ddarparwyr masnachol domestig.

---

[232] Fel rhan o Adolygiad Canol Tymor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o'r Siarter a'r Cytundeb, roeddem wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amodau cystadleuol hyn yn ein Hadroddiadau Blynyddol.

[233] Rydym yn defnyddio'r term "llinol" drwy'r adran hon i gyfeirio at wylio'n fyw a chwarae rhaglenni ar eu ôl eu recordio ar sianeli teledu.

[234] Barb fel y'i gwyliwyd. Mae cyfran gwylio allan o'r holl wylio a nodwyd yn y cartref. Gall hyn fod yn wahanol i rannau eraill o'r adroddiad lle mae cyfrannau wedi cael eu cyfrifo o'r holl wylio yn y cartref, gan gynnwys rhywfaint o ddefnydd anhysbys o setiau teledu.

[235] RAJAR a TouchPoints. Data RAJAR a ddefnyddir ar gyfer yr amser a dreuliwyd yn gwrando ar radio byw. Data TouchPoints a ddefnyddir ar gyfer mathau eraill o sain (radio dal i fyny, podlediadau, cerddoriaeth wedi'i ffrydio ac 'arall' gan gynnwys cerddoriaeth bersonol, sianeli/safleoedd fideos cerddoriaeth a llyfrau sain).

[236] Os bydd y BBC yn newid ei wasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sy'n arwain cynulleidfaoedd i symud oddi wrth wasanaethau masnachol at wasanaethau'r BBC, gall refeniw darparwyr masnachol leihau. Gallai hyn yn ei dro gyfyngu ar allu darparwyr masnachol i fuddsoddi yn eu gwasanaethau, gan leihau'r dewis cyffredinol, yr ansawdd a'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd yn y DU. Rydym yn cyfeirio at yr effaith hon fel 'gwthio i ffwrdd'. Nid gwthio i ffwrdd yw'r unig ffordd y gall y BBC niweidio cystadleuaeth – er enghraifft, mae perygl y gallai gweithgarwch y BBC gael effeithiau niweidiol ar wasanaethau mewn rhannau eraill o gadwyn gyflenwi cyfryngau'r DU.

- Gallai **newidiadau i wasanaethau radio'r BBC**, sy'n arwain at gynnydd sylweddol mewn gwrando, gael mwy o effaith ar ddarparwyr radio masnachol domestig. O'r herwydd, rydym o'r farn bod mwy o risg iddynt gael eu gwthio i ffwrdd o ganlyniad i newidiadau o'r fath, o'i gymharu â newidiadau sydd wedi'u cyfyngu i BBC Sounds.
- Yn gyffredinol mae **newidiadau sy'n effeithio ar BBC Sounds yn unig** yn llai tebygol o gael effaith sylweddol ar gyfran y bobl sy'n gwrando – ac felly ar refeniw – cystadleuwyr domestig, ac nid ydym yn disgwyl risg sylweddol iddynt gael eu gwthio i ffwrdd. Fodd bynnag, yn debyg i'n barn ar BBC iPlayer uchod, rydym o'r farn y bydd angen craffu ymhellach ar newidiadau a allai gael mwy o effaith ar gronfa lai o gystadleuwyr domestig.

Rydym yn cydnabod bod cynulleidfaoedd yn newid eu harferion gwylio fwyfwy ar-lein, ac mae'n dod yn haws newid i rywbeth arall yn lle gwasanaethau llinol ac ar-lein.[237] Mae hyn yn lleihau pwysigrwydd gwasanaethau llinol dros amser. Rydym yn disgwyl i'r tueddiadau hyn barhau, ac i siapio amodau cystadleuol dros y tymor hirach. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae'r BBC yn dal yn ddarparwr gwasanaethau llinol pwysig, ac mae refeniw llinol yn dal yn ffynhonnell incwm bwysig i weithredwyr masnachol.

Bydd ymddygiad cynulleidfaoedd a'r sectorau clyweledol / sain yn parhau i esblygu, a gallai hyn effeithio ar yr amodau cystadleuol ar draws y sector. Felly, byddwn yn monitro ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ein safbwyntiau mewn Adroddiadau Blynyddol dilynol.

Sefyllfa'r BBC yn y sector newyddion lleol

Yn ein hadroddiad Adolygiad o Gyfryngau Lleol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024, fe wnaethom ymrwymo i fonitro sefyllfa'r BBC mewn newyddion lleol ac effaith unrhyw newidiadau ychwanegol i wasanaethau newyddion lleol / rhanbarthol y BBC. Fe wnaethom hefyd ymrwymo i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol yn ein Hadroddiadau Blynyddol ar y BBC.

Mae Atodiad 3 yn nodi ein data diweddaraf ar wylio a gwrando ar newyddion lleol ar gyfer y BBC a gweithredwyr masnachol.

- **Newyddion rhanbarthol ar deledu:** Mae'r cyfrannau gwylio yn dangos bod y BBC yn dal yn gymharol fawr o ran gwylio newyddion y gwledydd / rhanbarthau (gan gynrychioli 65% o gyfanswm y gwylio). Mae hyn yn parhau i amrywio ar draws y gwledydd, gyda chyfran gwylio'r BBC o newyddion rhanbarthol yn uwch yng Nghymru (74%), ac yn is yn yr Alban (56%) a Gogledd Iwerddon (53%).[238]
- **Newyddion lleol ar radio:** Mae defnyddio radio gwledydd / lleol y BBC ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol wedi gostwng ers 2023, er bod hyn wedi arafu (11% yn 2026 o'i gymharu â 12% yn 2025 a 16% yn 2023).[239] Roedd gostyngiad hefyd yn nifer y defnyddwyr radio masnachol lleol (17% yn 2026, i lawr o 21% yn 2025 a 22% yn 2023).[240] Mae cyfanswm yr oriau gwrando hefyd wedi disgyn 5% o un flwyddyn i'r llall ond mae cyrhaeddiad gorsafoedd lleol / cenedlaethol y BBC yn dal yn sefydlog ar 12%.[241] Mae cyrhaeddiad gorsafoedd radio

[237] E.e. mae cynulleidfaoedd clyweledol yn dewis fwyfwy rhwng opsiynau llinol ac ar-lein yn yr un amgylchedd gwylio, sy'n golygu ei bod hi'n hawdd newid.
[238] Barb fel y'i gwyliwyd, oedolion 16 oed a hŷn. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi y cartref. Mae gwylio'n cynnwys chwarae'n fyw, wedi'i recordio ac ar-alw.
[239] Nid yw'r gwahaniaeth rhwng 2025 a 2026 o ran y defnydd o radio gwledydd / lleol y BBC ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol yn arwyddocaol yn ystadegol.
[240] Arolwg Ofcom ar Lleol 2026.
[241] RAJAR Ch1 2026 yn erbyn Ch1 2025 ar bwysoliad 12 mis.

gwledydd / lleol y BBC yn parhau i amrywio ar draws y DU gyda chyrhaeddiad wythnosol yn uwch ar gyfer Gogledd Iwerddon (25%), yr Alban (19%) a Chymru (15%) o'i gymharu â chyfartaledd y DU (12%).[242]

- **Newyddion lleol ar-lein**: Yn gyffredinol mae'r ymweliadau â thudalennau ar-lein lleol y BBC wedi cynyddu ers 2022, gyda thwf arafach rhwng H1 2025 a H1 2026. Roedd y tueddiadau'n amrywio ar draws y gwledydd dros y cyfnod hwn, gyda nifer yr ymweliadau â thudalennau yn cynyddu'n sylweddol yng Nghymru ond yn disgyn ychydig yn Lloegr.[243] Dros yr un cyfnod, gwelodd darparwyr newyddion masnachol lleol ostyngiad sylweddol yn nifer yr ymweliadau â thudalennau ledled y DU ac rydym yn trafod hyn ymhellach isod.[244] Mae ein harolwg diweddar yn dangos bod canran yr oedolion sy'n defnyddio gwefan neu ap y BBC ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol wedi disgyn ers 2025 (33% yn 2026, lawr o 37% yn 2025). Mae'r ganran sy'n defnyddio grwpiau neu gyfrifon lleol ar gyfryngau cymdeithasol wedi aros yn sefydlog (36 yn 2026, fyny o 34% yn 2025).[245]

Rhaid i unrhyw asesiad o safle'r BBC mewn newyddion lleol gydnabod bod ganddo rwymedigaethau i wasanaethu cynulleidfaoedd gyda'r cynnwys hwn a bod y BBC yn rhan hanfodol o dirwedd cyfryngau lluosog. Mae ein ffocws cystadleuaeth ar effaith y BBC yn addasu ei wasanaethau mewn ymateb i newidiadau yn anghenion cynulleidfaoedd, a fydd yn amrywio yn ôl sector. Mae ein safbwyntiau lefel uchel o'r sectorau hyn yn dal yn debyg i'r rheini a nodwyd yn ein hadroddiad Adolygiad o Gyfryngau Lleol 2024, gan fod y data wedi'i ddiweddaru yn dangos yr un darlun yn fras ar draws y sectorau clyweledol, sain ac ar-lein.[246,247] Yn benodol:

- **Newyddion rhanbarthol ar deledu:** Rydym o'r farn bod mwy o botensial i newidiadau i raglenni newyddion rhanbarthol y BBC gael effaith sylweddol ar gystadleuwyr (h.y. Sianel 3), o'u cymharu â newidiadau i radio lleol, gan fod y BBC yn dal i gael cyfran fawr o wylio newyddion y gwledydd/rhanbarthau. Yn gyffredinol, rydym o'r farn y byddai'r effaith yn dibynnu ar natur y newid, a byddai angen i ni ystyried yr effeithiau ar gynulleidfaoedd fel rhan o asesiad cystadleuaeth os cynigir newid sylweddol i newyddion teledu gwledydd/rhanbarthau'r BBC.
- **Newyddion lleol ar radio:** Rydym o'r farn bod effaith unrhyw newid i newyddion lleol y BBC ar radio yn debygol o fod yn gyfyngedig, o ystyried bod radio lleol masnachol yn denu cynulleidfa fwy na radio lleol y BBC, gan gynnwys ar gyfer newyddion lleol. Fodd bynnag, rydym o'r farn y bydd yr effaith yn dibynnu ar yr ardal ddaearyddol benodol yr effeithir arni, a'r newidiadau penodol a wneir gan y BBC.
- **Newyddion lleol ar-lein:** Fel y dangosir uchod, mae darparwyr masnachol lleol yn wynebu heriau ond mae arwyddion y gallai ffactorau ar wahân i'r BBC fod yn sbarduno hyn. Nodwn fod Reach PLC wedi adrodd am lai o atgyfeiriadau i wefannau ei gyhoeddwyr, yn bennaf o Google, yn ei adroddiad interim ar gyfer 2026.[248] Mae rhai

[242] Data RAJAR Ch1 2026 ar bwysoliad 12 mis; cyrhaeddiad BBC Local Radio yn TSA BBC Radio Ulster, TSA BBC Radio Scotland, TSA BBC Radio Wales a TSA Pob Radio.
[243] Data cais am wybodaeth gan y BBC ar ymweliadau â thudalennau ar-lein lleol.
[244] Data Ipsos Iris.
[245] Arolwg Ofcom ar Gyfryngau a Newyddion Lleol 2026. Nid yw'r gwahaniaeth yng nghanran yr ymatebwyr sy'n defnyddio "gwefan neu ap y BBC" a "grwpiau neu gyfrifon lleol ar gyfryngau cymdeithasol" yn arwyddocaol yn ystadegol.
[246] Fel y trafodwyd yn Adroddiad Blynyddol y BBC y llynedd, rydym yn deall bod yr Undeb Darlledu Ewropeaidd (EBU) wedi asesu effaith gweithgareddau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyhoeddwyr newyddion ar-lein masnachol, ond roeddem o'r farn ei bod yn anodd cymhwyso ei ganfyddiadau i'r DU gan ei bod yn astudiaeth ar draws gwledydd yn bennaf.
[247] Cawn ar ddeall hefyd, ar sail ymateb y BBC i'n cais ffurfiol am wybodaeth ar yr Adroddiad Blynyddol, nad yw'r BBC wedi gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i ddarpariaeth newyddion lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
[248] Canlyniadau interim 2026 Reach PLC, 22 Gorffennaf 2026.

adroddiadau'n awgrymu y gallai ehangu trosolwg deallusrwydd artiffisial[249] a newidiadau algorithmig[250] fod yn lleihau gweledigaeth gwefannau cyhoeddwyr ac felly'r niferoedd sy'n clicio arnynt. Rydym hefyd yn nodi rhywfaint o dystiolaeth sy'n dangos y gall pobl ddefnyddio newyddion lleol masnachol a newyddion lleol y BBC (ar-lein, ar y teledu ac ar y radio) at ddibenion ychydig yn wahanol.[251] Fodd bynnag, ac ystyried twf cyson y BBC mewn newyddion lleol ar-lein, dylai'r BBC ystyried effaith bosibl unrhyw newidiadau i'w wasanaethau yn y dyfodol.

[249] Enders Analysis, 14 Gorffennaf 2025, Publishers' (in)visibility problem: Organic traffic under pressure; Pew Research Center, 22 Gorffennaf 2025, Google users are less likely to click on links when an AI summary appears in the results; Reuters Digital News Report 2026, tudalen 38-40.

[250] Yn ôl y Press Gazette dywedodd Prif Weithredwr Reach wrth fuddsoddwyr fod traffig Google Discover i safleoedd Reach wedi disgyn 46% yn ystod ail hanner y flwyddyn (2025) wrth i'r llwyfan flaenoriaethu mwy o gynnwys a fideos sy'n cael eu cynhyrchu gan ddefnyddwyr. Mae erthygl yn Reuters yn 2026 "Journalism, media, and technology trends and predictions 2026" yn dangos cwymp yn nifer yr atgyfeiriadau i wefannau cyhoeddwyr o Google Search a Google Discover yn ystod ail hanner 2025.

[251] Roedd astudiaeth gan y Llywodraeth yn 2025 ar newyddion lleol ar draws ar-lein, radio a theledu wedi canfod tystiolaeth ansoddol, mewn rhai ardaloedd lle mae gwasanaethau lleol masnachol a'r BBC yn bodoli, bod darparwyr masnachol yn rhoi mwy o fanylion a mwy o ffocws lleol iawn na'r BBC.

Safonau Cynnwys

Mae agwedd y BBC at safonau golygyddol yn hanfodol i'w ddarpariaeth o newyddion a chynnwys o ansawdd uchel y gall cynulleidfaoedd ymddiried sy'n gywir, yn deg ac yn ddiduedd. Mae'r safonau hynny'n sail i lawer o'r hyn rydym yn ei ddisgrifio yn ein pennod gynharach ar Ddiben Cyhoeddus 1, ac mae eu pwysigrwydd yn bwysicach fyth yn yr amgylchedd gwybodaeth presennol, lle mae'n anoddach sefydlu'r gwirionedd a lle mae'r 'gallu i ganfod' yn cael ei reoli fwyfwy gan drydydd partïon. Ar y sail hwn, mae cyd-destun safonau golygyddol y BBC yn 25/26 wedi bod yn heriol, yn enwedig oherwydd canlyniadau rhai materion golygyddol proffil uchel a gyfrannodd at ymddiswyddiadau Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC a Phrif Weithredwr BBC News.

Perfformiad Safonau Cynnwys yn 2025/26

- Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a wnaed i'r BBC yn 25/26, sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â nifer o faterion golygyddol proffil uchel dros y cyfnod. Er gwaethaf hyn, roedd nifer y cwynion a oedd yn ymwneud â'r BBC a gafodd Ofcom wedi disgyn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y BBC hefyd wedi cyhoeddi llai o benderfyniadau yn amlinellu ei resymeg yn y cyfnod hwn. Dywedodd wrth Ofcom mai'r rheswm am hyn oedd y cynnydd yn nifer y cwynion am ei gynnwys ar-lein. Hyd yma nid yw'r BBC wedi gorfod cyhoeddi penderfyniadau am y cwynion hyn, ond rydym yn bwriadu diweddaru ein gofynion i sicrhau tryloywder o ran cwynion sy'n ymwneud â deunydd llinol a deunydd ar-lein.
- Lansiodd Ofcom ddau ymchwiliad i gynnwys y BBC yn ystod 25/26. Ni chadarnhawyd un, a oedd yn ymwneud â chwyn Tegwch a Phreifatrwydd.[252] Roedd y llall yn ymwneud â'r rhaglen ddogfen *Gaza: How to Survive a War Zone*, a oedd, yn ein barn ni, wedi torri Rheol 2.2 ("camarwain sylweddol") o'r Cod Darlledu. [253] O ystyried difrifoldeb y tor-amod, fe wnaeth Ofcom orchymyn y BBC i ddarlledu crynodeb o'i ganfyddiadau.

Y fframwaith rheoleiddio ar gyfer safonau cynnwys y BBC

Mae'r hyder yn safonau golygyddol y BBC yn dibynnu ar oruchwyliaeth ac atebolrwydd effeithiol. Mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am ei bolisi golygyddol ei hun ac am osod a glynu wrth Ganllawiau Golygyddol y BBC, ac mae Ofcom yn rheoleiddio safonau cynnwys ar wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU drwy'r Cod Darlledu a'r gweithdrefnau a gyhoeddwn. Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn ymgorffori gofynion Cod Darlledu Ofcom ac yn ymestyn ymhellach i bolisi golygyddol y BBC ar gyfer cynnwys y BBC.

Cyflwynwyd dau newid pwysig i fframwaith rheoleiddio'r BBC ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- Mae Cod Deunydd Ar-lein newydd y BBC ("BBC OMC") yn ymestyn gwaith rheoleiddio Ofcom i gynnwys ar-lein y BBC a gyhoeddir fel rhan o'i Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU. Bydd hyn yn cynnwys deunydd ar wefannau newyddion a chwaraeon y BBC, apiau'r BBC ar

[252] Rhifyn 531

[253] Cafodd yr ymchwiliad hwn ei lansio ym mis Gorffennaf 2025 ond adroddwyd arno yn Adroddiad Blynyddol blaenorol Ofcom ar y BBC ar gyfer 24/25 y tu allan i'r cylch ar gyfer y flwyddyn berfformiad honno, oherwydd diddordeb cryf y cyhoedd yn yr achos. Roedd Ofcom o'r farn y gallai'r achos o dorri'r rheolau leihau'r lefelau uchel o ymddiriedaeth mae cynulleidfaoedd yn eu disgwyl gan raglenni ffeithiol y BBC.


ffonau clyfar neu ddyfeisiau eraill, unrhyw gyfrif cyfryngau cymdeithasol swyddogol y BBC ac adnoddau addysgol a dysgu'r BBC.[254]

- Dyletswydd newydd ar Ofcom i adolygu sampl gynrychioladol o gŵynion am y BBC o fewn ein cylch gwaith sydd wedi cwblhau cam olaf proses gwyno'r BBC (Cam 2).[255] Ym mis Gorffennaf 2026, fe wnaethom gyhoeddi Protocol y cytunwyd arno gyda'r BBC yn nodi sut byddai'r adolygiadau hyn yn cael eu cynnal a'u hadrodd. Rydym wedi dechrau adolygu sampl gynrychioladol o gŵynion Cam 2 yn rheolaidd. Er bod y gwaith hwn yn perthyn y tu allan i gyfnod adrodd yr adroddiad hwn gan fwyaf, mae ein canfyddiadau cychwynnol yn Atodiad 4. Byddwn yn adrodd yn llawnach ar y gwaith hwn yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf ar y BBC.

Ymdrin â Chwynion yn 2025/26

Yn wahanol i wasanaethau darlledu eraill sy'n cael eu rheoleiddio, mae gan y BBC gyfle i ddatrys cwynion cynulleidfaoedd cyn bod modd eu huwchgyfeirio i Ofcom ac fel arfer dim ond ar ôl cwblhau'r broses honno mae modd codi cwynion gydag Ofcom. Bydd Ofcom wedyn yn asesu'r gŵyn yn erbyn y Cod Darlledu ac yn cymryd camau gorfodi pan fydd angen.[256] Mae'r broses BBC yn Gyntaf yn caniatáu i gynulleidfaoedd ddal y BBC i gyfrif yn uniongyrchol ac mae hefyd yn helpu i sicrhau bod y BBC yn aros yn agos at y materion sy'n ymwneud â'i gynulleidfaoedd.

Ffigur 5: Y broses BBC yn Gyntaf i gynulleidfaoedd sydd wedi cwyno am y BBC




Roedd y BBC wedi bodloni ei dargedau Dangosyddion Perfformiad Allweddol ymateb i gŵynion yn 2025/26

Er gwaethaf cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a wnaed i'r BBC, roedd wedi bodloni ei ddangosyddion perfformiad allweddol ei hun ar gyfer cwynion yn ystod y cyfnod hwn.

[254] Datblygwyd OMC newydd y BBC yn dilyn argymhellion a wnaed yn Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth yn 2024 o'r BBC o Siarter y BBC a diweddariad dilynol i Gytundeb Fframwaith y BBC.
[255] Deilliodd y gofyniad hwn o Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth o'r BBC, ac fe'i ymgorfforwyd wedyn i Gytundeb Fframwaith y BBC.
[256] Mae system 'BBC yn Gyntaf ' yn cael ei gweithredu gan y Senedd ac mae'n adlewyrchu Siarter a Chytundeb y BBC.

Ffigur 6: Trosolwg o gŵynion y BBC a thargedau dangosyddion perfformiad allweddol yn 25/26



Rhoddodd y BBC wybod i Ofcom am ddau achos difrifol o dorri'r rheolau golygyddol yn ystod 25/26:

- Rhaglen BBC East oedd y gyntaf lle defnyddiodd y gwestai, yn ystod cyfweliad â gwleidydd o Gynghrair Amami, y cyfle i ddilyn agenda heb unrhyw her. Ar yr achlysur hwn, o ystyried y camau a gymerwyd eisoes gan y BBC, nid oedd Ofcom o'r farn bod angen cymryd unrhyw gamau rheoleiddio pellach.
- Roedd yr ail yn ymwneud â'r rhaglen ddogfen "*Gaza: How to Survive a Warzone*" (gweler uchod).

Materion darlledu byw y BBC yn 25/26

Roedd dau ddigwyddiad darlledu byw wedi codi pryderon am effeithiolrwydd goruchwyliaeth olygyddol a chydymffurfedd y BBC mewn perthynas â'i wasanaethau ffrydio.

Roedd bloeddio a arweiniwyd gan y band Bob Vylan yng ngŵyl gerddoriaeth Glastonbury ym mis Mehefin 2025, a ffrydiwyd yn fyw ar BBC iPlayer, wedi arwain at ganfyddiad yr ECU bod y darllediad wedi torri Canllawiau Golygyddol y BBC ar niwed a thramgwydd. Nid oedd yr ECU wedi cadarnhau cwynion cysylltiedig am dorri rheolau didueddrwydd.

Ym mis Chwefror 2026, cafodd seremoni wobrwyo ffilmiau BAFTA ei darlledu ar BBC One gydag oedi o ddwy awr. Roedd yn cynnwys darlledu sarhad hiliol hynod dramgwyddus, a oedd yn dal yn y fersiwn a oedd ar gael ar BBC iPlayer tan y bore canlynol. Cynhaliodd yr ECU ymchwiliad brys gan gadarnhau cwynion am niwed a thramgwydd.


Cynhaliodd Ofcom drafodaethau gyda'r BBC am yr achosion hyn. Ymrwymodd y BBC i gymryd camau pellach yn dilyn penderfyniadau ei ECU, gan gynnwys cryfhau ei asesiadau ar gyfer darlledu digwyddiadau byw a chodi'r ymwybyddiaeth fewnol o'i bolisïau ar dynnu cynnwys oddi ar BBC iPlayer.

Roedd nifer y cwynion i Ofcom wedi disgyn wrth i nifer y cwynion Cam 1 i'r BBC gynyddu

Rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 cafodd Ofcom 1,648 o gŵynion safonau am gynnwys y BBC. O'r rhain, roedd 162 wedi cwblhau proses gwyno'r BBC ac felly fe wnaethom gyfeirio'r gweddill yn ôl at y BBC. Mae hyn yn parhau â patrwm blynyddol am i lawr yn nifer y cwynion o'r fath a wneir i

Ofcom ac sy'n cael eu hatgyfeirio'n ôl i'r BBC.[257] Fodd bynnag, roedd cyfanswm y cwynion Cam 1 i'r BBC wedi codi 20% ers 24/25, fel yr amlinellir yn y ffigur isod.

Ffigur 7: Trosolwg o Gŵynion yr ymdriniwyd â nhw o dan y system BBC yn Gyntaf yn 2025/26



Rydym wedi ymgysylltu â'r BBC ar y mater hwn ac mae wedi egluro bod materion penodol wedi arwain at nifer fawr o gŵynion yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Roedd digwyddiadau penodol fel ffrwd fyw Bob Vylan yn Glastonbury, yn ogystal â materion mwy cyffredinol fel cwynion am lefel y sylw a roddwyd i Reform UK yn ystod y flwyddyn, wedi arwain yn benodol at y cynnydd.

Astudiaeth Achos: Rhifyn Arbennig o BBC Question Time ar Is-etholiad Makerfield

Ar 4 Mehefin 2026 darlledodd BBC News a BBC One rifyn arbennig o *Question Time* cyn is-etholiad Makerfield. Roedd yn cynnwys panel gyda phum ymgeisydd a oedd yn cynrychioli'r Blaid Lafur, Reform UK, y Blaid Geidwadol, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Werdd.

Ar ôl y darllediad, ac ar ôl cael ymateb terfynol y BBC, cwynodd Plaid Restore Britain wrth Ofcom fod ei hymgeisydd wedi cael ei eithrio. Roedd yn rhaid i Bwyllgor Etholiadau Ofcom[258] benderfynu a oedd y rhaglen wedi arwain at unrhyw bryderon am ddidueddrwydd dyladwy o dan y Cod Darlledu, a daeth i'r casgliad nad oedd wedi gwneud hynny.

[257] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2024-25, t.69, Ffigur 8

[258] Yn ystod cyfnod etholiad, mae gan Ofcom Bwyllgor Etholiadau sydd ag awdurdod wedi'i ddirprwyo gan Fwrdd Ofcom i benderfynu ar gŵynion am ddidueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni sy'n ymwneud ag etholiadau y gallai fod angen ei hunioni cyn yr etholiad os cânt eu cadarnhau.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y BBC wedi gwneud penderfyniad golygyddol rhesymol adeg y darllediad drwy beidio â chynnwys ymgeisydd Restore Britain er bod 7% yn cefnogi Plaid Restore Britain yn ôl y polau piniwn a'i bod yn y trydydd safle. Roedd penderfyniad y Pwyllgor yn tanlinellu'r angen i ddarlledwyr adolygu tystiolaeth newydd berthnasol o'r gefnogaeth etholiadol bresennol yn ystod cyfnodau etholiadau, er mwyn sicrhau bod pleidiau gwleidyddol yn cael sylw priodol.

Ni wnaeth Ofcom gyfeirio unrhyw gŵynion am sylw'r BBC i etholiadau mis Mai 2025 at ymchwiliad

Ar gyfer yr etholiadau lleol a maerol yn Lloegr yn 2025, gweithredodd y BBC ganllawiau etholiadol pwrpasol a oedd yn rhoi sylw i ddidueddrwydd dyladwy, tegwch i ymgeiswyr a materion eraill yn ei sylw i etholiadau. Ni chafodd yr ECU unrhyw gŵynion am etholiadau lleol na maerol mis Mai 2025.[259]


Fodd bynnag, yn ystod cyfnod etholiadau 2025, ystyriodd Ofcom 13 o gŵynion (5 achos) yn ymwneud â chynnwys etholiadol y BBC a oedd wedi cael eu gwneud i Ofcom heb gwblhau BBC yn Gyntaf. Fe wnaethom asesu pob un o'r cwynion hyn i benderfynu a oedd angen i Ofcom gamu i mewn ar sail eithriadol cyn BBC yn Gyntaf, ond daethom i'r casgliad nad oedd angen i ni wneud hynny. Felly, cafodd yr holl gŵynion hyn eu hatgyfeirio'n ôl i'r BBC. Nid oeddem wedi ystyried unrhyw gŵynion a oedd yn ymwneud â deunydd ar-lein y BBC.

Roedd cwynion nodedig am gynnwys etholiadol y BBC a ystyriodd Ofcom yn cynnwys wyth cwyn am *Sunday with Laura Kuenssberg,* a ddarlledwyd ar 13 Ebrill 2025. Roedd y cwynion yn datgam bod Nigel Farage a Phlaid Reform wedi cael sylw anghymesur yn y rhaglen, er mai dim ond pedwar Aelod Seneddol oedd gan y blaid. Roedd y cwynion yn dadlau bod Reform yn cael mwy o amser ar yr awyr na phleidiau eraill o faint seneddol tebyg neu fwy, ac eithrio Llafur a'r Ceidwadwyr. Ystyriodd Ofcom y cwynion hyn ac atgyfeirio pob un ohonynt yn ôl at y BBC i gwblhau BBC yn Gyntaf.

Roedd nifer y cwynion am ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy y BBC a ystyriodd Ofcom wedi cynyddu dros y flwyddyn

Yn ystod y cyfnod 25/26 cafodd Ofcom 829 o gŵynion am ddidueddrwydd dyladwy (36% o holl gŵynion am y BBC i Ofcom), sy'n gymharol debyg i'r llynedd pan gawsom 827. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys cwynion am Safonau'r BBC a chwynion am Deunydd ar-lein y BBC.

Ffigur 8: Trosolwg o gŵynion yn ymwneud â didueddrwydd priodol a chywirdeb priodol yn y BBC yn 25/26



[259] Ymateb y BBC i Gais am Wybodaeth. 28 Gorffennaf 2026

Roedd gostyngiad yn y rhesymeg a gyhoeddwyd ar gyfer cwynion am y BBC yn 25/26

Roedd nifer yr achosion heb eu cadarnhau y cyhoeddodd y BBC ei resymeg drostynt wedi disgyn o 240 yn 24/25 i 167 yn 25/26.[260] Dyma'r ffigur isaf ers pedair blynedd. Eglurodd y BBC mai'r rheswm dros y gostyngiad oedd ei fod wedi cael cynnydd yn nifer y cwynion am ddeunydd ar-lein y BBC a gostyngiad yn nifer y cwynion am gynnwys llinol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ar hyn o bryd, nid oes yn rhaid i'r BBC gyhoeddi ei ganfyddiadau mewn perthynas â chwynion am ddeunydd ar-lein, ond mae'n rhaid iddo wneud hynny ar gyfer cwynion llinol. Mae Ofcom nawr yn bwriadu diweddaru ei Determinations in relation to BBC complaints handling, i sicrhau i sicrhau tryloywder o ran cwynion am ddeunydd, boed yn ddeunydd llinol neu ar-lein.

Mae cwynion am degwch a phreifatrwydd yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom

Mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau bod darlledwyr yn osgoi trin unigolion neu sefydliadau sy'n ymddangos mewn rhaglenni, neu y mae rhaglenni'n effeithio arnynt yn uniongyrchol, yn anghyfiawn neu'n annheg. Mae ganddo ddyletswydd hefyd i sicrhau nad yw darlledwyr yn tarfu ar breifatrwydd unigolion heb gyfiawnhad, naill ai mewn rhaglenni fel y cawsant eu darlledu neu wrth gasglu deunydd sy'n cael ei gynnwys mewn rhaglenni.

Mae modd i unigolion neu sefydliadau wneud cwynion am degwch a phreifatrwydd os oedd rhaglenni wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Mae modd cyfeirio'r cwynion yn uniongyrchol at Ofcom (nid oes angen mynd drwy'r broses BBC yn Gyntaf). Yn ystod 25/26, asesodd Ofcom 57 o gŵynion am raglenni'r BBC mewn perthynas â thriniaeth anghyfiawn neu annheg, a/neu darfu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad - deg yn fwy nag yn 2024/25.

Ni chafodd unrhyw un o'r cwynion yn 25/26 eu cadarnhau. Roedd Ofcom wedi cwblhau un ymchwiliad tegwch a phreifatrwydd i un o raglenni'r BBC, ni chafodd ei gadarnhau.

Ni roddodd Ofcom farn ar unrhyw achosion perthnasol ar-lein

Cyn cyflwyno OMC y BBC, sy'n gwella ein pwerau rheoleiddio ar gyfer deunydd ar-lein y BBC, roedd gan Ofcom rôl o ran rhoi barn ynghylch a oedd y BBC wedi dilyn ei Ganllawiau Golygyddol ei hun yn y cynnwys hwn. Yn ystod 25/26 asesodd Ofcom 113 o gŵynion a'u cau (109 o achosion) yn y ffordd hon, o gymharu â 58 o gŵynion (58 o achosion) y llynedd. Roedd 552 o gŵynion eraill (282 o achosion) wedi cael eu cyfeirio at y BBC o dan y system BBC yn Gyntaf, neu y canfuwyd eu bod y tu allan i'n cylch gwaith. O'r 109 achos a aseswyd gan Ofcom yn 25/26, cafodd 107 eu cau fel 'ddim yn cael eu derbyn' yn dilyn asesiad gan Ofcom.

Mae hyn yn golygu nad oeddem yn credu bod y deunydd ar-lein dan sylw yn codi problemau posibl o dan Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC ac nid oedd yn cyfiawnhau ystyriaeth bellach gan Ofcom. Canfuwyd bod y ddau achos arall y tu allan i gylch gwaith Ofcom. Byddwn yn adrodd ar weithredu OMC y BBC, a'r holl ddatblygiadau rheoleiddio eraill sy'n ymwneud â safonau cynnwys y BBC, yn Adroddiad Blynyddol nesaf Ofcom ar y BBC.

[260] Yn unol â'n Penderfyniadau ynghylch Cwynion cyfredol, mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi ei resymau dros (i) pob penderfyniad sy'n ymwneud â chwyn am gywirdeb dyladwy neu ddidueddrwydd dyladwy sy'n cyrraedd cam terfynol ei broses gwyno a (ii) pob penderfyniad sy'n ymwneud ag achos lle mae'r BBC wedi cael dros 100 o gŵynion am yr eitem yng Ngham 1a.